# Dysgwyr Mwy Galluog a Thalentog

Canllawiau i’r sector addysg bellach
yng Nghymru



# Contents


Rhagair y Gweinidog ........ 1

Cyflwyniad ........ 3

Diffinio MAT o fewn AB ........ 4

Rhai mythau ........ 4

Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn ........ 6

Safbwyntiau dysgwyr: adborth o arolwg Llais Dysgwyr Cymru 2015 (adroddiad Saesneg yn unig) ........ 7

Adran 1: Dull gweithredu sefydliad cyfan ........ 8

Datblygu strategaeth sefydliad cyfan ........ 9

Rolau a chyfrifoldebau ........ 11

Gweithio mewn partneriaeth ........ 13

Adran 2: Nodi dysgwyr MAT ........ 16

Datblygu dull systematig ........ 16

Sut olwg sydd ar ddysgwr MAT? ........ 17

Strategaethau nodi ........ 18

Cysyniad gwahanol o 'allu' ........ 20

Adran 3: Olrhain, monitro a gwerthuso ........ 22

Cylch cynllunio, monitro a gwerthuso awgrymedig ........ 23

Datblygu dangosyddion perfformiad ........ 24

Gwerthuso effaith ........ 25

Adran 4: Dylunio'r cwricwlwm ........ 26

Adolygu'r cwricwlwm ........ 27

Gweithgareddau cyfoethogi ........ 28

Defnyddio technolegau dysgu ........ 31

Adran 5: Strategaethau addysgu a dysgu ........ 33

Yr ymarferydd MAT ........ 33

Asesu ar gyfer dysgu ........ 35

Dysgu gwahaniaethol ........ 36

Datblygu sgiliau 'go iawn' ........ 37

Adran 6: Cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial ........ 39

Heriau i ddysgwyr MAT ........ 39

Sicrhau cydraddoldeb ........ 40

Adeiladu gwydnwch ... 41
Sicrhau llwybrau datblygu ... 42
Atodiad A: Taith dysgwyr MAT ... 47
Atodiad B: Templed archwiliad iechyd ... 50
Atodiad C: Astudiaethau Achos ... 56
Astudiaeth achos: Rhaglen atodol MAT 14-19 ... 56
Astudiaeth achos: Canolfan Seren Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin ... 57
Astudiaeth Achos: Bagloriaeth Cymru a dysgu dwyieithog ... 58
Astudiaeth Achos: Defnyddio profion gwybyddol i nodi potensial ... 59
Astudiaeth achos: Safonau proffesiynol ym maes Cynhyrchu'r Cyfryngau ... 60
Astudiaeth achos: Rhaglen AUR ... 61
Astudiaeth achos: Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau ... 62
Astudiaeth achos: Myfyrwyr anrhydedd a'r Prosiect Unigol ... 63
Astudiaeth achos: Cymorth unigol i ddysgwyr ... 64
Astudiaeth achos: Rhaglen Llysgenhadon Ifanc Cenedlaethol ... 65
Astudiaeth achos: Tîm Digwyddiadau Gwallt a Harddwch ... 66
Astudiaeth achos: Ymdrin â rhwystrau penodol ... 67
Astudiaeth achos: Mynd i'r brifysgol ... 68
Astudiaeth achos: Tafflab ... 69
Atodiad Ch: Adnoddau - Gwefannau defnyddiol ... 70

# Rhagair y Gweinidog

Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar ddau adolygiad a edrychodd ar sut mae pobl ifanc ddisgleiriaf Cymru yn cael y gefnogaeth i gyflawni eu llawn botensial. Yn 2014 cyhoeddodd Llysgennad Oxbridge Cymru, Paul Murphy AS (Barwn Murphy o Dorfaen bellach), ei adroddiad ar y dirywiad yn nifer y ceisiadau a derbyniadau i Oxbridge gan fyfyrwyr o Gymru. Arweiniodd ei argymhellion at sefydlu rhwydwaith canolfannau Seren: 11 o bartneriaethau rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau, a gynlluniwyd i sicrhau bod y bobl ifanc fwyaf galluog yn academaidd Cymru yn dilyn rhaglen strwythuredig o ddysgu, cefnogaeth a chyngor a fydd yn eu helpu i lwyddo ar eu dewis lwybr gyrfa.

Gwnaethom hefyd gomisiynu adolygiad manwl o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog mewn ysgolion ac addysg bellach yng Nghymru, a wnaeth adrodd yn ôl ym mis Ionawr 2016. Fel adolygiad Llysgennad Oxbridge, nododd sawl enghraifft o arfer da, a thanlinellwyd ymrwymiad arweinwyr addysgol ac athrawon i gyflawni'r gorau i'w dysgwyr. Hefyd, dangosodd fod awydd i gymryd camau mwy cyson i gefnogi dysgwyr MAT mewn addysg bellach. Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu llunio gydag ac ar gyfer y sector o ganlyniad uniongyrchol i'r adborth hwn.


Mae sefydliadau addysg bellach yn gweithio gydag ystod amrywiol iawn o ddysgwyr, pynciau, lefelau a chyrsiau. Mae eu cwricwlwm yn amrywio o lefel mynediad i addysg uwch; mae'r rhan fwyaf yn darparu rhaglenni academaidd yn ogystal â rhai galwedigaethol. Gall y fath amrywiaeth ei gwneud hi'n anoddach nodi potensial, ond mae hefyd yn cynnig llawer o gyfleoedd i gynnig profiadau cyfoethog a boddhaol i ddysgwyr.

Mae gwaith Llysgennad Oxbridge, a sefydlu rhwydwaith Seren ar ôl hynny, yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu '30 Ymddiriedolaeth Sutton' – sefydliadau addysg uwch mwyaf dethol Prydain. Mae rhesymau da dros hyn. Mae a wnelo paratoi pobl ifanc i ymgeisio am brifysgolion da â datblygu eu sgiliau astudio ac ymchwil, eu gallu i weithio'n annibynnol, eu hyder a'u penderfyniad. Mae'n golygu eu helpu i ddewis pynciau sy'n rhoi'r siawns orau o ddatblygu iddynt, ac sy'n eu galluogi i wireddu eu breuddwydion. Mae'r rhain oll yn egwyddorion nad ydynt yn gyfyngedig i ddysgwyr yn dilyn llwybrau academaidd, ond sydd yr un mor gymwys i'r rheini â nodau galwedigaethol, chwaraeon, artistig neu entrepreneuraidd.

Mae Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 yn amlinellu blaenoriaethau ein Llywodraeth dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n ymrwymo i *hyrwyddo a gwella llwybrau academaidd a galwedigaethol ym maes addysg bellach ac uwch a rolau ein sefydliadau addysg yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.* Bydd strategaeth gynhwysfawr i gefnogi dysgwyr MAT yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad hwn; mae'n golygu rhoi'r un sylw a gwerth i bob math o allu, a datblygu dysgwyr yn ddinasyddion cyfrifol, cyflawn sy'n barod i ymgysylltu â'r byd. Nod y canllawiau hyn yw darparu technegau ymarferol y gall pob sefydliad eu defnyddio i nodi a meithrin potensial ei ddysgwyr.

Hoffwn ddiolch i'r cynrychiolwyr o'r sector addysg bellach sydd wedi helpu i lunio'r canllawiau hyn, ac sydd wedi darparu astudiaethau achos i ddangos yr arfer da sydd eisoes yn bodoli. Croesawn adborth ar y canllawiau ac efallai y bydd angen trafod cefnogaeth bellach yn barhaus er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael y gefnogaeth i gyflawni ei ddyheadau.





**Alun Davies AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

# Cyflwyniad

> *"Mae'r disgyblion a myfyrwyr yng Nghymru yr wyf wedi'u cyfarfod yn ystod fy astudiaeth mor ddisglair ag unrhyw rhai yn unman. Pa bynnag lwybr a ddewisant mewn bywyd, ein gwaith ni yw eu harfogi i anelu'n uchel iawn."*
>
> - Adroddiad terfynol Llysgennad Oxbridge, Mehefin 2014

Rhoddodd yr Arolwg i ganfod y ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog drwy Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 drosolwg o'r sefyllfa bresennol yn y sector addysg bellach (AB), a chadarnhaodd ymrwymiad y sector i sicrhau bod dysgwyr MAT yn cael y gefnogaeth i gyflawni eu potensial.  Dywedodd Sefydliadau Addysg Bellach (AB) wrthym eu bod am gael canllawiau er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y sector cyfan, ac i'w helpu i adeiladu ar arfer da presennol.  Cadarnhaodd trafodaethau pellach â sefydliadau y meysydd lle mae angen datblygu ymhellach.

**Beth mae AB yn ei wneud yn dda yn gyffredinol nawr**

- Nodi, olrhain a chefnogi dysgwyr 'MAT academaidd'
- Partneriaethau â sefydliadau Addysg Uwch (AU) er mwyn cyfoethogi dysgu a chefnogi datblygu, gan gynnwys drwy sefydlu rhwydwaith Seren
- Cynllunio a chyflawni rhai gweithgareddau dysgu ac ymestyn gwahaniaethol
- Defnyddio cystadlaethau sgiliau i feithrin rhagoriaeth ymhlith dysgwyr galwedigaethol (mewn rhai sefydliadau)
- Monitro ac olrhain dysgwyr MAT
- Rhoi cymorth ariannol i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig

**Meysydd i'w datblygu ymhellach**

- Strategaethau sefydliad cyfan ar gyfer darpariaeth MAT
- Dulliau nodi amlhaenog nad ydynt yn dibynnu ar gyrhaeddiad blaenorol yn unig, gan gynnwys profion gwybyddol i nodi potensial
- Dull cynhwysfawr o nodi a chefnogi dysgwyr 'MAT galwedigaethol'
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol a thechnolegau dysgu digidol
- Hyfforddiant pellach i ymarferwyr, o bosibl drwy 'hyrwyddwyr' dynodedig ymhob SAB
- Gwaith partneriaeth rhwng ysgolion a cholegau er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn ar gyfer pob dysgwr MAT
- Protocolau trosglwyddo data clir ar gyfer anghenion cymorth a data perfformiad dysgwyr

Yn dilyn yr adolygiad, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r sector ac Estyn er mwyn helpu i sicrhau bod y canllawiau hyn yn diwallu'r anghenion hyn ac yn rhoi cyngor ymarferol ar sut i wella. Disgwyliwn i'r canllawiau hyn barhau i ddatblygu dros amser, a chroesawn adborth gan SABau er mwyn helpu gyda'r broses hon.

Mae cryn ymchwil, gwybodaeth a chanllawiau ar ddisgyblion MAT (neu 'ddawnus') mewn ysgolion, ond llawer llai ar arfer da wrth gefnogi dysgwyr MAT yn y sector ôl-16, a bron dim byd ar allu eithriadol mewn dysgu galwedigaethol.  O ganlyniad, mae llawer o'r cyngor yn y canllawiau hyn wedi'i addasu o ffynonellau sydd naill ai wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion, neu sy'n ymwneud â dysgu ôl-16 ond nid i ddysgwyr MAT yn benodol.  Byddwn yn gweithio gyda'r

sector AB i ystyried sut y gallem ddechrau llenwi rhai o'r bylchau hyn drwy ymchwil weithredu a datblygu ymarferwyr.

Mae llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu addysg bellach Estyn yn nodi nad oes gan arolygwyr unrhyw ddewis ddull o werthuso effeithiolrwydd addysgu. Dylid canolbwyntio ar effaith addysgu ac asesu ar ddysgu a chynnydd dysgwyr, ac nid ar y defnydd o broses benodol sydd ar wahân i'w heffaith. Mae canllawiau atodol Estyn ar ddysgwyr MAT wedi eu diweddaru er mwyn ategu'r trefniadau arolygu newydd ar gyfer llawer o sectorau o fis Medi 2017.

## Diffinio MAT o fewn AB

At ddibenion y canllawiau hyn diffiniwn MAT fel a ganlyn:

> ***Dysgwyr sy'n dangos, neu sydd â'r potensial i ddangos, allu a/neu dalent eithriadol, mewn un neu fwy o agweddau ar eu dysgu.***

Mae'r diffiniad hwn yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer MAT mewn ysgolion[1]. Fe'i datblygwyd gyda'n gweithgor, er mwyn adlewyrchu cyd-destun y sector AB ac amrywiaeth ei ddysgwyr. Gan adlewyrchu adborth gan y sector, rydym wedi mynd ati'n fwriadol i osgoi cyfeiriadau at gategoreiddio canran benodol o ddysgwyr yn MAT, neu gymharu'r dysgwyr hyn â'u grŵp cymheiriaid; ac rydym wedi anelu at ddiffiniad sy'n rhoi'r un gwerth i allu a thalent alwedigaethol ac academaidd ymysg ffurfiau eraill.

## Rhai mythau

*"Mae strategaeth MAT yn elitaidd ac yn groes i natur gynhwysol y sector AB"*

Nid yw'n 'gynhwysol' anwybyddu anghenion penodol dysgwyr MAT, sydd angen addysgu a chefnogaeth wedi'u teilwra i gyflawni eu potensial. Os na chaiff dysgwr MAT ei nodi neu fod rhaglenni sefydliad yn rhy gul i ddiwallu ei anghenion, bydd hyn yn effeithio ar ei gynnydd a'i ddeilliannau.

Daw dysgwyr MAT o bob cefndir a gallant brofi caledi ariannol, anawsterau dysgu neu heriau eraill, felly gall fod anfanteision sy'n eu rhwystro os na chânt eu cefnogi gan strategaeth sefydliadol gynhwysfawr.

Nid oes rheswm i fentrau fel gweithgareddau cyfoethogi ac ymestyn, mentora cyflogwyr, ysgolion haf, neu gymorth ychwanegol gyda cheisiadau prifysgol i fod ar gael i ddysgwyr MAT yn unig; i'r gwrthwyneb, gall cyfranogi helpu dysgwyr ag ystod llawer ehangach o alluoedd, a darparu cyfleoedd cyfoethog i weithio fel grŵp. Gall dysgwyr MAT llwyddiannus a chyn-fyfyrwyr hefyd fod yn fodelau rôl ysbrydoledig i eraill. Rhydd Adran 4 ganllawiau ar sut y gall gweithgareddau cyfoethogi fod o fudd i ddysgwyr MAT.

*"Caiff dysgwyr MAT eu cymell gan eu llwyddiannau eu hunain ac nid oes angen yr un ganmoliaeth ac anogaeth arnynt â dysgwyr eraill"*

Mae hyn yn rhannol wir; caiff dysgwyr MAT eu cymell gan gyflawniadau yn yr un ffordd ag

[1]Y diffiniad a ddefnyddir ar gyfer ysgolion yng Nghymru yw: 'disgyblion y mae arnynt angen cyfleoedd mwy cyfoethog ac estynedig ar draws y cwricwlwm er mwyn datblygu eu galluoedd mewn un neu ddau o feysydd'. Gweler http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-meeting-the-challenge-cy.pdf am ragor o wybodaeth.

unrhyw ddysgwr. Ond dylai eu llwyddiannau gael eu cydnabod a'u dathlu, nid eu cymryd yn ganiataol a'u celu, oherwydd ofn cynhyrfu eraill. Dylai sefydliadau hefyd ystyried sut i alluogi eu dysgwyr i gymryd risgiau, gwneud camgymeriadau a dysgu o'u methiannau mewn amgylchedd diogel – rhywbeth a all fod yn hynod anodd i rai dysgwyr MAT.

*"Caiff gallu neu alluedd eu hadlewyrchu naill ai mewn meysydd academaidd neu alwedigaethol, ac mae angen rhaglenni ar wahân er mwyn cael cefnogaeth ddigonol gan sefydliad AB"*

Mae gwahanu gallu academaidd a galwedigaethol yn ddeuoliaeth ffug a gallai, mewn gwirionedd, atgyfnerthu canfyddiadau bod llwybrau galwedigaethol yn 'israddiol' i rai academaidd. Gall fod gan ddysgwyr alluoedd neilltuol mewn meysydd academaidd a galwedigaethol, a bod angen 'pontio' rhwng y ddau ar wahanol adegau, ac i'r ddau gyfeiriad.

*"Bydd gallu eithriadol fel arfer yn amlwg cyn i ddysgwr gyrraedd AB, yn aml pan fydd plentyn yn fach iawn"*

Mae'n bosibl nodi gallu a thalent yn ifanc a'u gweld ar ffurf deilliannau cadarn fel canlyniadau arholiad, profion IQ, arholiadau cerddoriaeth a chyflawniadau creadigol neu chwaraeon. Ond nid bob tro. Gall pobl ifanc MAT fod wedi diflasu, teimlo'n rhwystredig, bod ofn sefyll allan, neu, am lu o resymau eraill, ddim cael eu nodi yn yr ysgol. Neu, efallai fod eu galluoedd mewn meysydd ymarferol nas dangosir yn iawn yn yr ysgol, ond sy'n dod yn amlwg adeg dysgu galwedigaethol.

*"Gall dysgwyr MAT gael eu nodi ar sail cyrhaeddiad blaenorol neu sgoriau profion"*

Mae hyn yn bendant yn un ffordd o nodi gallu, a gall weithio'n dda i rai dysgwyr MAT. Ond ni fydd cyflawniad academaidd ynddo'i hun byth yn cyfleu'r darlun llawn. Gall fod dysgwyr wedi tangyflawni yn yr ysgol am amrywiaeth o resymau (er enghraifft, anawsterau dysgu, ofn stigma, problemau emosiynol/ymddygiadol neu ddiffyg cydnabyddiaeth gan athrawon); neu efallai mai dim ond ar ôl cyrraedd AB y byddant yn dod i wybod beth maent wir yn dda yn ei wneud, ac yn cael gwahanol gyfleoedd a ffyrdd o ddysgu. Mae hyn oll yn golygu y gall gallu eithriadol gael ei 'gelu' ac ni all SABau ddibynnu ar gyrhaeddiad blaenorol yn unig; mae angen iddynt ddod o hyd i ffyrdd o asesu potensial dysgwyr.

Gweler Adran 2 am ragor o gyngor ar strategaethau nodi.

*"Mae dysgwyr MAT yn ddigon disglair i weithio'n annibynnol â llai o gymorth na dysgwyr eraill"*

Mae angen cefnogaeth ar ddysgwyr MAT fel unrhyw ddysgwr arall ac maent yn ei haeddu. Maent yr un mor debygol o wynebu anawsterau dysgu a chael problemau personol ac o ran cymhelliant, ac maent yn agored i ddiflastod a rhwystredigaeth os na chânt ddigon o her. Hefyd mae angen iddynt ryngweithio'n gymdeithasol â dysgwyr eraill o wahanol gefndiroedd.

Nid yw hyn yn golygu y dylai dysgwyr MAT gael eu rhoi mewn grwpiau gallu cymysg heb unrhyw ddarpariaeth ar wahân. Yn ddelfrydol, dylai sefydliadau ddefnyddio cyfuniad o waith cymysg, grŵp bach, pâr ac annibynnol er mwyn galluogi unigolion MAT i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus, cyflawn. Byddant yn bendant yn cael budd o weithgareddau dysgu a reolir yn dda gyda'u cyd-fyfyrwyr MAT, a all helpu gyda chymhelliant ac ystyriaeth fanwl o gysyniadau a heriau.

*"Bydd dysgwyr MAT fel arfer yn sefyll allan oherwydd eu hawydd i ddysgu a'u cymhelliant, y cyntaf i godi llaw pan fydd yr athro neu'r darlithydd yn gofyn cwestiwn"*

Er y gall dyhead gyfateb i allu yn achos llawer o ddysgwyr, gall eraill fod yn amharod i sefyll allan. Gallant ofni pwysau cymheiriaid, neu fod am osgoi cael gwaith ychwanegol (yn enwedig os yw'n 'fwy o'r un peth' yn hytrach na gweithgareddau ymestynnol gwirioneddol heriol ac ysgogol).

*"Mae "gallu" fel arfer yn gysylltiedig â dysgwyr academaidd, tra bo 'talent' yn gymwys i ddysgwyr galwedigaethol"*

Gwelir y gwahaniaeth hwn mewn dogfennau canllaw MAT 'swyddogol' amrywiol, ac fe'i mabwysiadir yn aml gan SABau. Fodd bynnag, gall gwahaniaethu'r term yn y ffordd hon fod yn gynhennus, gan ddynodi gwahaniaeth sylfaenol mewn galluoedd a chyflawniadau academaidd a galwedigaethol. Tra gall dysgwyr ddangos galluoedd arbennig o gryf mewn meysydd ymarferol, caiff y rhain eu dosbarthu ar draws y boblogaeth, gyda llawer o ddisgyblion ysgol MAT yn dweud bod yn well ganddynt fathau o ddysgu ymarferol a chymhwysol.

Yn y canllawiau hyn nid ydym wedi gwahaniaethu rhwng 'gallu' a 'thalent' yn y fath fodd, ond rydym wedi defnyddio'r termau mewn ffordd gyfnewidiol, ac wedi eu cymhwyso'n gyfartal ar gyfer llwybrau academaidd a galwedigaethol.

## Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

Mae'n bwysig nodi bod yr hyn sy'n gweithio i ddysgwyr MAT yn gweithio i bob dysgwr. Mae'r rhan fwyaf o'r technegau a'r syniadau a amlinellir yn y canllawiau hyn – dysgu gwahaniaethol, asesu ffurfiannol, cyfoethogi'r cwricwlwm – eisoes yn cael eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r sector AB. Felly, ni fwriedir i'r ddogfen hon roi canllawiau cynhwysfawr ar y rhain. Yn hytrach, mae'n nodi sut y gall SABau atgyfnerthu a theilwra eu dulliau gweithredu fel eu bod yn berthnasol i anghenion penodol dysgwyr MAT.

Mae SABau unigol yn dechrau o bwyntiau gwahanol ac, felly, efallai y bydd gwahanol agweddau ar y canllawiau hyn yn fwy neu'n llai perthnasol i'w sefydliadau. Fodd bynnag, rydym am i bob SAB gefnogi dysgwyr MAT mewn ffordd gynhwysfawr a chynhwysol. Argymhellir yn gryf fod pob SAB yn llunio ei strategaeth sefydliad cyfan ei hun. Bydd yn ymgorffori mentrau ac arfer gorau presennol, o fewn fframwaith cyffredinol y gall staff ei ddefnyddio i helpu i sicrhau cysondeb rhwng rhaglenni, adrannau a champysau.

Rydym wedi darparu templed hunanasesu (Atodiad B) y gall pob sefydliad ei ddefnyddio i gynnal 'archwiliad iechyd' o'i ddull o ddarparu ar gyfer dysgwyr MAT yn erbyn y safonau a geir yn y canllawiau hyn. Bydd hyn yn nodi cryfderau a gwendidau, fel llinell sylfaen i gynllunio camau gweithredu ar lefel sefydliadol. Bydd hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod canllawiau, cefnogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol yn briodol i natur unigryw'r sector AB a'i ddysgwyr.

## Safbwyntiau dysgwyr: adborth o arolwg Llais Dysgwyr Cymru 2015 (adroddiad Saesneg yn unig)

> *Rwy'n dwli ar y ffordd mae fy nghwrs coleg yn fy ngwthio i feithrin fy sgiliau artistig. Mae hyn yn bwysig iawn i mi, fel fy mod yn barod i'r brifysgol. Mae ganddo lu o adnoddau, sy'n gadael i mi gyflawni prosesau gwahanol. Mae POB tiwtor yn barod i helpu unrhyw bryd a gwneud yr ymdrech gyda'r holl fyfyrwyr. Mae'n fraint eu cael yn addysgu. Caf fy nhrin fel oedolyn. Mae'r cyngor a'r adborth yn glir iawn sy'n fy ngalluogi i ddatblygu ac ennill graddau uchel.*

Mae gan y grŵ*p [MAT] lawer mwy o wybodaeth am brifysgol, er enghraifft, hoffwn astudio meddygaeth yn y brifysgol, rwyf wedi bod i'r swyddfa yrfaoedd ddwywaith ond nid yw wedi bod o unrhyw gymorth. Caiff y grŵp [MAT] sawl trafodaeth am brifysgol ac yn ddiweddar trafodwyd cyrsiau meddygaeth yn y brifysgol, yn fy marn i dylai'r rhain fod ar gael i unrhyw un oherwydd credaf ei fod wedi fy rhwystro o gymharu â myfyrwyr eraill nad yw'n deg o gwbl.*

> *Fel rhywun sy'n cwblhau gwaith mor gyflym a da â phosibl, caiff llawer o amser ei wastraffu gan fyfyrwyr sydd ddim yn malio dim. Ni ddylwn i fod yn gorfod aros i fyfyrwyr dynnu eu pwysau pan rwy'n barod i gamu ymlaen.*

*Mae'n eich annog i feithrin sgiliau sydd gennych yn barod, nid wyf byth yn teimlo'n rhwystredig ac rwyf bob amser yn cael fy herio i wella fy sgiliau/gwaith ymhellach sy'n gwbl hanfodol o ran gwella fy hun a gwella fy siawns o lwyddo ar fy newis llwybr gyrfa.*

# Adran 1: **Dull gweithredu sefydliad cyfan**

## Safonau

1.1 Mae gan y sefydliad strategaeth gyffredinol ar gyfer MAT, sy'n cynnwys nodau ac amcanion diffiniedig â thargedau priodol, nid dim ond cyfres o fentrau ar wahân

1.2 Arweinir darpariaeth MAT ar y lefel uchaf o fewn y sefydliad, ac fe'i hymgorfforir yn ei gynlluniau strategol, a chaiff ei thrafod yn rheolaidd gan yr uwch dîm arwain a'r Bwrdd

1.3 Cymerir camau gweithredu integredig sy'n cwmpasu dysgwyr â galluoedd eithriadol mewn meysydd academaidd, galwedigaethol ac eraill (fel gweithgareddau artistig, chwaraeon neu entrepreneuraidd), ac sy'n rhoi'r un gwerth i'r holl feysydd hyn

1.4 Mae rhaglenni MAT yn rhan o strategaeth sefydliad cyfan gynhwysol ar gyfer cynyddu cyfleoedd a photensial dysgwyr, sy'n sefydlu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ymhob maes dysgu

1.5 Mae llywodraethwyr yn ymwneud â'r strategaeth MAT a'i rhaglenni ategol, ac yn trafod diweddariadau rheolaidd â thystiolaeth ar eu deilliannau

1.6 Mae'r sefydliad wedi meithrin partneriaethau cryf ag ysgolion, sefydliadau AU, cyflogwyr, sefydliadau MAT arbenigol a'r trydydd sector er mwyn sicrhau ei fod yn manteisio ar ystod eang o arbenigedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ei ddysgwyr MAT

1.7 Mae seilwaith ar waith i gefnogi dysgwyr MAT, gan gynnwys aelodau dynodedig o staff sy'n gyfrifol am gydgysylltu gweithgareddau gan ystyried dewisiadau ieithyddol dysgwyr a'u cryfderau yn y Gymraeg a'r Saesneg

1.8 Mae gan y cydgysylltydd neu'r cydgysylltwyr MAT rolau diffiniedig clir, amser wedi'i neilltuo, datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), adnoddau dwyieithog a'r awdurdod i gyflawni eu cyfrifoldebau

1.9 Caiff staff ymhob rhan o'r sefydliad arweiniad, cefnogaeth a DPP i'w helpu i nodi, addysgu a chefnogi dysgwyr MAT yn effeithiol

Nododd arolwg o ddarpariaeth MAT yng Nghymru Llywodraeth Cymru fod pob SAB yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion ei ddysgwyr mwyaf galluog, gan fabwysiadu amrywiaeth o ddulliau gweithredu a rhaglenni. Caiff llawer o'r rhain eu cynnwys fel astudiaethau achos yn Atodiad C o'r canllawiau hyn. Fodd bynnag, nid oedd gan y rhan fwyaf o SABau strategaeth sefydliad cyfan ar gyfer MAT na ffordd systematig o nodi unigolion MAT o fewn y boblogaeth ddysgu gyfan. Mae maint, amrywiaeth a gwasgariad daearyddol y rhan fwyaf o SABau yn peri heriau penodol. Dangosodd trafodaeth bellach â SABau, er bod cyflwyno rhwydwaith Seren wedi eu helpu i ddechrau datblygu dull mwy unedig o hyrwyddo rhagoriaeth academaidd, roedd y rhan fwyaf yn teimlo nad oedd eu trefniadau ar gyfer nodi a chefnogi gallu galwedigaethol eithriadol wedi datblygu'n ddigonol.

Mae sawl mantais i sefydlu strategaeth MAT gyffredinol. Bydd yn sicrhau bod staff yn deall sut i nodi dysgwyr MAT, eu bod yn gallu rhoi cefnogaeth wedi'i thargedu iddynt yn gyson yn eu dewis iaith, a'u bod yn cael DPP cywir. Bydd hyn yn helpu i sicrhau dull systematig o fonitro a gwerthuso effaith. Yn bwysicaf oll, bydd yn helpu i sicrhau bod gallu a photensial pob dysgwr yn cael eu nodi a'u datblygu – nid dim ond y rhai sy'n ymuno ag AB â hanes o lwyddiant addysgol.

Mae hyn yn hynod o bwysig o ran sicrhau gwir degwch rhwng dysgu galwedigaethol ac academaidd, rhywbeth a ddylai fod wrth wraidd pob cenhadaeth SAB.

## Datblygu strategaeth sefydliad cyfan

Mae pob SAB yn wahanol o ran ei strwythurau, cwricwlwm a meysydd arbenigol, ac mae'n dechrau o linell sylfaen wahanol o ran aeddfedrwydd ei ddull o ddiwallu anghenion dysgwyr MAT.  Felly, ni fwriedir i'r canllawiau hyn ragnodi fformat penodol ar gyfer strategaeth MAT. Fodd bynnag, rydym yn credu bod agweddau ar arfer da a ddylai fod yn rhan o bob strategaeth MAT, ac elfennau allweddol y dylai pob SAB eu rhoi ar waith.  Crynhoir y rhain yn Ffig. 1 ar y dudalen nesaf.

Caiff cysyniadau fel 'cyflawni rhagoriaeth', 'codi dyheadau' a 'dathlu llwyddiant' eu cynnwys yn natganiadau cenhadaeth neu weledigaeth a gwerthoedd y rhan fwyaf o SABau.  Hefyd, mae gan lawer eu polisïau wedi'u dogfennu ar gyfer eu mentrau MAT penodol eu hunain, fel rhaglenni cyfoethogi neu gefnogaeth i ddysgwyr i wneud cais i brifysgolion dethol.  Ond gall fod bwlch rhwng yr ethos cyffredinol hwn o lwyddiant i bob dysgwr, a'r ymyriadau sy'n digwydd gyda grwpiau penodol o ddysgwyr (sydd fwyaf aml yn canolbwyntio ar 'anelwyr uchel' academaidd a'r rheini â doniau artistig neu chwaraeon).  Heb nodau neu dargedau strategol sydd wedi'u cyfleu'n glir, sut y gall SABau sicrhau bod pob dysgwr sydd â'r potensial i gyflawni ar lefelau eithriadol, sut bynnag y daw hyn i'r golwg (neu y caiff ei gelu), yn cael ei nodi a'i gefnogi?

Felly, argymhellwn fod pob sefydliad, fel rhan o'i strategaeth MAT gyffredinol, yn diffinio nodau ac amcanion penodol fel fframwaith i staff ei ddilyn wrth gefnogi eu dysgwyr MAT, a ategir gan broses gosod targedau personol.  Nid yw hyn yn mynd yn groes i ethos 'cyflawniad i bawb'; i'r gwrthwyneb, mae'n ei hatgyfnerthu, am fod 'pob dysgwr' yn cynnwys dysgwyr MAT!  Fel yr eglurir yn Adran 6 o'r canllawiau hyn, mae unigolion â gallu eithriadol yn wynebu eu heriau a'u rhwystrau eu hunain i lwyddo, y gallant eu goresgyn gyda dealltwriaeth a chefnogaeth eu SAB.

**Enghreifftiau awgrymedig o amcanion strategol**

- Byddwn yn sefydlu proses gynhwysfawr a meini prawf cynhwysol ar gyfer nodi potensial pob dysgwr, ac yn sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu'n gyson gan y sefydliad
- Byddwn yn rhoi'r un gwerth a chydnabyddiaeth i botensial dysgwyr ym mhob maes, gan gynnwys galluoedd ymarferol, academaidd, creadigol, chwaraeon neu arweinyddiaeth
- Byddwn yn gweithio'n agos gyda dysgwyr â gallu eithriadol a'u teuluoedd er mwyn sicrhau bod cyfleoedd dysgu wedi'u teilwra i'w anghenion, diddordebau a dyheadau gan ystyried eu cefndir ieithyddol a'u cryfderau
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod llwybrau datblygu perthnasol a heriol ar gael i ddysgwyr sy'n anelu'n uchel yn eu dewis bwnc neu ddiwydiant, gan nodi'r llwybrau sydd ar gael yn Gymraeg fel sydd angen
- Byddwn yn sicrhau bod dysgwyr yn cael modelau llwyddiant amrywiol ac ysbrydoledig gan wneud pob ymdrech i nodi siaradwyr Cymraeg
- Byddwn yn darparu DPP a chyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod staff yn hyderus i nodi a chefnogi dysgwyr MAT yn Gymraeg a/neu Saesneg i wireddu eu potensial
- Byddwn yn annog ac yn cefnogi dysgwyr â galluoedd eithriadol i gyflawni eu potensial, a chodi eu hymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a'r heriau a welant
- Byddwn yn gweithio i ddatblygu dull cydweithredol o gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi gan ddarparu profiadau ymarferol, diwylliannol a chwaraeon

**Ffig.1: Elfennau awgrymedig strategaeth MAT sefydliad cyfan**



Man cychwyn da yw adolygu arfer cyfredol er mwyn nodi cryfderau, gwendidau ac anghysondebau mewn darpariaeth MAT. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys templed 'archwiliad iechyd' at y diben hwn (Atodiad B). Wrth gynnal yr ymarfer hwn, ystyriwch:

- Os oes gan y sefydliad strategaeth neu bolisi MAT yn barod, a yw'n gyfredol? A yw'n gynhwysfawr? A yw wedi'i ddeall a'i ddefnyddio gan staff ymhob rhan o'r sefydliad? Sut y dangosir tystiolaeth o unrhyw effaith? Sut rydych yn gwybod hyn?
- Sut i gynnwys staff yn yr archwiliad iechyd. Efallai fod gennych strategaeth a meini prawf ar waith, ond a yw pob aelod o staff yn teimlo'n hyderus yn eu dilyn? Yn ddelfrydol, dylech ystyried cynnal archwiliad iechyd o bob pwnc, gan gynnwys y dull cyflwyno, a dwyn y wybodaeth ynghyd mewn arolwg cyffredinol o'r sefydliad – bydd hyn yn helpu i nodi bylchau yn y ddarpariaeth, yn ogystal ag arfer gorau y gallwch adeiladu arno.
- A yw'r ffordd y mae'ch sefydliad yn ymdrin â MAT yn rhoi'r un sylw i allu a thalent mewn meysydd galwedigaethol, academaidd ac eraill?
- Pa mor gyson y dilynir arferion gan bob adran a champws? Sut rydych yn gwybod hyn?
- Sut i gynnwys dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr yn yr archwiliad iechyd. Bydd hyn fwy na thebyg yn cynnwys dadansoddi adborth sy'n bodoli eisoes o weithgareddau llais y dysgwr, a hefyd arolygon penodol a/neu grwpiau ffocws. Ystyriwch sut i gynnwys barn dysgwyr 'nad ydynt yn MAT' hefyd.
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i lywio eich adolygiad? A yw'n gyfredol?

## Rolau a chyfrifoldebau

Bydd union ddyraniad cyfrifoldebau yn amrywio yn ôl strwythur y sefydliad. Er enghraifft, gall fod gan SAB un cydgysylltydd MAT, neu gall fod ganddo fwy nag un person i oruchwylio gwahanol gampysau neu weithgarwch. Fodd bynnag, argymhellir y canlynol yn gryf:

➔ mae ymrwymiad i sicrhau bod dysgwyr MAT yn cyflawni eu potensial ar lefel uchaf y sefydliad, gyda'r Bwrdd, pennaeth ac uwch reolwyr yn rhoi arweiniad clir;

➔ mae'r uwch dîm arwain a'r Bwrdd yn adolygu cynnydd a deilliannau pob dysgwr MAT, nid dim ond y rhai sy'n dilyn llwybrau academaidd;

➔ caiff staff ar bob lefel ac ymhob rhan o'r sefydliad eu hannog a'u cefnogi i ddiwallu anghenion dysgwyr MAT;

➔ caiff y cyfrifoldeb am oruchwylio a chydgysylltu'r strategaeth MAT ei gynnwys yn nisgrifiad swydd o leiaf un uwch reolwr, gydag amcanion ategol clir a'r awdurdod i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

Mae Ffig. 2 isod yn amlinellu'r cyfrifoldebau allweddol sy'n rhan o weithredu strategaeth MAT yn llwyddiannus o fewn SAB.

## Ffig. 2: Rolau a chyfrifoldebau sefydliadol

| | |
|---|---|
| Bwrdd | Pennu cyfeiriad strategol darpariaeth MAT, fel rhan o ethos gyffredinol achub ar botensial pob dysgwr<br>Gosod targedau heriol o ran deilliannau dysgwyr MAT ac adolygu perfformiad yn eu herbyn |
| Pennaeth ac uwch dîm arwain | Sicrhau bod strategaeth MAT gynhwysfawr a'i bod yn cael ei rhoi ar waith yn gyson gan y sefydliad cyfan i siaradwyr Cymraeg a Saesneg<br>Sicrhau bod MAT yn rhan o bolisïau eraill y sefydliad lle bo'n briodol (fel cynlluniau datblygu'r gweithlu a chytundebau partneriaeth â sefydliadau eraill)<br>Sicrhau bod adnoddau priodol (dynol ac ariannol) ar gael i gefnogi dysgwyr MAT a gwerthuso deilliannau'r strategaeth MAT |
| Cydgysylltydd / Cydgysylltwyr MAT | Arwain y broses o weithredu strategaeth gyffredinol MAT ac adrodd ar gynnydd i'r uwch dîm arwain a'r Bwrdd fel y dangosir tystiolaeth ohono yn erbyn targedau perfformiad<br>Cefnogi a chynghori staff ymhob rhan o'r sefydliad er mwyn sicrhau cysondeb o ran darpariaeth MAT<br>Bod yn bwynt ffocws ar gyfer cydgysylltu DPP sy'n gysylltiedig â MAT, bod yn gyfrwng i rannu arfer gorau a chymryd cyfrifoldeb am werthuso ac adrodd ar effaith mentrau MAT<br>Datblygu arbenigedd a gwybodaeth am ymchwil ac arfer gorau MAT yn barhaus |
| Tîm gwasanaethau myfyrwyr | Helpu i nodi dysgwyr MAT o'r broses gwneud cais ymlaen, a helpu i sicrhau y cofnodir gallu a datblygiad yn gyson<br>Olrhain dysgwyr drwy gydol y broses gwneud cais o'r cyswllt cyntaf i gofrestru<br>Gweithio gydag ysgolion partner er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg<br>Casglu a gwerthuso adborth gan ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr ar effeithiolrwydd ymyriadau MAT<br>Gweithio gyda staff addysgu i gefnogi datblygiad gyrfaol dysgwyr, gan gynnwys ceisiadau am swydd a phrifysgol |
| Rheolwyr cyfadran/pwnc | Gweithio gyda thimau cyrsiau i ddatblygu meini prawf sy'n benodol i bwnc<br>Cychwyn a chefnogi'r broses o ymgorffori dulliau dysgu gwahaniaethol<br>Defnyddio adolygiadau o gyrsiau a hunanasesiadau i sicrhau bod dysgwyr MAT yn cael eu nodi, eu haddysgu a'u cefnogi mewn ffordd gyson |
| Pob aelod o'r staff addysgu | Gwybod sut i nodi potensial uchel ac atgyfeirio dysgwyr at gefnogaeth ychwanegol lle bo'n briodol<br>Defnyddio asesu ar gyfer dysgu i bennu targedau a nodau heriol ar gyfer dysgwyr MAT ac adolygu cynnydd â nhw'n rheolaidd<br>Defnyddio gweithgareddau ymestyn a chyfoethogi i wella dealltwriaeth dysgwyr a'u helpu i ddefnyddio eu dysgu i ddatrys problemau 'go iawn' |

| | |
|---|---|
| Tîm cefnogi dysgwyr | Sicrhau bod dysgwyr sydd â heriau ychwanegol, fel anawsterau dysgu neu broblemau iechyd meddwl, yn cael y gefnogaeth briodol er mwyn cyflawni eu llawn botensial |
| Rheolwr ansawdd | Sicrhau bod targedau penodol yn cael eu gosod ar gyfer cyflawniad a datblygiad dysgwyr MAT<br>Sicrhau bod effaith mentrau MAT, a deilliannau cyffredinol y strategaeth, yn cael eu gwerthuso fel rhan o broses hunanasesu reolaidd |

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae partneriaethau yn hanfodol i sicrhau bod gan ddysgwyr MAT strwythur cefnogaeth cynhwysfawr.  Ymhlith partneriaid allweddol pob SAB fydd:

- **Rhieni a gofalwyr dysgwyr MAT iau**, er mwyn sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn mewn penderfyniadau ac yn gallu cefnogi eu plentyn i gyflawni ei botensial, ac ymdrin ag unrhyw bryderon (fel pryderon am oblygiadau ariannol dilyn cwrs AB).
- **Cyflogwyr**, er mwyn cynnig cyfleoedd wedi'u teilwra fel mentora, prosiectau menter, cystadlaethau, interniaethau a siaradwyr gwadd, fel bod dysgwyr MAT yn meithrin dealltwriaeth drylwyr o yrfaoedd posibl a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith. Rhaid ystyried dewis iaith y dysgwr gan ei alluogi i wneud y mwyaf o'r profiadau.
- **Sefydliadau AU**, drwy sefydlu llwybrau datblygu penodol, cefnogaeth i wneud cais, rhaglenni cyn-fyfyrwyr, ysgolion haf, ymweliadau ymgyfarwyddo, bod yn rhan o rwydwaith Seren, a gweithgareddau allgymorth drwy gronfeydd Ehangu Mynediad.  Dylai colegau ystyried sut i ddatblygu llwybrau datblygu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy ddarpariaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym mhrifysgolion Cymru.
- **Sefydliadau'r trydydd sector** fel Ymddiriedolaeth Sutton, Ymddiriedolaeth Addysgol Villiers Park a Future First, er mwyn rhoi cefnogaeth wedi'i thargedu i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig i ddatblygu i AU (gweler Atodiad Ch am ragor o wybodaeth).
- **Sefydliadau arbenigol**, er mwyn datblygu dysgwyr â thalentau mewn meysydd penodol fel y celfyddydau neu chwaraeon, drwy weithgareddau cyfoethogi, nawdd, cystadleuaeth, mentora ac entrepreneuriaeth.

**Beth i'w ystyried wrth weithio mewn partneriaeth i gefnogi dysgwyr MAT**

- A yw mentrau MAT yn rhan o bartneriaethau a chynlluniau strategol ar y cyd, gan gynnwys y rhai â rhwydweithiau 14-19, sefydliadau AU, cyflogwyr allweddol a sefydliadau gwirfoddol?
- A yw byrddau partneriaeth a rhwydweithiau yn cynnwys ffocws priodol ar ddarpariaeth a deilliannau dysgwyr MAT?
- A oes gan weithgareddau partneriaeth nodau ac amcanion clir sy'n gwella'r broses ddysgu, ac a yw'r rhain wedi'u deall gan bob partner?
- A gaiff priod rolau SAB a sefydliad(au) partner eu cyfleu a'u deall?
- A hyrwyddir cyfleoedd i bob dysgwr a gai fudd (hyd yn oed os mai dysgwyr MAT yw'r prif ffocws)?
- A yw trefniadau partneriaeth yn cefnogi pontio dysgwyr rhwng gwahanol gamau ar ddysgu

ac i mewn i waith?

- A oes cyfleoedd DPP ar y cyd, fel y gall staff y sefydliad weithio gyda chymheiriaid mewn sefydliadau partner er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o anghenion dysgwyr MAT a sut y gellir eu diwallu?
- A gaiff unrhyw wybodaeth bersonol neu sensitif am ddysgwyr ei rhannu'n ddiogel o fewn Protocol Rhannu Gwybodaeth cytûn?

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Coleg Sir Gâr: Rhaglen atodol MAT 14-19

## Rhwydwaith Seren

Cafodd rhwydwaith Seren o 11 o ganolfannau rhanbarthol ei sefydlu yn 2015 er mwyn helpu dysgwyr academaidd disglair ledled Cymru i gyflawni eu potensial. Mae'r rhwydwaith yn helpu i atgyfnerthu partneriaethau rhwng ysgolion, colegau, prifysgolion a sefydliadau arbenigol fel y Brilliant Club, Ymddiriedolaeth Sutton a Future First, er mwyn helpu i sicrhau bod dysgwyr ymhob lleoliad yn cael cefnogaeth o'r radd flaenaf.

Mae canolfannau Seren yn anelu at:

- ymestyn a herio myfyrwyr yn eu hoff byncïau;
- cysylltu myfyrwyr â phrif brifysgolion y DU;
- creu grŵp cymheiriaid o fyfyrwyr disglair tebyg sy'n dwli ar eu pwnc ac am wybod mwy;
- helpu athrawon i ddarparu'r wybodaeth, cyngor a gweithgareddau gorau i'w myfyrwyr disgleiriaf;
- ysbrydoli myfyrwyr ynghylch dyheadau gyrfaol yn y dyfodol.

Mae cysylltiad clir rhwng y nodau hyn a'r strategaethau a amlinellir yn y canllawiau hyn ar gyfer cefnogi dysgwyr MAT, ac mae canolfannau Seren yn darparu canolbwynt i drefnu gweithgareddau cyfoethogi ac ymestyn sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr weithio gyda chymheiriaid tebyg o sefydliadau eraill. Mae'r rhwydwaith yn dal i fod yn gymharol newydd, gyda chanolfannau ledled Cymru ar gamau datblygu gwahanol, a chaiff amrywiaeth o ddulliau gweithredu eu defnyddio mewn ardaloedd gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n dylunio fframwaith gwerthuso ar gyfer Seren, a fydd yn cynnwys asesiad o'i effaith wrth i fwy o ddysgwyr ddilyn y rhaglen; rhydd hyn gyfleoedd i gymharu strategaethau a ddefnyddir gan y gwahanol ganolfannau a rhannu arfer gorau. Yn y cyfamser, gallai canolfannau ystyried defnyddio'r canllawiau hyn i'w helpu i gynllunio, monitro a gwerthuso eu gweithgareddau eu hunain.

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Coleg Sir Benfro: Canolfan Seren

## Y Gymraeg

Yn yr *Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*, mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi nodi ei weledigaeth glir i gael "miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050". Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, nodwyd chwe blaenoriaeth gweithredu:

- Cynllunio a Pholisi Iaith;
- Normaleiddio;
- Addysg;
- Pobl;
- Cefnogi;
- Hawliau.

Drwy gynllunio rhaglenni'n effeithiol o'r cychwyn, caiff siaradwyr Cymraeg yr un gwasanaethau â siaradwyr Saesneg a bydd yn gwneud yr iaith yn rhan normal o fywyd bob dydd. Mae addysg wrth wraidd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ac mae SABau yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu parhad ieithyddol i ddysgwyr sy'n symud o'r ysgol i ddysgu ôl-16. Rhaid cefnogi dysgwyr a datblygu seilwaith modern a chadarn ymhob agwedd er mwyn eu galluogi i ddefnyddio eu sgiliau a dod yn hyderus o ran eu sgiliau dwyieithog.

Ymhob agwedd ar eu polisi a gweithdrefnau MAT a ddisgrifir yn y ddogfen hon, dylai SABau ymgorffori darpariaeth i siaradwyr Cymraeg a chyflawni eu polisïau fel eu bod yn ei gwneud hi'n hawdd manteisio ar y gefnogaeth a roddir i bob dysgwr. Mae'n rhaid i ddysgwyr fod yn gyfforddus ym mha bynnag iaith a ddewisant, neu drwy ddefnyddio'r ddwy, fel y gallant fanteisio i'r eithaf ar yr holl gefnogaeth a ddarperir gan SABau.

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Coleg Gwent: Bagloriaeth Cymru a dysgu dwyieithog

# Adran 2: **Nodi dysgwyr MAT**

## Safonau

2.1 Ceir fframwaith sefydliad cyfan ar gyfer nodi dysgwyr MAT, a gaiff ei adolygu a'i ddatblygu'n barhaus

2.2 Nodir dysgwyr MAT gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a meini prawf, sy'n cydnabod y gall gallu eithriadol fod ar ffurfiau gwahanol a dod i'r amlwg ar adegau gwahanol

2.3 Mae'r dull o nodi dysgwyr MAT yn canolbwyntio ar botensial ac nid yw'n dibynnu ar gyrhaeddiad blaenorol yn unig na diffiniadau cul eraill o 'allu'; mae'n cydnabod efallai na fydd dysgwr MAT yn cyflawni ar lefel uchel ar hyn o bryd nac wedi'i gymell i lwyddo

2.4 Mae timau pwnc neu gyfadran wedi datblygu eu meini prawf eu hunain er mwyn nodi dysgwyr â chryn botensial yn eu meysydd yn gyson

2.5 Mae dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn rhan o'r broses nodi

2.6 Caiff staff, gan gynnwys timau derbyn, tiwtoriaid, darlithwyr a mentoriaid, eu hyfforddi i nodi MAT a deall beth y dylent ei wneud pan nodir dysgwr MAT, gan gynnwys gofynion cefnogi, atgyfeirio a chofnodi

2.7 Mae'r sefydliad yn mabwysiadu diwylliant o gydraddoldeb a chynhwysiant wrth siarad â dysgwyr MAT ac amdanynt, fel nad ydynt yn teimlo eu bod 'wedi'u targedu' sy'n anghyfforddus iddynt – ac nid yw dysgwyr nad ydynt yn MAT yn teimlo'n annigonol nac wedi'u heithrio

Weithiau bydd y broses o nodi gallu a thalent yn syml; bydd rhai dysgwyr yn cyrraedd SAB gyda hanes o berfformiad uchel, canlyniadau arholiad rhagorol, a'r awydd i lwyddo sy'n gwneud iddynt sefyll allan.  Ond mewn achosion eraill, bydd dysgwyr yn cyrraedd â photensial nas gwireddwyd nas nodwyd erioed.  Felly, rhaid i'r sefydliad cyfan eu nodi mewn ffordd gynhwysfawr.

## Datblygu dull systematig

Rhai pethau i'w cofio:

- Rhennir gallu galwedigaethol ac academaidd ymhlith y boblogaeth gyfan – nid oes y fath beth â dysgwr MAT 'nodweddiadol'.  Yn wir, bydd dibynnu ar stereoteipiau yn arwain at weithredu mewn ffordd gul sy'n methu â nodi potensial rhagorol llawer o ddysgwyr.
- Efallai y bydd gan ddysgwyr MAT anableddau, anawsterau dysgu neu anawsterau cymdeithasol/emosiynol/ymddygiadol sydd wedi dominyddu eu gyrfaoedd dysgu ac wedi arwain at dangyflawni.
- Mae rhieni yn debygol o feddu ar wybodaeth fanwl am alluoedd a chymeriad eu plant, a gallant gynnig cipolwg gwerthfawr – ond efallai y byddant hefyd yn poeni am oblygiadau label MAT.

- Efallai na fydd gan blant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal na'r rhai sy'n dod o leoliad addysg nad yw'n ysgol (EOTAS) eiriolwr rhianta cryf ac maent yn debygol o fod angen ystyriaeth arbennig, er mwyn sicrhau bod eu galluoedd a'u dyheadau yn cael eu nodi.
- Nid yw'r potensial am berfformiad uchel yn cyfateb i oedran na pherfformiad blaenorol, a gall dysgwyr gyrraedd uchafbwynt a man gwastad ar wahanol adegau yn eu bywydau. Felly, rhaid i'r broses o nodi fod yn barhaus, gyda 'drws agored' drwy gydol taith y dysgwr, yn hytrach na thybio y bydd gallu yn amlwg ar y pwynt mynediad/sefydlu.
- Efallai na fydd dysgwr yn dangos gallu uchel mewn un iaith ond gall fod yn hynod fedrus wrth gyfathrebu mewn iaith arall.

Mae'n bwysig bod pob SAB yn ystyried sut i gynnwys ei fframwaith nodi yn ei brosesau ei hun (er enghraifft, asesiad cychwynnol, sefydlu, tiwtorialau ac adolygiadau).

## Sut olwg sydd ar ddysgwr MAT?

Mae pob dysgwr yn wahanol. Fodd bynnag, ceir rhai pethau sy'n gyffredin rhwng dysgwyr MAT a nodir isod, ac a all helpu staff AB i ystyried a oes gan ddysgwr y potensial i berfformio ar lefel ragorol mewn unrhyw ddisgyblaeth (neu mewn sawl un).

**Gall dysgwyr MAT...**

- Fod yn rhugl a chroyw iawn
- Ffafrio gwaith llafar neu ymarferol i ysgrifennu
- Darllen yn gyflym a chadw gwybodaeth yn dda
- Dangos chwilfrydedd, gofyn cwestiynau treiddgar a gwneud ymchwil annibynnol
- Bod yn anghonfensiynol a gwrthsefyll y pwysau i gydymffurfio
- Ffafrio syniadau a heriau newydd i ymarfer sgiliau maent eisoes wedi'u meistroli
- Diflasu a mynd yn ddiamynedd, yn enwedig wrth ddelio â thasgau ailadroddus neu â phynciau nad ydynt yn eu hysbrydoli
- Bod yn dda am ddatrys problemau, gweld y cysylltiadau rhwng syniadau, a deall egwyddorion sylfaenol heb fawr ddim esboniad
- Gallu gweld pethau tebyg ac annhebyg yn gyflym, a nodi egwyddorion cyffredinol o enghreifftiau penodol
- Neidio camau dysgu, a mynd yn rhwystredig wrth orfod mynd yn ôl i lenwi'r bylchau mewn ffordd fwy llinellol
- Ddim fod yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, er enghraifft, ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill), a allai eu rhwystro rhag cyfathrebu a chael eu deall
- Ymgolli'n llwyr mewn pynciau sy'n eu hymddiddori, ond hefyd geisio gwneud gormod neu ei chael hi'n anodd 'gadael fynd' o ddarn o waith a symud ymlaen
- Meddu ar ymdeimlad cryf o gyfiawnder a bod yn sensitif i deimladau a chymhellion pobl eraill
- Pennu safonau uchel iawn i'w hunain ac i eraill, a theimlo'n rhwystredig os na chyrhaeddir y brig
- Dangos lefel o ddiddordeb anarferol mewn pynciau 'hŷn' fel materion cyfoes, a bod yn

hynod feirniadol o sefydliadau a'r 'status quo'

- Bod â hiwmor gwreiddiol a soffistigedig, i'r pwynt lle mae jôc yn mynd yn drech
- Gwerthfawrogi chwarae ar eiriau, dychan ac eironi, 'darllen rhwng y llinellau' a bod yn gyflym i werthfawrogi ystyr gudd
- Am drafod rhesymau a dylanwadau sylfaenol, yn hytrach na derbyn rheolau neu awdurdod ar eu hwyneb

## Strategaethau nodi

Yn y canllawiau hyn, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'r sector AB, nid ydym o blaid dull 'cwota' o nodi dysgwyr MAT o fewn sefydliad. Mae hyn yn golygu na ddylai SABau fod yn anelu at nodi'r '5% uchaf' na'r '10% uchaf' o'u poblogaeth dysgwyr. Yn hytrach, argymhellwn ddull cyfannol sy'n cydnabod y canlynol:

- bydd gan bob sefydliad rai dysgwyr MAT ar unrhyw adeg, a all gynnwys dysgwyr â photensial uchel nas nodwyd yn MAT eto;
- dosberthir gallu drwy'r boblogaeth gyfan, felly dylai'r 'garfan MAT' gynrychioli'n fras rhyw, ethnigrwydd, anabledd a chefndir economaidd-gymdeithasol;
- efallai fod dysgwyr MAT yn dilyn rhaglenni academaidd, galwedigaethol neu ddysgu cymysg a gallant ddangos gallu rhagorol mewn mwy nag un maes.

Wrth gwrs, cyrhaeddiad blaenorol yw'r ffordd symlaf o nodi dysgwyr MAT. Gall unigolyn sydd wedi cael canlyniadau rhagorol mewn arholiadau (neu mewn asesiadau eraill fel arholiadau cerdd) gael ei nodi cyn gynted ag y bydd yn gwneud cais i SAB, a'i atgyfeirio i raglenni cefnogi a chyfoethogi perthnasol. Ond mae'r fath ddull, er yn werthfawr, yn cynnwys nifer o gyfyngiadau.

**Problemau gyda dibynnu ar gyrhaeddiad blaenorol i nodi dysgwyr MAT**

Gall dysgwr fod â:

- nodweddion eraill sydd wedi ei atal rhag cyflawni ei orau yn y gorffennol; er enghraifft, anhawster neu anabledd dysgu;
- iaith gyntaf nad yw'n Gymraeg neu Saesneg;
- anawsterau cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol sydd wedi amharu ar ei ddysgu;
- amgylchiadau penodol, fel salwch hirdymor, a effeithiodd ar ei gyrhaeddiad;
- galluoedd y mae wedi eu celu mewn ymdrech i osgoi ymddangos yn wahanol;
- doniau nad ydynt wedi dod i'r amlwg yn iawn yn yr ysgol, fel sgiliau ymarferol, entrepreneuraidd neu arwain. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y sector AB; bydd pob ymarferydd wedi dod ar draws dysgwyr nad ydynt wedi gwneud yn arbennig o dda yn yr ysgol, ond sy'n dechrau blaguro pan ddechreuant wneud rhywbeth maent wir yn dda yn ei wneud;
- hanes o gael ei wahardd o'r ysgol, neu golli ysgol, am sawl rheswm; neu
- gymwysterau cyfyngedig iawn am ei fod yn EOTAS ac efallai nad oedd pob opsiwn ar gael iddo.

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Coleg Merthyr Tudful: Defnyddio profion gwybyddol i nodi potensial

### Ffig. 3: Crynodeb o ddulliau nodi

| Cyrhaeddiad blaenorol | Nodi ysgolion |
|---|---|
| Gall dysgwr ymuno ag AB gyda hanes o gyrhaeddiad blaenorol uchel (yn fwyaf nodweddiadol, proffil TGAU rhagorol). Dyma'r ffordd hawsaf o nodi dysgwyr MAT, ond gellir ei defnyddio fel rhan o ddull nodi ehangach oherwydd nid oes cysylltiad clir rhwng perfformiad blaenorol a photensial yn y dyfodol bob amser. Gall dysgwyr fod wedi tangyflawni yn yr ysgol am nifer o resymau neu, i'r gwrthwyneb, gallant fod wedi ennill graddau rhagorol drwy weithio'n galed tu hwnt na ellir ei gynnal yn yr hirdymor. Rhaid hefyd ystyried ym mha iaith y rhoddir cyfarwyddyd ac y cynhelir asesiadau, a all effeithio ar gyflawniad. | Mae'r berthynas rhwng ysgolion a SABau, a'r graddau y caiff gwybodaeth ei rhannu, yn dal i amrywio'n eang ledled Cymru (a hyd yn oed o fewn ardaloedd awdurdod lleol). Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn nodi'r disgwyliad y caiff Protocolau Rhannu Gwybodaeth eu defnyddio ledled Cymru i hwyluso'r broses o rannu data'n ddiogel a all helpu SABau i gefnogi pobl ifanc; nid yw hyn yn gyfyngedig i grwpiau 'agored i niwed' ond dylai gynnwys dysgwyr o bob gallu. Lle bo'r Protocolau hyn yn gweithio'n dda, byddant yn darparu ffynhonnell werthfawr o wybodaeth sy'n mynd y tu hwnt i ganlyniadau arholiad i nodi cryfderau, dewisiadau dysgu a heriau dysgwyr unigol. |
| **Profion gwybyddol** | **Nodi athrawon/tiwtoriaid/mentoriaid** |
| Gellir defnyddio profion rhesymu llafar neu ddi-lafar i asesu potensial dysgwyr, a gellir nodi dysgwyr MAT sydd wedi tangyflawni'n flaenorol neu nad yw eu galluoedd mewn parthau academaidd traddodiadol. Dylid defnyddio profion Cymraeg a/neu Saesneg i sicrhau y gellir asesu'r dysgwr yn gywir. | Gall athrawon weld arwyddion o allu rhagorol ar ddechrau neu yn ystod y rhaglen ddysgu, drwy berfformiad mewn profion, cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a/neu ddangos doniau arbennig mewn meysydd ymarferol. |
| **Hunan-nodi** | **Nodi cymheiriaid** |
| Dylai'r dysgwyr eu hunain gael cyfle i nodi eu bod yn MAT a gofyn am y gefnogaeth a'r her sydd eu hangen arnynt. Efallai na ddefnyddiant derminoleg MAT ond mae eu huchelgeisiau, diddordebau a sôn am waith allgyrsiol i gyd yn arwyddion y gall athrawon/tiwtoriaid hyfforddedig weithredu arnynt. | Mae dysgwyr eraill yn aml yn ymwybodol iawn o alluoedd eu cymheiriaid a gallant nodi potensial mewn eraill – naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at gymheiriad sy'n dangos gwybodaeth neu sgiliau arwain helaeth). |
| **Nodi rhieni** | **Atgyfeiriad gan sefydliadau eraill** |
| Mae rhieni/gofalwyr yn debygol o feddu ar wybodaeth fanwl am alluoedd eu plentyn a'r hyn sydd ei angen arno i'w helpu i ddysgu.<br>Fodd bynnag, gallant fod yn poeni am gael eu gweld fel 'rhiant eofn', neu am oblygiadau ariannol neu oblygiadau eraill labelu eu plentyn yn MAT. | Mewn rhai achosion, bydd sefydliadau celfyddydol neu chwaraeon arbenigol, sefydliadau cymunedol, seicolegwyr addysgol neu Gyrfa Cymru i gyd wedi dod i gysylltiad â dysgwr cyn iddo ymuno ag AB. Dylai gwaith partneriaeth gynnig cyfleoedd i rannu gwybodaeth am ddysgwyr MAT a'u dyheadau mewn ffordd ddiogel. |

***Disgleirdeb galwedigaethol***

Mae Annie Haight yn un o'r ychydig o academyddion sydd wedi astudio nodweddion 'disgleirdeb galwedigaethol' mewn rhyw ffordd. Dangosodd ei hadolygiad o astudiaethau o ddysgwyr galwedigaethol dawnus ac entrepreneuriaid eu bod yn dueddol o gael eu nodweddu gan:

- lefelau uchel o gymhelliant a dyfalbarhad;
- ffafriaeth amlwg am fathau o ddysgu cymhwysol, ymarferol a chydweithredol;
- lefel nodedig o ddawn 'greadigol-gynhyrchiol', weithiau ar draul 'dawn ysgol' [gallu academaidd traddodiadol].

Gwelodd Haight dystiolaeth sylweddol o debygrwydd rhwng gallu uchel mewn meysydd academaidd a galwedigaethol; ond ceir hefyd rai gwahaniaethau allweddol, fel ffafriaeth amlwg am ddysgu arbrofol neu 'go iawn' sy'n nodweddu'r dysgwyr galwedigaethol mwyaf galluog. Wrth gwrs, nid yw dysgwyr yn perthyn yn daclus i gategorïau academaidd a galwedigaethol, ac mae'n dilyn y gall fod ganddynt allu rhagorol mewn mwy nag un maes; noda cyfran sylweddol o ddisgyblion uwchradd a nodwyd yn rhai 'dawnus' eu bod yn ffafrio dulliau ymarferol, ffisegol a mynegiannol o ddysgu. Fel mae unrhyw ymarferydd AB yn gwybod, mae llawer o ddysgwyr ymhob pwnc yn ffafrio 'gwneud' nag' ysgrifennu am'.

Dylai timau pwnc mewn SABau ystyried datblygu eu meini prawf eu hunain ar gyfer nodi gallu rhagorol mewn dysgwyr galwedigaethol, fel bod ganddynt fframwaith cyson yn hytrach na dibynnu ar safbwyntiau goddrychol ymarferwyr unigol. Gweler Datblygu 'sgiliau go iawn' yn Adran 5 am ragor o fanylion.

## Cysyniad gwahanol o 'allu'

Dylai defnyddio'r set ehangach hon o ddulliau nodi helpu i sicrhau dull mwy cynhwysol o nodi potensial dysgwyr. Mae angen paru hyn â syniad cyfannol o sut beth yw 'gallu', oherwydd – fel y nodwyd uchod – ni chredwn ei bod hi'n fuddiol nac yn briodol sefydlu deuoliaeth rhwng 'gallu academaidd' a 'dawn alwedigaethol'. Yn hytrach, dylai SABau groesawu cysyniad ehangach sy'n cydnabod y gall fod gan ddysgwr alluoedd rhagorol mewn sawl maes – a bydd angen rhaglen hyblyg er mwyn diwallu ei anghenion, yn hytrach na chael ei labelu o'r cychwyn naill ai'n academaidd neu'n alwedigaethol.

Un dull gweithredu y mae'n werth ei ystyried yw Model Deallusrwydd Lluosog Howard Gardner, a grynhoir yn Ffig. 4. Cred Gardner, athro ym Mhrifysgol Harvard, fod gan bawb gyfuniad unigryw o'r wyth math gwahanol o ddeallusrwydd. Nid ydynt yn gweithredu ar wahân, ond fe'u defnyddir ar y cyd wrth i bobl feithrin sgiliau neu ddatrys problemau.

**Ffig. 4: Model deallusrwydd lluosog Howard Gardner**

| | |
|---|---|
| **Deallusrwydd ieithyddol** | Sensitifrwydd i iaith llafar ac ysgrifenedig, y gallu i ddysgu ieithoedd, a'r gallu i ddefnyddio iaith i gyflawni nodau penodol. Mae'r deallusrwydd hwn yn cynnwys y gallu i ddefnyddio iaith yn effeithiol i gyfleu'ch hun yn rhethregol neu'n farddol; ac iaith fel modd i gofio gwybodaeth. |
| **Deallusrwydd rhesymegol-fathemategol** | Y gallu i ddadansoddi problemau'n rhesymegol, cyflawni gweithrediadau mathemategol, canfod patrymau, ac ymchwilio i faterion yn wyddonol. Â meddylfryd gwyddonol a mathemategol y caiff y deallusrwydd hwn ei gysylltu fwyaf. |
| **Deallusrwydd cerddorol** | Sgil perfformio, cyfansoddi a gwerthfawrogi patrymau cerddorol. Mae'n cwmpasu'r gallu i adnabod a chyfansoddi trawiau, tonau a rhythmau cerddorol. |
| **Deallusrwydd cinesthetig-gorfforol** | Defnyddio'r holl gorff neu rannau o'r corff i ddatrys problemau; y gallu i ddefnyddio galluoedd meddyliol i gydgysylltu symudiadau'r corff. |
| **Deallusrwydd gofodol** | Y potensial i adnabod a defnyddio patrymau gofod eang ac ardaloedd mwy cyfyngedig. |
| **Deallusrwydd rhyngbersonol** | Y gallu i ddeall bwriadau, cymhellion a dyheadau pobl eraill. Mae'n galluogi pobl i weithio'n effeithiol gydag eraill. Mae angen deallusrwydd rhyngbersonol sydd wedi'i ddatblygu'n dda ar addysgwyr, gwerthwyr, arweinwyr crefyddol a gwleidyddol a chwnselwyr. |
| **Deallusrwydd mewnbersonol** | Y gallu i ddeall eich hun, i werthfawrogi eich teimladau, ofnau a chymhellion, ac i ddefnyddio gwybodaeth o'r fath i reoleiddio eich bywyd. |
| **Deallusrwydd naturiaethol** | Y gallu i adnabod, categoreiddio a defnyddio nodweddion penodol o'r amgylchedd. |

Addaswyd o Smith, Mark K. (2002, 2008) 'Howard Gardner and multiple intelligences', *the encyclopedia of informal education*, http://www.infed.org/mobi/howard-gardner-multiple-intelligences-and-education.

Nid yw model Gardner wedi'i gynnwys yma fel ffordd arall o gategoreiddio neu stereoteipio dysgwyr yn unig, ond fel rhywbeth i'n hatgoffa y bydd gan unigolion MAT gyfuniad o sgiliau a galluoedd sy'n gweithio ar y cyd. Gall edrych ar allu yn y fath fodd trawsbynciol helpu i ehangu'r drafodaeth am sut mae dysgwyr yn datblygu a sut y gall rhaglenni gael eu dylunio i ddiwallu eu hanghenion, yn hytrach na chyfyngu ar bosibiliadau drwy eu cyfyngu i un llwybr dysgu penodol.

**Rhagor o wybodaeth:** https://howardgardner.com/multiple-intelligences/

# Adran 3: **Olrhain, monitro a gwerthuso**

## Safonau

3.1 Mae gan y sefydliad ddull systematig o werthuso effaith a deilliannau ei strategaeth MAT, gan ddatblygu ei ddull o ddiwallu anghenion dysgwyr yn barhaus

3.2 Defnyddir mesurau ansoddol a meintiol i werthuso effaith gweithgareddau MAT, sydd wedi'u teilwra fel sy'n briodol i fentrau penodol

3.3 Caiff y strategaeth MAT gyffredinol ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd, wedi'i llywio gan adolygiadau ar lefel adrannol/pwnc/cwrs

3.4 Caiff enghreifftiau o lwyddiant dysgwyr eu gwerthuso a'u dadansoddi er mwyn nodi'r 'hyn a weithiodd' a'r 'gwersi a ddysgwyd', gyda mewnbwn gan y dysgwyr a'r staff dan sylw, fel y gellir rhannu ac ymestyn yr arfer gorau

3.5 Caiff MAT ei ystyried wrth arsylwi cymheiriaid, adolygu cyrsiau, cynnal hunanasesiadau a chynllunio camau gweithredu drwy'r sefydliad cyfan

3.6 Defnyddir systemau olrhain i fonitro cynnydd dysgwyr MAT, gan gynnwys dadansoddiad penodol o ddeilliannau grwpiau difreintiedig a gwarchodedig

3.7 Mae dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn rhan agos o werthuso strategaethau a gweithgareddau MAT a cheir 'dolen adborth' er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu o gamau a gymerwyd mewn ymateb i'w safbwyntiau

3.8 Bydd uwch reolwyr a llywodraethwyr yn adolygu ac yn ystyried effaith gweithgareddau MAT yn rheolaidd, yng nghyd-destun strategaeth MAT gyffredinol y sefydliad, yn hytrach na fel mentrau ar wahân


Adlewyrchir diffyg strategaeth MAT sefydliad cyfan yn y rhan fwyaf o SABau yng Nghymru yn y trefniadau ar gyfer olrhain, monitro a gwerthuso. Nododd yr arolwg o ddarpariaeth MAT yng Nghymru fod rhaniad cyfrifoldebau amlwg yn aml: byddai'r cydgysylltydd MAT (neu'r uwch reolwr a oedd yn gyfrifol am MAT) yn monitro datblygiad dysgwyr MAT 'academaidd', tra bod tiwtoriaid cwrs yn dueddol o olrhain dysgwyr MAT galwedigaethol. Ceir rhai rhesymau amlwg dros y rhaniad hwn: mae gallu 'academaidd' yn dueddol o fod yn haws ei ddiffinio, gall dysgwyr gael eu nodi'n hawdd ar y cyfan wrth ymuno ag AB, ac ystyrir eu bod yn ffurfio grŵp mwy cydlynol â nodau diffiniedig (symud ymlaen i brifysgol ddethol fel arfer). Fel y gwelwyd, mae gallu galwedigaethol, i'r gwrthwyneb, yn aml yn dod i'r amlwg ar ôl i ddysgwr gofrestru, ac nid oes gan y rhan fwyaf o sefydliadau feini prawf clir ar gyfer nodi dysgwyr MAT galwedigaethol – felly mae dulliau gweithredu yn fwy ad hoc yn aml.

Dylai pob SAB ystyried sut y gall ddatblygu dull integredig o olrhain, monitro a gwerthuso darpariaeth MAT, sy'n gyson â'i fframwaith monitro cyffredinol. Wrth gwrs, mae proses systematig o nodi dysgwyr MAT a set gynhwysol o ddangosyddion llwyddiant yn rhagofynion ar gyfer hyn. Yn ddelfrydol, bydd staff yn ymwybodol o ddysgwyr MAT cyn iddynt ddechrau eu rhaglenni, ond ni fydd hyn bob amser yn bosibl, felly mae angen i ddulliau cofnodi ac olrhain fod yn ddigon hyblyg i allu eu nodi yn ystod y rhaglen ddysgu.

## Cylch cynllunio, monitro a gwerthuso awgrymedig

Nid oes angen i'r gwaith o fonitro darpariaeth a deilliannau MAT ddigwydd ar wahân o reidrwydd, ond gall gael ei gynnwys yng nghylch hunanasesu blynyddol SABau. Fodd bynnag, gall fod angen addasu prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn cyfleu'n gywir ddatblygiad dysgwyr MAT, gan gydnabod y ffaith y gall 'tangyflawni' i unigolyn MAT edrych yn wahanol iawn i ddysgwyr eraill. Efallai fod carfan dysgwyr, cwrs neu adran yn cyflawni targedau cyffredinol ac wedi'i chategoreiddio'n 'dda' neu 'ardderchog', ond gallai hyn fod yn celu'r ffaith nad yw dysgwyr MAT unigol yn cyflawni eu gorau. Gall systemau olrhain effeithiol sicrhau bod arwyddion tangyflawni neu ddatymgysylltu yn cael eu nodi ac y gweithredir arnynt ar gam cynnar, ac ni ddylai hyn ddibynnu'n unig ar ddata rhifyddol ond cael ei lywio gan fewnbwn proffesiynol gan ymarferwyr.

### Ffig. 5: Cylch blynyddol awgrymedig ar gyfer monitro ac adolygu darpariaeth MAT




O fewn y cylch cyffredinol hwn, ... ud y canlynol:

➔ adolygu pa mor effeithiol y caiff y rolau a chyfrifoldebau a amlinellir yn Ffig. 2 eu cyflawni, a defnyddio'r wybodaeth hon i nodi unrhyw DPP angenrheidiol a/neu addasiad i ddisgrifiadau swydd neu gylch gorchwyl;

- ➔ sicrhau bod timau cwrs yn pennu targedau clir ar gyfer dysgwyr MAT a'u bod yn cael trafodaethau manwl, rheolaidd am ddatblygiad dysgwyr ac unrhyw dangyflawni, a lywir gan ddata monitro, arsylwadau athrawon ac adborth gan ddysgwyr;
- ➔ ystyried a yw targedau dysgwyr MAT yn bersonol, yn ddigon heriol, ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol fel sail ar gyfer asesiad ffurfiannol ac adolygiadau o gynnydd. Gall arsylwadau cymheiriaid fod yn ffordd effeithiol o wneud hyn a bydd yn hwyluso deialog broffesiynol am y ffordd orau o helpu dysgwyr i ddatblygu.

## Datblygu dangosyddion perfformiad

Mae'r blwch isod yn awgrymu rhai dangosyddion y gallai SABau eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd eu strategaeth MAT. Wrth osod targedau, ni ddylai dangosyddion gael eu defnyddio'n rhagnodol (er enghraifft, drwy bennu 'cwotâu' llym ar gyfer canran y dysgwyr a nodwyd yn MAT neu'r nifer sy'n datblygu i gyrchfan penodol) oherwydd bydd pob dysgwr a charfan yn wahanol.

**Rhai dangosyddion MAT awgrymedig**

*Dangosyddion proses*

- % y staff a hyfforddwyd i nodi a chefnogi MAT, y mae x yn gwbl ddwyieithog
- Lefelau hyder staff wrth nodi a chefnogi MAT
- % y staff sy'n cadarnhau ymwybyddiaeth o'r strategaeth MAT
- % y dysgwyr sydd mewn cydberthnasau mentora, y mae x yn gwbl ddwyieithog
- % y dysgwyr galwedigaethol a nodwyd ac a gofnodwyd yn MAT
- % y dysgwyr academaidd a nodwyd ac a gofnodwyd yn MAT

*Dangosyddion deilliannau*

- Ennill graddau rhagorol (A*, A, Rhagoriaeth* a'r hyn sy'n cyfateb iddi)
- Sgoriau gwerth ychwanegol
- Dechreuwyr/cyflawniadau mewn cystadlaethau sgiliau
- Dechreuwyr/cyflawniadau mewn cystadlaethau eraill (chwaraeon, celfyddydau, trafod, menter)
- % y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i brifysgolion '30 Ymddiriedolaeth Sutton', neu i lwybrau amgen priodol ar gyfer dysgwyr sydd am fynd ymlaen i AU cyfrwng Cymraeg
- % y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i Brentisiaethau Uwch neu gynlluniau recriwtio diwydiant dethol
- Adborth dysgwyr ar weithgareddau cyfoethogi
- Lefelau boddhad dysgwyr MAT a'u rhieni

Ni fwriedir i hon fod yn rhestr gynhwysfawr, oherwydd dylai pob SAB ystyried dangosyddion sy'n gweddu i'w nodau strategol a'i gylch ansawdd ei hun. Fodd bynnag, argymhellir y canlynol yn gryf:

- ➔ dylai dangosyddion a thargedau fod yn gynhwysol, gan adlewyrchu'r boblogaeth ddysgu gyfan a'r amrywiaeth ieithyddol (ac felly gwmpasu gallu academaidd, galwedigaethol a mathau eraill);

- ➔ dylai pob SAB ystyried dulliau monitro gwahaniaethol ar gyfer dysgwyr o grwpiau difreintiedig a gwarchodedig, fel y gall unrhyw fylchau mewn cyflawniad gael eu nodi ac y cymerir camau priodol i'w cau;
- ➔ lle bynnag y bo modd, caiff rhieni neu ofalwyr dysgwyr 16-19 oed gyfle i fod yn rhan o'r broses o osod targedau fel eu bod yn deall pa gerrig milltir y mae eu plentyn yn eu cyrraedd, sut y mae'n datblygu a sut mae'r datblygiad hwn yn gysylltiedig â nodau tymor hwy.

## Gwerthuso effaith

Mae gan y rhan fwyaf o SABau brosesau hirsefydledig ar gyfer hunanasesu a defnyddio data i werthuso deilliannau. Gall fod yn fwy heriol gwerthuso effaith ac, wrth bennu eu strategaethau MAT cyffredinol, mae angen i SABau:

- ➔ Ystyried sut i werthuso effaith y strategaeth gyfan, nid dim ond mentrau neu brosiectau MAT penodol ynddi.
- ➔ Cynnwys meini prawf gwerthuso a phrosesau o'r cychwyn:
  - Pa wybodaeth sylfaenol sydd gennych at ddibenion cymharu?
  - Pryd a sut y gwnewch werthuso effaith?
  - Pa dystiolaeth fydd ei hangen arnoch?
  - Sut y byddwch yn gwybod a fu'r strategaeth yn llwyddiant?
  - Sut y byddwch yn dysgu o gamgymeriadau neu fethiannau?
  - Beth yw'r broses ar gyfer gwneud newidiadau os oes eu hangen, a pha mor hir y bydd hyn yn ei gymryd?
- ➔ Cynnwys adborth gan ddysgwyr, rhieni a gofalwyr yn y cylch gwerthuso.

Gallai **mesurau effaith** gynnwys:

- Faint yn fwy hyderus y mae staff yn ei deimlo wrth nodi a chefnogi dysgwyr MAT?
- Pa mor dda y mae poblogaeth MAT y SAB yn cynrychioli ei boblogaeth gyffredinol o ran rhyw, ethnigrwydd, anabledd ac anfantais?
- Sut mae dysgwyr wedi gwella o ran hyder, ymgysylltu, boddhad â dysgu, dyhead, eglurder o ran nodau yn y dyfodol?
- Pa gyfran o ddysgwyr MAT sy'n cyflawni'r targedau yn eu cynlluniau dysgu unigol neu'n rhagori arnynt?
- Pan fydd dysgwr wedi rhagori, a yw staff yn gwybod beth a wnaed ganddyn nhw a'r dysgwr er mwyn helpu i gyflawni hyn?
- Sut mae prifysgolion a chyflogwyr yn graddio eich graddedigion?
- Sut mae'r holl ddeilliannau hyn yn cymharu â'ch sefyllfa cyn cyflwyno eich strategaeth?

**Rhagor o wybodaeth:**

http://www.wlv.ac.uk/media/wlv/pdf/sed-res-ict-sowhat.PDF

http://www.esrc.ac.uk/research/evaluation-and-impact/developing-an-impact-strategy/measuring-success/the-evaluation-process/

# Adran 4: **Dylunio'r cwricwlwm**

## Safonau

4.1 Mae'r sefydliad wedi cynnal archwiliad o'i gwricwlwm mewn meysydd galwedigaethol ac academaidd (ac iaith cyfarwyddyd) er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn gyson ag anghenion dysgwyr MAT.

4.2 Mae'r gwaith o gynllunio darpariaeth ar gyfer dysgwyr MAT yn rhan annatod o strategaeth MAT gyffredinol y sefydliad, ac fe'i defnyddir i lywio'r gwaith o gynllunio DPP a gwerthuso'r broses ddosbarthu

4.3 Caiff creadigrwydd, menter, cwestiynu a datrys problemau eu hannog a'u gwerthfawrogi ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac ar bob lefel o allu

4.4 Mae'r sefydliad yn mynd ati i gynnig cyfleoedd cyfoethogi mewn ffordd gynhwysfawr, sy'n cynnwys academaidd, galwedigaethol a meysydd eraill o allu a thalent

4.5 Mae cyfoethogi ac ymestyn yn rhan annatod o'r cwricwlwm ac yn cael eu cynnig yn yr ystafell ddosbarth, gweithdy, tiwtorial neu weithle, nid dim ond fel gweithgareddau 'ychwanegol'

4.6 Caiff technolegau dysgu eu defnyddio'n effeithiol i ehangu a dyfnhau profiadau dysgwyr MAT, o fewn fframwaith o nodau dysgu clir

4.7 Mae digon o hyblygrwydd wrth gynllunio'r cwricwlwm i athrawon addasu eu dull o gyflwyno yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i gynnydd dysgwyr

4.8 Mae prosesau ar waith i sicrhau bod datblygiadau newydd o ran y cwricwlwm yn cael eu gwerthuso yn erbyn meini prawf clir

Mae'r broses o gynllunio'r cwricwlwm yn ei gwneud yn ofynnol i SABau ystyried eu hamrywiaeth o ddarpariaeth gan gynnwys yr iaith ddysgu, llwybrau datblygu a chysondeb â gwybodaeth am y farchnad lafur bob blwyddyn.  Wrth gwrs, rhaid i'r gwaith cynllunio ystyried a diwallu anghenion pob dysgwr, beth bynnag fo ei nodau neu alluoedd.  Argymhellir bod SABau yn cynllunio gan ddefnyddio egwyddor gyffredinol helpu pob dysgwr i ddatblygu a chyflawni ei botensial, fel sydd eisoes yn digwydd ar y cyfan.  Mae'r egwyddor ehangach hon o fudd wrth ystyried sut y gall strwythur a chyflwyniad y cwricwlwm gynnig cyfleoedd penodol i ddysgwyr MAT.  Hefyd mae angen i SABau gynnwys digon o hyblygrwydd yn eu gwaith cynllunio i addasu eu dull o gyflwyno yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i gynnydd dysgwyr; gall hyn fod yn hynod bwysig i ddysgwyr MAT y bydd eu gwybodaeth a'u sgiliau yn datblygu'n gyflym yn yr amgylchedd dysgu cywir, ac a fydd fel arfer wrth eu bodd yn cael eu herio.

Mae a wnelo rhan o'r hyblygrwydd hwn â sgiliau addysgu, ac mae Adran 5 yn rhoi canllawiau ar addysgu a dysgu er mwyn cael y gorau allan o unigolion MAT.  Fodd bynnag, bydd ymarferwyr mewn gwell sefyllfa i wneud hyn yn dda os ydynt yn gweithio o fewn fframwaith cwricwlwm cyffredinol sy'n cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr MAT ffynnu.  Hefyd, mae angen i'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm mewn modd strwythuredig wneud defnydd effeithlon o adnoddau, partneriaethau ac arbenigedd staff o fewn y sefydliad cyfan.  Gallai hobïau a diddordebau staff hefyd gael eu hystyried er mwyn cefnogi dysgu arbrofol ehangach dysgwyr MAT.

Yn anad dim, dylai darpariaeth MAT gael ei hystyried yn rhan annatod o'r gwaith cynllunio parhaus, nid cyfres o 'ychwanegiadau'; a dylai SABau ystyried opsiynau i ymestyn a gwella eu darpariaeth yn barhaus.

## Adolygu'r cwricwlwm

Fel rhan o ddatblygu strategaeth MAT sefydliadol gyffredinol, argymhellir bod SABau yn cynnal archwiliad o'r cwricwlwm er mwyn nodi cyfleoedd i ddysgwyr MAT.  Mae hyn yn debygol o danlinellu cryfderau a bylchau (er enghraifft, mae darpariaeth SABau yn dueddol o fod wedi'i datblygu'n dda i ddysgwyr MAT 'academaidd' ond gall fod yn dameidiog i ddysgwyr galwedigaethol).  Dylai SABau ystyried sut y gallant ddatblygu rhaglenni heriol addas ar gyfer dysgwyr MAT, a chynnwys trafodaeth am hyn yn eu trafodaethau cynllunio blynyddol â thîm Cynllunio Ôl-16 Llywodraeth Cymru a hefyd rannu arfer gorau â darparwyr eraill.

Mae'n bwysig ystyried sut mae arferion addysgu, dysgu ac asesu yn gydnaws â strwythur y cwricwlwm, ac yn wir nodau strategol cyffredinol y sefydliad o ran darpariaeth MAT.  Noda Tomlinson et al (2015):

> *If we design our curriculum for example, to be engaging, result in understanding, and help students make critical connections, then assessments and instructions should be designed to promote those same ends… If we say we value student thinking and understanding but largely assess 'right answers' and spend most of our class time doing rote drills on information and skills, the goal of developing students who are engaged thinkers is merely a delusion.*

**Ffig. 6: Adolygu'r cwricwlwm: beth i'w ystyried**




Mae ymchwil gan Sandra L. Berger yn awgrymu bod cwricwlwm effeithiol ar gyfer dysgwyr MAT:

- yn caniatáu amser i gynnal archwiliad trylwyr a manipwleiddio syniadau;
- yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr fynd drwy'r cynnwys ar eu cyflymdra eu hunain;
- yn darparu cynnwys thematig, eang, yn hytrach na phynciau unigol, fel y gall dysgwyr ddefnyddio eu sgiliau i gyffredinoli a chymhwyso syniadau;
- yn gadael i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth integredig o wybodaeth, gan fynd ar draws a'r tu hwnt i gategorïau neu ddisgyblaethau pwnc traddodiadol;
- yn herio dysgwyr â chwestiynau sy'n gofyn am ymatebion lefel uwch, neu sy'n gofyn iddynt gynnal eu hymholiadau a'u hymchwiliadau eu hunain; a

- yn galluogi dysgwyr i ddangos beth maent wedi'i ddysgu mewn amryw ffyrdd, ac i syntheseisio, yn hytrach na chrynhoi, gwybodaeth.

## Gweithgareddau cyfoethogi

Mae gan bob SAB raglen gyfoethogi, sydd fel arfer yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau o fewn a'r tu allan i'r sefydliad.  Fel rheol, maent yn hirsefydledig ac yn gweithredu ar gyfer pob pwnc a lefel gallu, gyda chyflwyniad canolfannau Seren yn cynnig mwy o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion.  Felly, ni fwriedir i'r adran hon ddarparu canllawiau cynhwysfawr ar gyfoethogi, ond mae'n canolbwyntio'n bennaf ar sut y dylai gweithgareddau cyfoethogi gael eu defnyddio er mwyn helpu dysgwyr MAT i gyrraedd eu potensial.  Wrth gynllunio eu gweithgareddau cyfoethogi, mae angen i SABau ystyried proffil ieithyddol y dysgwyr a dargedir a ph'un a wnaiff iaith y gweithgareddau gyflawni'r deilliannau disgwyliedig neu ddymunol i bob dysgwr yn gyson.

### Cyfoethogi

Dylunnir gweithgareddau cyfoethogi i ddarparu cyfleoedd arbrofol sy'n ymestyn ac yn cymhwyso dysgu yn yr ystafell ddosbarth neu weithdy, a/neu i alluogi dysgwyr i archwilio pynciau o ddiddordeb yn fanylach.  O fewn AB, mae'r amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi yn helaeth a gallai gynnwys ysgolion haf, seminarau ychwanegol, mentora gan ddiwydiant neu brosiectau cymunedol. **Nid** yw cyfoethogi yn cynnwys:

- unrhyw weithgareddau sy'n elfen integredig o raglen (fel teithiau maes neu sgyrsiau gan siaradwyr gwadd lle mae'n rhaid bod yn bresennol);
- gweithgareddau sy'n rhan o waith paratoi safonol ar gyfer prifysgol neu waith, fel paratoi datganiadau personol neu CVs; neu
- elfennau safonol o raglen cymorth bugeiliol SAB.

Mae cyfleoedd cyfoethogi yn bwysig i bob dysgwr, er mwyn ei helpu i archwilio pynciau'n fanylach, gweithio mewn grwpiau i ymchwilio i broblemau 'go iawn', a/neu ddatblygu cysylltiadau gwerthfawr â'i gymuned. I ddysgwyr MAT mae ystyriaethau eraill, a buddiannau eraill.  Mae cyfleoedd 'dwys' fel ysgolion haf, rhaglenni anrhydedd, ysgolion Sadwrn, sesiynau cyfnos, cymdeithasau a chystadlaethau yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr MAT weithio gyda chymheiriaid tebyg, mewn amgylchedd lle caiff rhagoriaeth ei derbyn.  Yn yr hinsawdd sydd ohoni, lle mae cystadleuaeth iach ac ymddiriedaeth, gall dysgwyr gymell a gwthio ei gilydd i gyflawni mwy.  Gellir defnyddio'r un egwyddor i helpu dysgwyr MAT i ymestyn eu gorwelion ymarferol, diwylliannol a chwaraeon.

Nododd adolygiad o ymchwil ar fentrau dawnus a thalentog gan SCYA bwysigrwydd sicrhau bod gweithgareddau cyfoethogi ddim yn cael eu hystyried yn bethau ychwanegol, ond yn cael eu hintegreiddio a'u hatgyfnerthu drwy ddarpariaeth cwricwlwm prif ffrwd.  Mae angen i ddysgwyr ymarfer y sgiliau maent wedi'u dysgu drwy gyfoethogi yn yr ystafell ddosbarth neu weithdy, ac i'r gwrthwyneb; Bydd dysgwyr MAT yn aml yn dda iawn am gysylltu syniadau, a chyffredinoli o enghreifftiau cadarn i egwyddorion arweiniol.  Gall ymarferwyr fanteisio ar y sgiliau hyn drwy osod tasgau sy'n galluogi dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth i sefyllfaoedd newydd, a meithrin eu dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng cysyniadau a'u rhoi ar waith.  Gellir hefyd ategu gweithgareddau drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol neu grwpiau trafod ar-lein, er mwyn helpu dysgwyr i ymgysylltu cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad.

Yn achos dysgu galwedigaethol, ni chaiff cyfoethogi ei ddiffinio mor hawdd bob amser.  (Yn wir, mae adnoddau MAT ysgolion yn aml yn disgrifio 'profiad gwaith' fel gweithgaredd cyfoethogi, pan ddylai fod yn rhan annatod o ddysgu mewn AB.)  Ymhlith y gweithgareddau sy'n debygol o fod yn hynod berthnasol mewn meysydd galwedigaethol mae mentora gan gyflogwyr, cymryd

rhan mewn cystadlaethau sgiliau, ysgolion Sadwrn, briffiau menter, ac unrhyw gyfleoedd eraill sy'n cyflwyno dysgwyr i ragoriaeth yn eu dewis sgil neu ddiwydiant. Dylai SABau hefyd ystyried sut y gellid defnyddio tasgau, modiwlau neu brosiectau 'academaidd' traddodiadol i ychwanegu cyfoeth ac amrywiaeth i raglenni galwedigaethol, ac i'r gwrthwyneb; ni chaiff anghenion dysgwyr MAT eu diwallu orau drwy ddeuoli'r ddau faes yn gaeth.

Dylai SABau geisio adborth manwl gan ddysgwyr ar weithgareddau cyfoethogi, a'i ddefnyddio nid yn unig i wella cyfleoedd sy'n bodoli eisoes, ond i geisio syniadau ar weithgareddau eraill y gellid eu cyflwyno i adlewyrchu diddordebau a dyheadau dysgwyr.

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Coleg Ceredigion: Safonau proffesiynol ym maes cynhyrchu'r cyfryngau

Mae Ffig. 7 yn rhestru rhai o'r prif weithgareddau cyfoethogi a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn AB, ac yn crynhoi eu buddiannau a'u gwendidau posibl mewn perthynas â dysgwyr MAT.

### Ffig. 7: Enghreifftiau o weithgareddau cyfoethogi

| Math o weithgaredd | Buddiannau | Beth i'w osgoi |
|---|---|---|
| Ysgolion haf, amser cinio, Sadwrn neu sesiynau cyfnos | ▪ Cynnig profiad trochi sy'n galluogi dysgwyr MAT i ryngweithio â chymheiriaid tebyg<br>▪ Gallu helpu i ennyn hyder yn ogystal â sgiliau<br>▪ Gallu ymdreiddio i frwdfrydedd dysgwyr am bwnc a rhoi'r cyfle iddynt brofi dysgu ar lefel uwch<br>▪ Gall fod yn hynod fuddiol i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig | ▪ Digwyddiadau wedi'u trefnu'n wael<br>▪ Cyfathrebu cymysg neu groes rhwng y sefydliad a'r sefydliadau partner<br>▪ Rhoi'r holl bwyslais ar weithgareddau ychwanegol yn hytrach na sicrhau bod cysyniadau a sgiliau yn cael eu hatgyfnerthu drwy weithgareddau cyfoethogi yn yr ystafell ddosbarth/gweithdy |
| Mentora (gan ddysgwyr eraill, tiwtoriaid, cyflogwyr neu entrepreneuriaid) | ▪ Gallu adeiladu 'cyfalaf cymdeithasol' i ddysgwyr nad oes ganddynt fodelau rôl graddedig na phroffesiynol yn eu teuluoedd<br>▪ Gallu helpu i atgyfnerthu cysylltiadau cymunedol | ▪ Cydberthnasau mentora cyffredinol nad ydynt wedi'u teilwra i ddiddordebau a dyheadau penodol y dysgwr<br>▪ Cyfrif yr amser a dreulir gyda mentoriaid fel canlyniad ynddo'i hun, yn hytrach na gwerthuso yn erbyn nodau penodol |
| Siaradwyr gwadd (ee cyn-fyfyrwyr, cyflogwyr, prifysgolion) | ▪ Gallu cynyddu dyheadau dysgwyr drwy eu helpu i ddeall yr amrywiaeth o bosibiliadau a 'gweld eu hunain' mewn gyrfa benodol<br>▪ Gallu darparu awgrymiadau a chyngor ymarferol ochr yn ochr â syniadau llawn ysbrydoliaeth | ▪ Cynnwys ailadroddus (ee sawl sgwrs am 'fynd i'r brifysgol') – dylai pob siaradwr gynnig rhywbeth newydd a nodedig<br>▪ Presenoldeb gorfodol, os nad yw dysgwyr yn siŵr beth gânt o ddod |
| Ymweliadau opsiynol (ee theatrau, | ▪ Cyfoethogi ac enghreifftio deunydd damcaniaethol a ddysgir yn yr ystafell ddosbarth | ▪ Cyfyngu cyfleoedd i grwpiau penodol o ddysgwyr<br>▪ Gweithgareddau 'ychwanegol' sydd |

| | | |
|---|---|---|
| amgueddfeydd, digwyddiadau chwaraeon) | ▪ Gallu ehangu gorwelion dysgwyr drwy eu cyflwyno i amgylcheddau a phrofiadau newydd, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig | heb eu hintegreiddio na'u hatgyfnerthu drwy ddysgu<br>▪ Gweithgareddau heb ddiben dysgu clir |
| Cyfleoedd dysgu rhyngwladol | ▪ Ehangu golwg dysgwyr o'r byd a rhoi cyfleoedd iddynt brofi gwahanol ddiwylliannau<br>▪ Gallu helpu i ennyn hyder a meithrin sgiliau cymdeithasol<br>▪ Rhoi syniad ehangach i ddysgwyr o opsiynau astudio lefel uwch a gyrfaoedd dramor | ▪ Ymweliadau nad ydynt yn ategu'r brif raglen ddysgu ac nad oes ganddynt ddeilliannau dysgu diffiniedig clir<br>▪ Rhoi gormod o bwysau ar ddysgwyr a all ei chael hi'n anodd rhyngweithio â chymheiriaid, problemau iechyd meddwl, neu'n syml ddim yn ddigon aeddfed i ymdopi â bod oddi cartref |

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Grŵp Llandrillo Menai: Rhaglen AUR

## Cystadlaethau sgiliau

Mae cymryd rhan mewn cystadlaethau sgiliau yn ffordd effeithiol iawn i ddysgwyr galwedigaethol hynod alluog wella eu sgiliau a'u cyflogadwyedd.  Yn ogystal â meithrin sgiliau technegol yn gynt, dangoswyd bod cystadlaethau yn cynyddu cymhelliant, uchelgais, hyder a gallu i weithio dan bwysau dysgwyr.

Mae Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn cynnwys tua 30 o gystadlaethau lleol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a redir gan rwydwaith o golegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau a arweinir gan gyflogwyr.

**Rhagor o wybodaeth:**

http://worldskillswales.org/

Mae'r cystadlu yn dechrau ar lefel leol, gyda Cystadleuaeth Sgiliau Cymru.  Anogir cystadleuwyr i ddatblygu a chymryd rhan yng nghystadlaethau WorldSkills UK.  Os yn llwyddiannus, gall y cystadleuydd fynd ymlaen i gystadlu ar lefel genedlaethol a lefel ryngwladol (WorldSkills).

Mae cystadlaethau sgiliau yn gynhwysol gyda'r cyfle i bob dysgwr gymryd rhan.  Er enghraifft, gall cystadlaethau sgiliau tîm gynnwys dysgwyr o bob gallu sy'n rhoi'r cyfle i unigolion ddysgu gan eraill, ond maent hefyd yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr MAT fod yn fodelau rôl.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog SABau i gymryd rhan mewn cystadlaethau sgiliau.  Dylai SABau ystyried rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn amgylcheddau cystadleuol mewn amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys y rhai sy'n flaenoriaeth i economi Cymru.

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau

**Datblygu rhagoriaeth alwedigaethol drwy gystadlaethau sgiliau**

*Buddiannau i ddysgwyr*

- Datblygu sgiliau technegol yn gyflym drwy hyfforddiant dwys, mwy o fanwl gywirdeb a dealltwriaeth fanylach o broblemau technegol
- Sgiliau meddal gan gynnwys hyder, hunanfyfyrio, rheoli amser a chyfathrebu
- Datblygiad gyrfa ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd drwy rwydweithio
- Sgiliau entrepreneuraidd

*Buddiannau i ddarparwyr*

- Gwell enw da a denu mwy o ddysgwyr
- Gwella dysgu ac addysgu
- Dylanwad cadarnhaol ar yr holl fyfyrwyr
- Buddiannau gyrfaol i reolwyr hyfforddi gan gynnwys ymwybyddiaeth o ddatblygiadau yn y diwydiant, a chyfleoedd cydweithredu

*Buddiannau i gyflogwyr*

- Cyhoeddusrwydd a bri
- Gwell perfformiad gan gyflogeion gan gynnwys gwell gwaith tîm
- Gwell recriwtio
- Cynnydd o ran nifer ac amrywiaeth cwsmeriaid
- Cyflwyno prosesau a thechnegau busnes newydd

*Ystyriaethau i ddarparwyr*

- Gall cystadleuwyr ei chael hi'n anodd addasu i fywyd ar ôl cystadlu a bod angen cefnogaeth
- Dylai cyflogwyr ymgysylltu yn ystod hyfforddiant cystadleuwyr, yn y gweithle ac oddi ar y safle
- Yn ystod yr hyfforddiant, rhaid pennu disgwyliadau clir i gystadleuwyr a rheolwyr hyfforddi
- Rhydd cystadlu gyfleoedd i herio stereoteipiau ar sail rhyw drwy hyrwyddo modelau rôl benywaidd mewn diwydiannau a ddominyddir gan ddynion ac i'r gwrthwyneb
- Gellir defnyddio profiadau cadarnhaol cyflogwyr fel dull marchnata er mwyn cynyddu ymwneud cyflogwyr ymhob maes sgil

*Addaswyd o* Benefits of Developing Vocational Excellence through Skills Competitions: Research Brief (Prifysgol Rhydychen, 2013)

## Defnyddio technolegau dysgu

Mae llawer o ddysgwyr yn dechrau AB eisoes yn gyfarwydd â gwneud eu hymchwil eu hunain, a chanfod gwybodaeth, cydweithio a rhannu.  I bob dysgwr, mae'r defnydd o dechnolegau dysgu a chyfryngau cymdeithasol yn cynnig cryn gyfle i deilwra, cyfoethogi ac ymestyn rhaglenni dysgu, gan gynnwys ymestyn eu sgiliau ieithyddol drwy ddefnyddio adnoddau Cymraeg a dwyieithog. Gall dysgwyr MAT yn arbennig elwa o'r amgylchedd dysgu unigol hwn.

**Rhagor o wybodaeth:** https://www.jisc.ac.uk/guides/technology-and-tools-for-online-learning/social-networking-tools

Mae'n rhaid i bob ymarferydd modern ddatblygu ei ddulliau digidol ei hun, gan roi mwy o werth ar gydweithio a chynnig cyfleoedd ymchwilio ac ymholi sy'n mynd y tu hwnt i amgylcheddau dysgu traddodiadol.

## Technolegau dysgu, cyfryngau cymdeithasol a dysgwyr MAT

*Buddiannau i ddysgwyr …*

- Cynnig cyfleoedd i ddadansoddi seilos a hierarchaethau traddodiadol, drwy sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar bobl â lefelau uwch o wybodaeth, fel athrawon, arbenigwyr yn y diwydiant, academyddion a mentrau cymdeithasol, yn uniongyrchol.
- Gall fod yn hynod fuddiol i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig drwy ddarparu 'cyfleoedd cyfartal' o ran gwybodaeth ac arbenigedd
- Cynnig cyfleoedd i archwilio pynciau'n fanwl a chael gafael ar sawl ffynhonnell wybodaeth
- Galluogi dysgwyr i bersonoli eu profiad dysgu, gweithio ar eu cyflymdra eu hunain (gan gynnwys dysgu 'tu allan i oriau' a chydweithio) a mynd y tu hwnt i'r cwricwlwm safonol
- Galluogi dysgwyr i ddechrau creu presenoldeb ar-lein a datblygu rhwydweithiau proffesiynol, yn ogystal â datblygu tystiolaeth drwy flogio a phortffolios ar-lein

*Mae angen i ymarferwyr...*

➔ Helpu eu dysgwyr i ymgysylltu'n ddwfn â materion a syniadau, yn hytrach na derbyn ac amsugno gwybodaeth neu ddibynnu ar un ffynhonnell yn oddefol

➔ Helpu dysgwyr i wahaniaethu a dehongli'n feirniadol wybodaeth o ystod eang o ffynonellau

➔ Annog y defnydd o waith cydweithredol sy'n cyfuno gwybodaeth ac ymdrech

➔ Darparu 'sgaffaldiau'[2] fel bod gan ddysgwyr amcanion dysgu clir, tra'n eu hannog i wneud defnydd priodol o dechnoleg i gofnodi cynnydd (er enghraifft, drwy ddyddiaduron fideo neu flogiau)

➔ Defnyddio technoleg i gasglu adborth ac ymatebion gan ddysgwyr er mwyn llywio gwaith cynllunio a monitro

➔ Cymryd rhan mewn DPP er mwyn datblygu eu cymhwysedd digidol a'u hyder eu hunain

## Bagloriaeth Cymru

Mae cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) yn anelu at helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau, nodweddion ac ymddygiad mwy cymhleth a darparu profiadau a wnaiff alluogi dysgwyr i ymbaratoi'n well ar gyfer eu cyrchfan yn y dyfodol, boed hynny'n brifysgol, hyfforddiant pellach neu swydd. Rhydd y cyfle ar gyfer dysgu arbrofol a all helpu dysgwyr MAT i feithrin eu sgiliau drwy broses cynllunio, gwneud a myfyrio.

Mae'r CBG yn cynnig cyfleoedd dysgu annibynnol a gellir ei ddefnyddio i ymestyn dysgwyr MAT a'u galluogi i ddatblygu mentergarwch, annibyniaeth a gwydnwch. Mae SABau yn defnyddio'r Dystysgrif Her Sgiliau, sy'n cynnwys Prosiect Unigol a thair Her, i annog dysgwyr MAT i fod yn greadigol, ehangu eu profiad, a datblygu sgiliau gwneud penderfyniadau.

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Ysgol Gatholig Dewi Sant: Myfyrwyr anrhydedd a'r Prosiect Unigol

[2] Mae 'sgaffaldiau' yn cyfeirio at y technegau addysgu a ddefnyddir i symud dysgwyr tuag at well dealltwriaeth ac, yn y pen draw, annibyniaeth. Mae lefelau o gymorth dilynol yn helpu dysgwyr i feithrin dealltwriaeth a chaffael sgiliau, ac fel sgaffaldiau ffisegol, yn cael eu tynnu'n raddol pan nad oes eu hangen mwyach. Gweler http://edglossary.org/scaffolding/ am ragor o wybodaeth.

# Adran 5: **Strategaethau addysgu a dysgu**

## Safonau

5.1 Mae ymarferwyr yn cefnogi ei gilydd, yn rhannu arfer da, ac yn gallu cael gafael ar wybodaeth arbenigol i sicrhau eu bod yn gallu darparu profiadau dysgu sy'n diwallu anghenion unigolion MAT

5.2 Defnyddir amrywiaeth o ddulliau addysgu a dysgu, gan gynnwys seminarau, tiwtorialau, dysgu cyfunol, lleoliadau gwaith, cyfleoedd cyfoethogi ac astudiaeth annibynnol, i roi profiad o weithio mewn parau, grwpiau ac yn unigol i ddysgwyr MAT

5.3 Caiff dysgwyr MAT gyfleoedd i gydweithio ar dasgau neu brosiectau penodol, a rhoi cymorth cymheiriaid i'w gilydd

5.4 Bydd athrawon yn defnyddio asesiad ffurfiannol, a lywir gan arsylwi eu dysgwyr, er mwyn amrywio gweithgareddau dysgu a chynllunio datblygiad pob dysgwr, gan gynnwys y rhai hynod alluog

5.5 Defnyddir cynlluniau dysgu unigol i osod targedau heriol i ddysgwyr ac fel y sail ar gyfer adolygiadau rheolaidd o gynnydd, gyda chryn fewnbwn gan y dysgwr

5.6 Gwahaniaethir y dysgu er mwyn sicrhau bod <u>pob</u> dysgwr yn cael ei herio a'i annog gan ystyried yr iaith gyfathrebu

5.7 Mae adborth manwl yn galluogi dysgwyr i wella eu gwaith (hyd yn oed os ydynt eisoes yn perfformio ar lefel uchel iawn), ac yn rhoi canllawiau manwl iddynt ar sut i gyflawni eu graddau targed neu ddeilliannau eraill

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae addysgu a dysgu yn y sector AB wedi datblygu i gynnwys llawer o dechnegau a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr, gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu, dysgu cyfunol, gwahaniaethu, cwestiynu a gweithgareddau ymestyn. Mae'r rhain i gyd yn ymwneud â deall cryfderau a gwendidau dysgwyr unigol, a theilwra gweithgareddau dysgu mewn ymateb iddynt – sy'n arbennig o bwysig mewn grwpiau lle gall galluoedd dysgwyr a'u lefelau o gymhelliant amrywio'n sylweddol.

Mae diwallu anghenion penodol dysgwyr MAT yn golygu defnyddio llawer o'r un technegau hyn, ond gan roi ystyriaeth arbennig i nodweddion yr unigolion hyn a sut maent yn dysgu. Fel mae'r canllawiau hyn yn egluro, mae angen i ymarferwyr feddu ar feini prawf clir a chynhwysfawr ar gyfer nodi dysgwyr MAT, yn ogystal â dealltwriaeth o'u heriau penodol. Er mwyn cyflawni eu potensial, mae angen i unigolion MAT gael eu galluogi a'u hannog i weithio'n annibynnol a chyfarwyddo eu dysgu eu hunain, ond gyda 'sgaffaldiau' priodol er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu ac nad ydynt yn cael eu hynysu nac yn ymddieithrio.

## Yr ymarferydd MAT

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y canllawiau hyn, nid yw bob amser yn hawdd bod yn MAT – ac nid yw bob amser yn hawdd addysgu dysgwyr ag anghenion mor gymhleth. Ceir heriau amlwg sy'n gysylltiedig â gweithio gyda dysgwyr a all fod yn dueddol o ddiflasu'n hawdd, ddim

hoffi ymarfer neu adolygu pynciau maent eisoes wedi'u meistroli, bod â pherthynas anodd â chymheiriaid... ac a all wybod mwy na'r athro mewn rhai meysydd.

Mae sgil gwahaniaethu yn allweddol wrth weithio gyda grwpiau gallu cymysg a dwyieithog sy'n cynnwys dysgwyr MAT. Ystyrir y pwnc hwn yn fanylach yn yr adran nesaf. Mae sgiliau eraill y gall ymarferwyr eu defnyddio i ddiwallu anghenion dysgwyr MAT, a cheir rhai strategaethau y dylai SABau eu defnyddio i helpu i feithrin gallu yn y maes hwn:

- ➔ sicrhau bod seilwaith i bob ymarferydd ei ddefnyddio ar gyfer cyngor a chymorth, gan gynnwys y cydgysylltydd MAT fel pwynt cyswllt cyntaf;
- ➔ recriwtio staff sy'n fodelau rôl – gallai hyn gynnwys graddedigion Grŵp Russell, entrepreneuriaid llwyddiannus, a'r rhai â hanes o gyflawni uchel yn eu meysydd eu hunain (er enghraifft, ennill dyfarniad neu gystadleuaeth);
- ➔ cynnig DPP i bob ymarferydd ar nodi a chefnogi dysgwyr MAT;
- ➔ dathlu llwyddiant ymarferwyr yn ogystal â dysgwyr;
- ➔ datblygu 'cymunedau ymarfer' (er enghraifft, drwy ganolfannau Seren) y gall ymarferwyr eu defnyddio i gefnogi ei gilydd, dysgu o arfer gorau a rhannu adnoddau, a gefnogir lle bo modd drwy'r defnydd o dechnolegau cydweithredol a all helpu staff i gydweithio ar draws ffiniau daearyddol.

**Mae'r ymarferwyr MAT AB gorau yn gwneud y canlynol ...**

- Cyd-destunoli dysgu i sefyllfaoedd 'go iawn' ac yn gallu dangos eu bod yn dal i allu 'gwneud' yn ogystal ag addysgu.
- Digon hyderus i gymryd risgiau, gwneud camgymeriadau, a chydnabod mewn rhai achosion na fyddant efallai'n gwybod mwy na'r dysgwr.
- Agored i her a thrafod, gan wneud defnydd adeiladol o chwilfrydedd dysgwyr MAT a'u tueddiad i gwestiynu'r 'status quo'.
- Creu ethos cadarnhaol lle caiff cyflawniad ei dderbyn a'i gydnabod.
- Parod i wrando yn ogystal â siarad.
- Taro'r cydbwysedd cywir rhwng datblygu unigolion MAT yn ddysgwyr annibynnol, a rhoi'r gefnogaeth a'r her sydd eu hangen arnynt.
- Adnabod y pynciau sy'n ysbrydoli dysgwyr, a rhoi cyfleoedd iddynt archwilio'r meysydd hyn yn fanwl drwy weithgareddau ymestyn ac astudiaeth annibynnol, gan gynnwys dysgu digidol.
- Ymrwymedig i barhau i ddatblygu ac ymestyn eu gwybodaeth eu hunain (er enghraifft, drwy danysgrifio i gyrff proffesiynol, DPP seiliedig ar ddiwydiant, ymchwil, ymweliadau amgueddfa, cynadleddau, cymunedau ymarfer, defnydd o gyfryngau cymdeithasol ac adnoddau digidol).
- Defnyddio eu rhwydweithiau, gan gynnwys arbenigwyr MAT, staff cymorth, gwasanaethau myfyrwyr, mentoriaid a rhieni/gofalwyr, er mwyn sicrhau profiad dysgu cynhwysfawr.

Wrth gwrs, caiff y nodweddion hyn effaith gadarnhaol ar bob dysgwr, nid dim ond y rhai MAT. Bydd pob dysgwr yn cael budd o fod mewn amgylchedd lle maent yn cael eu hannog i ymfalchïo

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Coleg Penybont: Cymorth unigol i ddysgwyr

yn eu gwaith, eu herio i gyflawni eu potensial, a'u cyflwyno i fodelau rôl sy'n dangos iddynt sut beth yw 'rhagoriaeth' mewn pwnc neu ddiwydiant penodol. Ond mae angen i ymarferwyr wybod pwy yw eu dysgwyr MAT a beth sy'n eu cymell.

## Asesu ar gyfer dysgu

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cydnabyddiaeth gynyddol fod asesu crynodol – seiliedig ar brofion, marcio a graddio fel arfer – yn rhy gyfyngedig ei gwmpas, ac yn rhoi fawr ddim cyfarwyddyd ar gyfer datblygu a gwella yn y dyfodol. Mae asesu ffurfiannol yn fwy o broses barhaus, sy'n galluogi athrawon i adolygu ac addasu eu dulliau gweithredu er mwyn cefnogi dysgwyr. Mae asesu ar gyfer dysgu yn cyfuno'r ddau ddull gweithredu, fel bod modd eu defnyddio mewn dull cytbwys i helpu dysgwyr a'u hathrawon i ddeall nid yn unig ble maent nawr, ond beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r athroniaeth hon yn addas iawn ar gyfer model darparu AB, gyda'i ddefnydd sefydledig o gynlluniau dysgu unigol (CDUau) fel sail ar gyfer adolygiad parhaus a gosod targedau.

| **Asesiadau ffurfiannol** | **Asesiadau crynodol** |
|---|---|
| ▪ Ymwneud â gwelliant yn bennaf<br>▪ Tueddol o fod yn flaengar, rhan o'r broses ddysgu<br>▪ Defnyddir yn bennaf i ddiagnosio anghenion, rhoi adborth i helpu dysgwyr i ddysgu a helpu athrawon i wella addysgu a dysgu<br>▪ Rhoi athro yn rôl yr hwylusydd<br>▪ Ffafrio'r defnydd o asesiadau ystafell ddosbarth a gynllunnir fel rhan o'r wers<br>▪ Tueddu cymryd mwy o amser, ymwneud â dysgwyr unigol, anos ei gyffredinoli ac yn fwy goddrychol | ▪ Ymwneud ag atebolrwydd yn bennaf<br>▪ Tueddol o edrych am yn ôl a dynodi cyflawniadau yn y gorffennol neu rai presennol<br>▪ Defnyddir yn bennaf i ddarparu gwybodaeth i eraill am faint mae dysgwyr wedi'i ddysgu, at ddibenion ardystio ac atebolrwydd<br>▪ Rhoi athro yn rôl y dyfarnwr<br>▪ Ffafrio'r defnydd o brofion safonol ffurfiol, a lunnir fel arfer ac a sgorir weithiau gan rywun heblaw'r athro. |

Er mwyn sicrhau bod dysgwyr MAT yn cael y budd mwyaf, dylai asesiad ffurfiannol:

➔ osod targedau personol sy'n adlewyrchu potensial y dysgwr yn ogystal â'i gyflawniadau yn y gorffennol;

➔ galluogi'r dysgwr i osod ei dargedau a'i nodau ei hun a chymryd cyfrifoldeb personol am ei ddatblygiad ei hun;

➔ galluogi'r dysgwr i wneud penderfyniadau am y modd y mae'n mynd i'r afael â'i waith, ar-lein ac all-lein, a'i drefnu;

➔ cyfathrebu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant yn glir, fel y gall dysgwyr wneud penderfyniadau am sut i fynd i'r afael â'u gwaith a deall sut beth yw llwyddiant;

➔ osgoi ailadrodd gwybodaeth, sgiliau a thechnegau y mae dysgwyr eisoes wedi'u meistroli;

➔ ceisio adborth gan ddysgwyr er mwyn pennu a yw amcanion dysgu yn ddigon heriol gan ddefnyddio dulliau priodol gan gynnwys cyfryngau digidol;

➔ cynnwys hunanasesiad gan y dysgwr, a all gael ei ddefnyddio i ategu mathau eraill o asesu ac fel sail deialog rhwng y dysgwr a'r ymarferydd;

➔ cael ei ddefnyddio i lywio gwaith cynllunio yn y dyfodol ar gyfer y dysgwr unigol (a'r grŵp cyfan os yn briodol), er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn adlewyrchu cynnydd.

## Dysgu gwahaniaethol

Mae gwahaniaethu yn set o dechnegau a ddefnyddir i ddarparu ar gyfer gwahanol ffyrdd o ddysgu dysgwyr, ynghyd â'u gwahanol alluoedd a dealltwriaeth o bwnc. Caiff ei ddefnyddio fwyfwy o fewn AB ac mae ymchwil wedi dangos, os caiff ei ddefnyddio'n dda, y gall fod yn ffordd effeithiol iawn o ddiwallu anghenion grŵp gallu cymysg. Ceir rhai adnoddau defnyddiol ar wahaniaethu cyffredinol ac 'ymestyn a herio' ym Mlwch Offer Athrawon ColegauCymru; mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar ddefnyddio gwahaniaethu a gweithgareddau ymestyn gyda dysgwyr MAT.

Yn aml, bydd angen i ymarferwyr ddefnyddio gwahaniaethu gyda dysgwyr MAT oherwydd byddant yn naturiol yn dueddol o orffen eu gwaith yn gynharach nag aelodau eraill o'r grŵp. Gallant hyd yn oed fod wedi symud ymlaen yn eu darllen a'u hymchwil eu hunain cyn i weddill y grŵp ddechrau dysgu pwnc neu sgil benodol. Yn yr achosion hyn, rhaid sicrhau na chaiff dysgwyr 'fwy o'r un peth', am ddau reswm:

- maent yn debygol o ddiflasu a theimlo'n rhwystredig wrth ailadrodd neu ymarfer sgil maent eisoes wedi'i meistroli;
- bydd yn dysgu'n fuan fod gorffen yn gynnar ond yn arwain at fwy o waith, a bydd yn arafu'n briodol.

**Ymestyn**

Mae gweithgaredd ymestyn yn un sy'n ymestyn dysgu gwers neu weithdy. Gellid ei wneud gan unrhyw ddysgwr, yn unigol neu mewn grwpiau; yn achos dysgwr sy'n ei chael hi'n anodd, gallai gweithgaredd ymestyn gynnwys atgyfnerthu neu ailadrodd er mwyn sicrhau ei fod yn deall ac y gall gymhwyso cynnwys y cwrs. Yn achos dysgwr MAT, bydd yn dasg neu'n broblem heriol sy'n adeiladu ar yr hyn mae gweddill y grŵp wedi'i ddysgu, ac a ddyluniwyd i ddatblygu meddylfryd a/neu sgiliau ymarferol lefel uwch.

Yn hytrach, dylai gweithgareddau ymestyn gael eu defnyddio i ddyfnhau a chyfoethogi dysgu. Nodweddir dysgwyr MAT gan eu gallu i amsugno gwybodaeth newydd yn gyflym, a gall ymarferwyr ddefnyddio eu gwybodaeth am ddysgwyr i 'baru' gweithgareddau i'w diddordebau a'u doniau unigol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth hefyd yn bwysig i gadw diddordeb dysgwyr ac osgoi sefyllfa lle maent yn ymwneud gymaint â phwnc penodol fel na allant symud ymlaen; dylid anelu at ehangu a dyfnhau eu gwybodaeth a'u sgiliau. Yn anad dim, dylai ymarferwyr gynllunio er mwyn osgoi peri rhwystredigaeth i ddysgwyr MAT eu bod yn cael eu 'dal yn ôl' gan ddysgwyr eraill sy'n arafach; gall hyn arwain at ddiffyg cymhelliant, 'gwneud ati' a gwrthdaro o fewn y grŵp.

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Grŵp NPTC: Rhaglen Cenhadon Ifanc Cenedlaethol

**Rhagor o wybodaeth:**
http://www.ascd.org/ASCD/pdf/siteASCD/publications/assessment-and-di-whitepaper.pdf

| Strategaethau gwahaniaethu awgrymedig ar gyfer dysgwyr MAT | |
|---|---|
| **Ie** | **Na** |
| ▪ Nodi galluoedd, doniau a diddordebau penodol dysgwyr, fel y gall dysgu gael ei gynllunio'n briodol<br>▪ Defnyddio aseiniadau haenog sy'n galluogi pob dysgwr yn y grŵp i archwilio'r un deunydd, ond gyda deilliannau gwahanol yn ofynnol yn dibynnu ar alluoedd unigol y dysgwr<br>▪ Sicrhau bod tasgau ac asesiadau yn llawn cynnwys – mae angen i ddysgwyr gael sylfaen ar gyfer datrys problemau, meddwl yn greadigol neu wneud ymchwil annibynnol<br>▪ Creu cyfleoedd i ddysgwyr MAT gydweithio mewn parau a grwpiau fel y gallant gymell a herio ei gilydd i gyflawni mwy<br>▪ Annog dysgwyr i archwilio a datblygu eu meysydd diddordeb eu hunain drwy ymchwil annibynnol a modiwlau fel Prosiect Unigol Bagloriaeth Cymru | ▪ Defnyddio dysgwyr MAT (neu eraill sy'n gorffen tasgau cyn gweddill y grŵp) fel 'cynorthwywyr addysgu' – nid yw hynny'n deg arnynt ac nid yw'n diwallu eu hanghenion dysgu na'u hanghenion emosiynol<br>▪ Disgwyl i ddysgwyr MAT ymddwyn yn dda - gall eu datblygiad ymddygiadol a chymdeithasol fod ar ei hôl hi o gymharu â'u datblygiad deallusol<br>▪ Rhoi mwy o'r un fath o waith iddynt am eu bod yn gorffen yn gynnar – rydych am weld ansawdd, nid swm<br>▪ Eu hynysu o weddill y grŵp i weithio'n annibynnol heb oruchwyliaeth – efallai na allant reoli eu hunain ac na fyddant yn ffynnu heb gyfarwyddyd priodol. |
| Addaswyd o Serving Gifted Students in General Ed Classrooms, erthygl o flog gan Dr Elissa Brown | |

## Datblygu sgiliau 'go iawn'

Er mwyn cyrraedd y brig yn eu dewis broffesiynau, mae angen i ddysgwyr galwedigaethol gael mwy na dim ond sgiliau technegol neu 'gyfrinachau'r grefft'; mae chwilfrydedd, penderfyniad, dyfalbarhad a chymhelliant yr un mor bwysig.  Mae adroddiad 'Bodies of Knowledge' Sefydliad Edge yn cynnig pedwar **arfer meddyliol** sy'n hanfodol ar gyfer dysgu ymarferol llwyddiannus:

1. **Ymchwilio:** bod yn agored i wybodaeth newydd, y dyhead i'w cheisio a'i gwerthuso'n ddeallusol.
2. **Arbrofi:** datblygu sawl fersiwn o syniad neu gynllun ac ymarfer sgiliau'r grefft drosodd a throsodd.
3. **Rhesymu**: y gallu i ddadansoddi cynnydd a chanlyniadau, gweithio allan goblygiadau eu gweithredoedd, a llunio modelau ac esboniadau.
4. **Defnyddio'r dychymyg:** y gallu i synhwyro posibiliadau ac atebion newydd.

Mae'n hawdd gweld sut mae'r cysyniad hwn yn helpu i addysgu dysgwyr MAT.  Wrth gwrs, mae angen i unrhyw saer, unigolyn trin gwallt, mecanig neu nyrs meithrinfa ddatblygu'r arferion hyn er mwyn cymhwyso a mynd ymlaen i gael gyrfa lwyddiannus yn eu diwydiant.  Ond bydd y dysgwr hynod alluog yn gallu gwthio ei hun ymhellach drwy ddefnyddio ei sgiliau a'i nodweddion penodol, gan gynnwys:

- datrys problemau drwy wneud cysylltiadau ac archwilio amrywiaeth o ddatrysiadau posibl;
- arloesi, cymryd risgiau a dysgu o'i gamgymeriadau;

- didoli a gwerthuso tystiolaeth, a gwneud dyfarniadau ar werth cymharol gwybodaeth o ffynonellau gwahanol;
- parhau i ganolbwyntio mewn sefyllfaoedd cymhleth a heriol;
- cael ei ysbrydoli gan gystadleuaeth iach.

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Coleg Gŵyr Abertawe: Tîm Digwyddiadau Gwallt

**Meithrin gallu eithriadol mewn pynciau galwedigaethol – beth sy'n gweithio**

- Sgyrsiau proffesiynol gyda chyflogwyr ac ymarferwyr yn y gweithle am safonau rhagoriaeth sy'n benodol i bwnc.
- Cyd-destunoli dysgu i sefyllfaoedd, swyddi a diwydiannau 'go iawn'.
- Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr efelychu rhagoriaeth, drwy'r defnydd o gyfarpar go iawn ac ymwneud ag ymarferwyr go iawn.
- Datblygu arferion meddyliol fel cymhelliant, dyfalbarhad ac amynedd.
- Cymryd rhan mewn cystadlaethau, ac ymwneud ag undebau llafur a chyrff proffesiynol, er mwyn ysgogi dysgwyr i wella.
- 'Cadw'r drws yn agored' rhwng parthau galwedigaethol ac academaidd pan fo angen cynnwys cysyniadol heriol (fel mathemateg mewn peirianneg).

Addaswyd o Haight, A. (2012) *The academic-vocational divide: Are notions of 'gifted & talented' relevant and useful to vocational education?*

# Adran 6: **Cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial**

## Safonau

6.1 Mae gan y sefydliad ddiwylliant o osod disgwyliadau uchel ar gyfer ei holl ddysgwyr, ac adnabod a dathlu llwyddiant

6.2 Defnyddir modelau rôl, mentoriaid a chyn-fyfyrwyr i ddangos modelau amrywiol o gyflawniad a llwyddiant

6.3 Mae'r sefydliad yn helpu rhieni a gofalwyr dysgwyr MAT i ddeall y ffordd orau o gefnogi eu plentyn

6.4 Mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd yn canolbwyntio ar gyfleoedd i ddysgwyr hynod alluog, ac yn meithrin dealltwriaeth glir o'r posibiliadau sydd ar gael i unigolion uchel eu cyflawniad a chymhelliant

6.5 Cynllunnir llwybrau datblygu i gyfateb i anghenion, diddordebau a dyheadau dysgwyr, gan edrych i'r hirdymor y tu hwnt i'r 'cam nesaf' ar ôl eu rhaglen bresennol

6.6 Mae proses systematig ar waith i sicrhau bod dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, gan gynnwys y rhai â hanes o raddedigion neu weithwyr proffesiynol yn eu teuluoedd, yn gallu cael cymorth ariannol a chymorth arall i'w helpu i ddatblygu

6.7 Mae'r sefydliad yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan gynnwys prifysgolion, cyflogwyr a sefydliadau arbenigol, i ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd cyfoethogi ac ymestyn i bob dysgwr

Mae angen i bob dysgwr gael ei annog, ei herio a'i wobrwyo er mwyn cynnal ei gymhelliant a sicrhau ei fod yn datblygu.  Mae unigolion MAT yn debygol o wynebu rhai heriau penodol, ac mae angen i SABau sicrhau bod eu strategaethau'n cefnogi lles emosiynol y dysgwyr hyn yn ogystal â'u datblygiad wrth gyflawni deilliannau dysgu.  Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau ar rai o'r ffactorau a all effeithio ar berfformiad dysgwyr MAT, a datblygiad dulliau gweithredu sefydliad cyfan effeithiol i fynd i'r afael â nhw.

## Heriau i ddysgwyr MAT

Fel yr amlinellir yn Adran 2, ni fydd dysgwyr MAT bob amser yn cyrraedd AB â hanes o lwyddo a pharodrwydd i ddysgu.  Wrth gwrs, gallant wynebu'r un rhwystrau â dysgwyr eraill, boed y rhain yn ariannol, yn emosiynol neu'n bersonol.  Gallant fod yn 'ddeueithriadol' (hynny yw bod ganddynt allu eithriadol ac anhawster dysgu) a all fod wedi eu hatal rhag cael eu nodi'n MAT yn yr ysgol, neu rhag cyflawni eu llawn botensial yn y gorffennol.  Hefyd, mae rhai heriau penodol a all ddeillio o allu eithriadol ac sy'n gallu gwneud y daith ddysgu – a gwaith y SAB – yn anos.  Mae'r blwch isod yn crynhoi rhai o'r heriau hyn.

**Ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad tangyflawnwyr**

**Ffactorau emosiynol a chymelliannol**

- Efallai nad ydynt yn ymwybodol o'u potensial eu hunain: efallai nad oes ganddynt ddealltwriaeth o'u hunain nac eraill
- Efallai fod ganddynt ddisgwyliadau sy'n rhy isel a chyfyngedig – gallu ymdebygu i ddiffyg nodau a gwerthoedd personol
- Efallai eu bod wedi cael cryn brofiad o anawsterau emosiynol a/neu fod yn agored i orbryder
- Efallai eu bod yn dueddol o feio eraill
- Efallai nad ydynt yn perfformio'n dda mewn profion
- Efallai eu bod yn cyflwyno gwaith heb ei orffen neu sydd o safon wael
- Efallai eu bod yn dangos tueddiadau perffeithrwydd a hunanfeirniadu
- Efallai eu bod yn gosod targedau afrealistig, naill ai'n rhy uchel neu isel
- Efallai nad ydynt yn hoffi ymarfer, cofio a meistroli
- Efallai ei bod hi'n anodd iddynt ganolbwyntio, gan gynnwys ar dasgau
- Efallai fod ganddynt anhawster dysgu penodol

**Ffactorau allanol**

- Diflastod, am fod y gwaith yn rhy hawdd
- Agwedd negyddol yr athro
- Efallai eu bod yn ei chael hi'n anodd gweithio mewn grŵp neu ffurfio cydberthnasau â chymheiriaid
- Dylanwad teuluol – gelyniaeth, diffyg cefnogaeth, disgwyliadau rhy uchel gan rieni, diffyg diddordeb
- Cefndir diwylliannol, cymdeithasol neu grefyddol â gwahanol werthoedd neu nodau
- Dylanwad y grŵp cymheiriaid, pwysau i gydymffurfio ac ofn cael eu gweld yn 'wahanol'

Addaswyd o becyn NACE Cymru ar gyfer Hyfforddiant Mwy Galluog a Thalentog i ysgolion (2013)

Pan nodir dysgwr MAT, mae hefyd angen i SABau nodi rhwystrau posibl i gyflawni a dechrau rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â nhw. Mae hyfforddiant ac arweiniad cynhwysfawr i staff, a oruchwylir gan y cydgysylltydd MAT, yn bwysig wrth sicrhau bod strategaethau addysgu, dysgu a chefnogi priodol yn cael eu defnyddio sy'n diwallu anghenion unigolion MAT.

## Sicrhau cydraddoldeb

Pan ystyrir cyfle cyfartal, mae arfer da i ddysgwyr MAT yr un peth ag arfer da i bob dysgwr. Mae angen i SABau fod yn ymwybodol y gall dysgwyr MAT wynebu rhwystrau penodol a allai gyfyngu ar eu datblygiad, a sicrhau eu bod:

- ➔ yn ymgorffori proses monitro deilliannau benodol ar gyfer grwpiau gwarchodedig a difreintiedig yn eu trefniadau cyffredinol ar gyfer monitro deilliannau MAT;
- ➔ yn nodi dysgwyr y gall eu cefndir rwystro cyflawniad (er enghraifft, y rhai sy'n gadael gofal, dysgwyr o grwpiau lleiafrifol, dysgwyr heb hanes o raddedigion neu weithwyr proffesiynol yn eu teulu agos) ac yn ystyried defnyddio ymyriadau wedi'u teilwra gyda nhw, fel mentora;
- ➔ yn gwneud defnydd priodol o dechnolegau dysgu i sicrhau hygyrchedd i bob dysgwr;

- ➔ yn synhwyrol a sensitif wrth ddefnyddio gwybodaeth bersonol nad yw dysgwyr am ei datgelu efallai;
- ➔ yn hyrwyddo ethos cynhwysol o lwyddiant ymhob pwnc, gan ddefnyddio modelau rôl amrywiol;

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Coleg Caerdydd a'r Fro: Ymdrin â rhwystrau penodol

- ➔ yn gwneud dysgwyr yn ymwybodol o'r gefnogaeth, gan gynnwys ariannol, sydd ar gael i'w helpu i lwyddo a datblygu.

Mae gwaith ymchwil wedi nodi nifer o heriau penodol a all wynebu dysgwyr MAT o gefndiroedd difreintiedig, ac y gellir ymdrin â nhw drwy raglenni cefnogi a chyfoethogi wedi'u teilwra. Crynhoir y rhain yn y blwch isod.

**Heriau posibl i ddysgwyr MAT o gefndiroedd difreintiedig**

*Heriau ariannol*

- Pryderon am gostau ariannol mynychu sefydliadau AB, gan gynnwys costau byw
- Deall y system cyllid myfyrwyr ac ad-daliadau
- Pryder nad yw enillion ariannol AU yn werth chweil

*Heriau cymdeithasol, diwylliannol a daearyddol*

- Pryderon am fyw oddi cartref neu symud i rywle arall
- Diffyg anogaeth gan y teulu i wneud cais i sefydliad AU
- Teimlad nad yw AU 'iddyn nhw' ac nad yw rhai prifysgolion efallai'n gynhwysol o ran myfyrwyr dosbarth gweithiol neu leiafrifoedd ethnig

*Heriau cyd-destunol eraill*

- Pryderon am lefelau cyrhaeddiad a graddau arholiadau
- Diffyg gwybodaeth a diddordeb yn y cyrsiau a gynigir gan sefydliadau AU

Addaswyd o *School and College-level Strategies to Raise Aspirations of High-achieving Disadvantaged Pupils to Pursue Higher Education Investigation* (Adran Addysg Llywodraeth y DU, 2014)

## Adeiladu gwydnwch

Mae SABau yn gweithio gyda phobl ifanc ac oedolion ar gam tyngedfennol yn eu taith ddysgu. Mae angen iddynt ddatblygu dysgwyr i fod yn unigolion a all gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, gosod eu targedau heriol eu hunain a chael eu cymell i gyflawni a thyfu.

Efallai na fydd potensial dysgwyr MAT bob amser yn cyfateb i'w lefelau cymhelliant, na chan ffocws clir ar yr hyn maent am ei gyflawni.  Felly, mae angen i SABau ystyried rhai pethau penodol wrth helpu'r grŵp hwn o ddysgwyr i ddatblygu:

- efallai nad yw eu haeddfedrwydd cymdeithasol ac emosiynol (eto'n) cyfateb i'w dawn neu allu;

- er bod yn rhaid dathlu llwyddiant, gall fod angen gwneud hyn yn ofalus oherwydd gallai canmoliaeth ddiwahân fod yn wrthgynhyrchiol i ddysgwr MAT (gall fod mor gyfarwydd nes ei bod yn golygu dim, neu'n rhy amwys i roi unrhyw beth iddynt weithio gydag ef);
- er mwyn cynnal cymhelliant, mae angen hyd yn oed i'r dysgwr disgleiriaf mewn grŵp gael adborth penodol ar sut i wella a datblygu;
- er bod angen i ddysgwyr MAT gael cyfleoedd i weithio'n annibynnol, byddant yn mynd yn ynysig ac yn colli cymhelliant os cânt eu gadael i wneud fel y mynnant ormod; mae angen i ymarferwyr ddefnyddio 'sgaffaldiau' priodol a rhoi cyfleoedd i ddysgwyr wneud gwaith grŵp â nodau clir a rennir;
- mae gwneud camgymeriadau a dysgu methu yn angenrheidiol i ddatblygu gwydnwch ac, er y gall hyn fod yn anodd i unrhyw ddysgwr, gall fod yn brofiad newydd a phoenus i ddysgwyr MAT sydd wedi arfer â llwyddo a chael pethau'n hawdd.

***Meddylfryd twf***

Wrth ystyried sut i greu dysgwyr gwydn sydd â'r sgiliau bywyd sydd eu hangen y tu hwnt i AB, gall fod o fudd i ymarferwyr ystyried gwaith Carol Dweck, PhD. Mae'r Athro Dweck yn arbenigwraig mewn seicoleg ym Mhrifysgol Stanford ac yn brif ymchwilydd ym maes cymhelliant. Mae ei model 'Dau Feddylfryd'[3], a ddangosir ar y dudalen nesaf, yn cynnig bod dysgwyr sydd â 'meddylfryd twf' (y gred y gall gallu gynyddu wrth ei ymarfer a'i gymhwyso) yn dangos mwy o gymhelliant ac yn cyflawni mwy na myfyrwyr tebyg sydd â 'meddylfryd sefydlog' (cred mewn model deallusrwydd statig). Mae'r agwedd hon yn rhywbeth y gall SABau ei datblygu a'i meithrin yn eu holl ddysgwyr, waeth beth fo'u gallu. Ni fydd gan ddysgwyr MAT feddylfryd twf yn barod o reidrwydd!

Mae Research Summary – Assessment for Learning yn awgrymu un ffordd y gallai'r 'meddylfryd twf' fod yn hanfodol wrth helpu dysgwyr MAT i gyflawni eu potensial:

> *We now know that success itself does not necessarily motivate. It depends to a great extent on why we think we have been successful in our learning. Even the performance of very able pupils can plateau or even diminish if they believe that they have reached what they consider to be the limits of their intelligence – that their level of intelligence is fixed and they are powerless to increase their ability to learn.*

## Sicrhau llwybrau datblygu

Dylai SABau fod yn anelu at broses bontio ddi-dor wrth i ddysgwyr ddatblygu o un cyfnod dysgu i'r llall, ac yna i'r byd y tu allan. Gwnaeth Adolygiad o gynllunio dilyniant mewn addysg bellach yng Nghymru, a gyhoeddwyd gennym yn 2016, nifer o argymhellion i SABau eu hystyried mewn perthynas â dysgwyr MAT, gan gynnwys:

➔ canolbwyntio casglu data ar ddilyniant a chyrchfannau dysgwyr, gan ddefnyddio hyn i nodi gwendidau systematig yn y cwricwlwm ac archwilio gwahaniaethau ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr;


➔ cynyddu hyblygrwydd drwy ddatblygu cyrsiau modiwlaidd, cyrsiau interim a rhaglenni dysgu carlam;

[3] Dweck, C, (2008) Mindset: The New Psychology of Success (Random House)

- ➔ sicrhau bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn integreiddio herio a'i fod yn cael ei lywio gan ddyheadau dysgwyr, capasiti a photensial;
- ➔ defnyddio gweithgarwch ymgysylltu (fel diwrnodau agored) i sicrhau proses well o hysbysu rhieni am y dewisiadau pwnc a llwybrau dilyniant dilynol sydd ar gael i'w plentyn;
- ➔ cryfhau cymorth unigol, gan gynnwys ar gyfer anghenion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr.

**Ffig. 8: Dau Feddylfryd**

Wrth weithio gyda dysgwyr i gytuno ar CDUau a nodau unigol, mae angen i SABau gofio am



anghenion penodol dysgwyr MAT. Bydd gan rai ddarlun clir iawn o'u gyrfaoedd yn y dyfodol, ond efallai na fydd hynny'n wir am eraill, a all ei chael hi'n anodd llunio rhestr fer o blith yr holl opsiynau posibl – yn enwedig dysgwyr sy'n ddawnus mewn sawl maes. Hefyd, fel yr amlinellir uchod, bydd rhai dysgwyr yn wynebu rhwystrau sy'n gwneud y syniad o gamu ymlaen yn fwy anodd.

Tra bydd llawer o ddysgwyr MAT yn amlwg yn anelu at ddatblygu i AU, mae SABau mewn sefyllfa unigryw i'w helpu i ystyried opsiynau gyrfaol tymor hwy hefyd. Mae gan y sector AB gysylltiadau cryf â chyflogwyr ac mae angen eu defnyddio mewn ffordd strwythuredig er mwyn ehangu cyfleoedd i ddysgwyr MAT; gallai hyn arwain at ddeilliannau cadarn (fel cynigion swydd, nawdd neu interniaethau), ond gall hefyd ddarparu profiadau dysgu sy'n herio dysgwyr, yn gysylltiedig â'u diddordebau ac yn rhoi dealltwriaeth iddynt o sut y gellir rhoi eu galluoedd ar waith.

Mae Ffig. 9 yn rhoi rhai awgrymiadau ymarferol ar sut y gall SABau helpu dysgwyr MAT i ddatblygu i'r camau nesaf. Fodd bynnag, dylid pwysleisio nad yw'r llwybrau hyn yn rhai ar wahân; efallai y bydd dysgwyr MAT yn eu dilyn i gyd dros amser, ac nid o reidrwydd mewn ffordd linellol.

**Ffig. 9 Cefnogi datblygiad: arfer gorau ar gyfer dysgwyr MAT**

## I mewn i waith

- Darparu cynnwys cwricwlaidd, hyfforddiant a modelau rôl sy'n rhoi syniad clir i ddysgwyr o'r hyn mae bod yn 'arbenigwr' yn eu dewis faes yn ei olygu a sut y gallant barhau i ddatblygu eu sgiliau drwy gydol eu gyrfaoedd.
- Gweithio gyda dysgwyr i greu ymdeimlad o falchder a chyflawniad wrth wneud gwaith i safon uchel, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar asesiadau a graddau.
- Defnyddio mentoriaid yn y diwydiant i roi cipolwg i ddysgwyr ar y sgiliau a'r nodweddion y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, a'u helpu i weld eu hunain mewn gyrfa neu broffesiwn penodol.

## I'r brifysgol

- Ystyried defnyddio sawl ymyriad (ymweliadau, digwyddiadau allgymorth, trafodaethau â chyn-fyfyrwyr) er mwyn 'normaleiddio'r' syniad o wneud cais i brifysgol ddethol. Nododd adolygiad Llysgennad Oxbridge y gall fod gan ddysgwyr ganfyddiadau negyddol o'r sefydliadau hyn fel rhai nad ydynt ar eu cyfer nhw, na ellir eu dileu gydag un ymweliad.
- Sefydlu cysylltiadau effeithiol â phrifysgolion fel bod dysgwyr yn cael adborth gonest a phenodol ar eu ceisiadau. Bydd hyn yn helpu i feithrin dealltwriaeth athrawon o'r hyn mae prifysgolion yn chwilio amdano, a'u gallu i helpu dysgwyr wrth wneud ceisiadau yn y dyfodol.
- Gweithio gyda sefydliadau fel Ymddiriedolaeth Sutton, Ymddiriedolaeth Addysgol Villiers Park a Future First, er mwyn cefnogi dysgwyr MAT sydd o gefndiroedd difreintiedig wrth iddynt wneud ceisiadau AU a chynllunio ar gyfer y newid.

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Coleg Cambria: Mynd i'r brifysgol

## I faes entrepreneuriaeth

- Ystyried defnyddio prosiectau menter, lle mae entrepreneuriaid a chyflogwyr yn gosod briffiau busnes i ddysgwyr eu datrys, annog gwaith tîm, arweinyddiaeth, bodloni terfynau amser, datrys problemau a deall cynllunio ariannol.
- Annog gwirfoddoli/cysgodi entrepreneuriaid.
- Meithrin cysylltiadau â Hyrwyddwyr Menter a ariennir gan Lywodraeth Cymru ymhob sefydliad AB ac AU ac â Pherchenogion Busnes Entrepreneuraidd.
- Cynnal ymweliadau â Deorfeydd sy'n helpu cwmnïau newydd i ddatblygu drwy ddarparu gwasanaethau fel hyfforddiant rheoli neu le swyddfa.
- Manteisio ar y cymorth a'r adnoddau ar wefan Syniadau Mawr Cymru.

**Astudiaeth achos – gweler Atodiad C**

Coleg y Cymoedd: Tafflab

# Atodiad A: Taith dysgwyr MAT

| | Heriau dysgwyr MAT | Strategaethau lliniaru |
|---|---|---|
| **Cais i AB** | ▪ Gall fod potensial 'cudd' nad yw wedi'i weld na'i feithrin gynt<br>▪ Efallai na chyrhaeddwyd lefel uchel o'r blaen<br>▪ Gellir ffafrio dulliau dysgu ymarferol nad ydynt ar gael yn llawn mewn amgylchedd ysgol<br>▪ Gall fod nodau personol sy'n afrealistig o uchel neu isel<br>▪ Gall pwysau rhieni/athrawon arwain at ganolbwyntio ar lwybr penodol ar draul ystyried opsiynau posibl eraill<br>▪ Gall fod problemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu neu rwystrau dysgu eraill | ➔ Hyfforddi staff derbyn i adnabod a chofnodi arwyddion o ddyheadau posibl ac uchel<br>➔ Gwneud trefniadau i rannu gwybodaeth ag ysgolion, lle bo modd<br>➔ Ymgysylltu â rhieni/gofalwyr ar gam cynnar er mwyn eu cynnwys wrth gynllunio llwybr dysgu addas<br>➔ Nodi adnoddau, technegau addysgu a thechnolegau dysgu a all helpu dysgwyr i ymgysylltu a goresgyn rhwystrau |
| **Cofrestru a sefydlu** | ▪ Ofn stigma neu label MAT<br>▪ Perfformiad gwael mewn profion<br>▪ Anodd mynd o'r ysgol i'r coleg, ar ôl bod gyda'r hynaf ymhlith nifer lai yn flaenorol | ➔ Datblygu meini prawf cynhwysol ar gyfer nodi gallu a thalent mewn pynciau galwedigaethol ac academaidd, a sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio<br>➔ Cofnodi dysgwyr MAT yn systemataidd ac olrhain eu cynnydd<br>➔ Defnyddio CDUau i negodi targedau heriol gyda dysgwyr, sydd wedi'u teilwra'n benodol i'w galluoedd, diddordebau a dyheadau<br>➔ Defnyddio asesiad ffurfiannol i bennu beth mae dysgwyr eisoes yn ei wybod a datblygu darpariaeth cwrs yn briodol |
| **Ar y rhaglen** | ▪ Gellir diflasu gyda'r drefn reolaidd a thasgau ailadroddus os ydynt eisoes wedi meistroli sgil<br>▪ Gall ei bod hi'n anodd sefydlu cydberthnasau â chymheiriaid<br>▪ Gallai'r angen am berffeithrwydd olygu bod gwaith yn cael ei gyflwyno'n hwyr neu ganolbwyntio gormod ar bwnc<br>▪ Gallai anawsterau emosiynol, ymddygiadol neu ddysgu posibl gyfyngu ar gynnydd<br>▪ Cynnwys cwrs ddim yn ddigon heriol na gwahaniaethol i ddiwallu anghenion dysgwyr | ➔ Defnyddio gweithgareddau ymestyn i ddatblygu sgiliau lefel uwch (nid dim ond 'mwy o'r un peth')<br>➔ Cynnig cyfleoedd i weithio gyda chymheiriaid ar brosiectau a ddyluniwyd i archwilio meysydd o ddiddordeb a datblygu ffyrdd o feddwl dwfn<br>➔ Darparu rhaglenni cyfoethogi sydd â chysylltiad agos â gweithgareddau ystafell ddosbarth/gweithdy<br>➔ Adolygu'r CDU a newid amcanion dysgu er mwyn adlewyrchu cynnydd dysgwyr, mewn deialog â'r dysgwyr<br>➔ Cael adborth rheolaidd gan y dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr<br>➔ Bod yn ymwybodol o astudio annibynnol y gall dysgwyr fod wedi'i wneud, a darparu 'sgaffaldiau' priodol |

| | Heriau dysgwyr MAT | Strategaethau lliniaru |
|---|---|---|
| **Newid rhaglen neu ddatblygu o fewn y sefydliad** | ▪ Gall fod yn anodd meithrin cydberthnasau ag athrawon newydd a/neu gymheiriaid<br>▪ Gall fod angen ailasesu nodau a thargedau dysgu<br>▪ Gellir ystyried nad yw rhaglen newydd yn ddigon heriol | ➔ Gosod nodau newydd ac ymestynnol<br>➔ Cadw'r drws yn agored i newidiadau o ran dyheadau neu yrfa ddymunol, gan gynnwys cyfleoedd i gyfuno gweithgareddau academaidd a galwedigaethol mewn modd hyblyg<br>➔ Canfod cyfleoedd i adeiladu ar ddysgu blaenorol a'i ymestyn drwy ddatblygu meddylfryd a sgiliau ymarferol lefel uwch<br>➔ Parhau i gyflwyno dysgwyr i fodelau llwyddiant gwahanol, eu paratoi ar gyfer byd gwaith a'u cefnogi i ddatblygu gwydnwch<br>➔ Ystyried cyfleoedd i ddysgwyr MAT fentora dysgwyr iau |
| **Datblygu'r tu hwnt i'r sefydliad** | ▪ Gall y genhedlaeth gyntaf i fynd i AU neu amgylcheddau proffesiynol, a'u teuluoedd, fod yn bryderus am y newid, gan gynnwys agweddau ymarferol/ariannol neu 'beidio â pherthyn'<br>▪ Efallai na fydd llwybrau ac arbenigeddau posibl dysgwyr MAT galwedigaethol wedi'u diffinio mor glir ag ar gyfer dysgwyr academaidd, nac wedi'u hyrwyddo gystal<br>▪ Efallai fod dysgwyr MAT wedi clywed y gallant 'wneud unrhyw beth' a all greu pwysau a gorbryder ychwanegol | ➔ Treulio amser yn gwrando ar ddysgwyr a'u cefnogi i wneud penderfyniadau am eu dyfodol<br>➔ Defnyddio cysylltiadau â sefydliadau AU a chyflogwyr er mwyn cynllunio llwybrau datblygu unigol<br>➔ Sicrhau bod dysgwyr yn cael gwybodaeth gynhwysfawr a chyfredol am eu sgiliau, cyflawniadau a dyheadau (gan gynnwys portffolios ar-lein a 'brandiau personol' lle bo'n briodol)<br>➔ Sicrhau, drwy gysylltiadau AU/diwydiant, fod dysgwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl a pha gymorth sydd ar gael iddynt |

# Atodiad B: Templed archwiliad iechyd

**Disgrifyddion:**
**Coch: ddim ar waith**
**Ambr: gwaith wedi dechrau ond angen ei atgyfnerthu**
**Gwyrdd: ar waith ac yn cael ei fonitro'n rheolaidd**

**1. Dull gweithredu sefydliad cyfan**

| Safonol | Gwerthuso perfformiad presennol | Statws (Coch / Ambr / Gwyrdd) | Camau sydd angen eu cymryd | Amserlen adolygu | Cyfrifoldeb arweiniol | Yr adnoddau sydd eu hangen (cyllid/pobl/partneriaid) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 Mae gan y sefydliad strategaeth gyffredinol ar gyfer MAT, sy'n cynnwys nodau ac amcanion diffiniedig â thargedau priodol, nid dim ond cyfres o fentrau ar wahân | | | | | | |
| 1.2 Arweinir darpariaeth MAT ar y lefel uchaf o fewn y sefydliad, ac fe'i hymgorfforir yn ei gynlluniau strategol, a chaiff ei thrafod yn rheolaidd gan yr uwch dîm arwain a'r Bwrdd | | | | | | |
| 1.3 Cymerir camau gweithredu integredig sy'n cwmpasu dysgwyr â galluoedd eithriadol mewn meysydd academaidd, galwedigaethol ac eraill (fel gweithgareddau artistig, chwaraeon neu entrepreneuraidd), ac sy'n rhoi'r un gwerth i'r holl feysydd hyn | | | | | | |
| 1.4 Mae rhaglenni MAT yn rhan o strategaeth sefydliad cyfan gynhwysol ar gyfer cynyddu cyfleoedd a photensial dysgwyr, sy'n sefydlu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ymhob maes dysgu | | | | | | |
| 1.5 Mae llywodraethwyr yn ymwneud â'r strategaeth MAT a'i rhaglenni ategol, ac yn trafod diweddariadau rheolaidd â thystiolaeth ar eu deilliannau | | | | | | |
| 1.6 Mae'r sefydliad wedi meithrin partneriaethau cryf ag ysgolion, sefydliadau AU, cyflogwyr, sefydliadau MAT arbenigol a'r trydydd sector er mwyn sicrhau ei fod yn manteisio ar ystod eang o arbenigedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ei ddysgwyr MAT | | | | | | |
| 1.7 Mae seilwaith ar waith i gefnogi dysgwyr MAT, gan gynnwys aelodau dynodedig o staff sy'n gyfrifol am gydgysylltu gweithgareddau gan ystyried dewisiadau ieithyddol dysgwyr a'u cryfderau yn y Gymraeg a'r Saesneg | | | | | | |
| 1.8 Mae gan y cydgysylltydd neu'r cydgysylltwyr MAT rolau diffiniedig clir, | | | | | | |

| | Safonol | Gwerthuso perfformiad presennol | Statws | Camau sydd angen eu cymryd | Amserlen adolygu | Cyfrifoldeb arweiniol | Yr adnoddau sydd eu hangen (cyllid/pobl/partneriaid) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | amser wedi'i neilltuo, DPP, adnoddau dwyieithog a'r awdurdod i gyflawni eu cyfrifoldebau | | | | | | |
| | 1.9 Caiff staff ymhob rhan o'r sefydliad arweiniad, cefnogaeth a DPP i'w helpu i nodi, addysgu a chefnogi dysgwyr MAT yn effeithiol | | | | | | |
| **2. Nodi dysgwyr MAT** | 2.1 Ceir fframwaith sefydliad cyfan ar gyfer nodi dysgwyr MAT, a gaiff ei adolygu a'i ddatblygu'n barhaus | | | | | | |
| | 2.2 Nodir dysgwyr MAT gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a meini prawf, sy'n cydnabod y gall gallu eithriadol fod ar ffurfiau gwahanol a dod i'r amlwg ar adegau gwahanol | | | | | | |
| | 2.3 Mae'r dull o nodi dysgwyr MAT yn canolbwyntio ar botensial ac nid yw'n dibynnu ar gyrhaeddiad blaenorol yn unig na diffiniadau cul eraill o 'allu'; mae'n cydnabod efallai na fydd dysgwr MAT yn cyflawni ar lefel uchel ar hyn o bryd nac wedi'i gymell i lwyddo | | | | | | |
| | 2.4 Mae timau pwnc neu gyfadran wedi datblygu eu meini prawf eu hunain er mwyn nodi dysgwyr â chryn botensial yn eu meysydd yn gyson | | | | | | |
| | 2.5 Mae dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn rhan o'r broses nodi | | | | | | |
| | 2.6 Caiff staff, gan gynnwys timau derbyn, tiwtoriaid, darlithwyr a mentoriaid, eu hyfforddi i nodi MAT a deall beth y dylent ei wneud pan nodir dysgwr MAT, gan gynnwys gofynion cefnogi, atgyfeirio a chofnodi | | | | | | |
| | 2.7 Mae'r sefydliad yn mabwysiadu diwylliant o gydraddoldeb a chynhwysiant wrth siarad â dysgwyr MAT ac amdanynt, fel nad ydynt yn teimlo eu bod 'wedi'u targedu' sy'n anghyfforddus iddynt – ac nid yw dysgwyr nad ydynt yn MAT yn teimlo'n annigonol nac wedi'u heithrio | | | | | | |

| | Safonol | Gwerthuso perfformiad presennol | Statws | Camau sydd angen eu cymryd | Amserlen adolygu | Cyfrifoldeb arweiniol | Yr adnoddau sydd eu hangen (cyllid/pobl/partneriaid) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. Olrhain, monitro a gwerthuso | 3.1 Mae gan y sefydliad ddull systematig o werthuso effaith a deilliannau ei strategaeth MAT, gan ddatblygu ei ddull o ddiwallu anghenion dysgwyr yn barhaus | | | | | | |
| | 3.2 Defnyddir mesurau ansoddol a meintiol i werthuso effaith gweithgareddau MAT, sydd wedi'u teilwra fel sy'n briodol i fentrau penodol | | | | | | |
| | 3.3 Caiff y strategaeth MAT gyffredinol ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd, wedi'i llywio gan adolygiadau ar lefel adrannol/pwnc/cwrs | | | | | | |
| | 3.4 Caiff enghreifftiau o lwyddiant dysgwyr eu gwerthuso a'u dadansoddi er mwyn nodi'r 'hyn a weithiodd' a'r 'gwersi a ddysgwyd', gyda mewnbwn gan y dysgwyr a'r staff dan sylw, fel y gellir rhannu ac ymestyn yr arfer gorau | | | | | | |
| | 3.5 Caiff MAT ei ystyried wrth arsylwi cymheiriaid, adolygu cyrsiau, cynnal hunanasesiadau a chynllunio camau gweithredu drwy'r sefydliad cyfan | | | | | | |
| | 3.6 Defnyddir systemau olrhain i fonitro cynnydd dysgwyr MAT, gan gynnwys dadansoddiad penodol o ddeilliannau grwpiau difreintiedig a gwarchodedig | | | | | | |
| | 3.7 Mae dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn rhan agos o werthuso strategaethau a gweithgareddau MAT a cheir 'dolen adborth' er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu o gamau a gymerwyd mewn ymateb i'w safbwyntiau | | | | | | |
| | 3.8 Bydd uwch reolwyr a llywodraethwyr yn adolygu ac yn ystyried effaith gweithgareddau MAT yn rheolaidd, yng nghyd-destun strategaeth MAT gyffredinol y sefydliad, yn hytrach na fel mentrau ar wahân | | | | | | |
| 4. Dylunio'r cwricwlwm | 4.1 Mae'r sefydliad wedi cynnal archwiliad o'i gwricwlwm mewn meysydd galwedigaethol ac academaidd (ac iaith cyfarwyddyd) er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn gyson ag anghenion dysgwyr MAT. | | | | | | |
| | 4.2 Mae'r gwaith o gynllunio darpariaeth ar gyfer dysgwyr MAT yn rhan annatod o strategaeth MAT gyffredinol y sefydliad, ac fe'i defnyddir i lywio'r gwaith o gynllunio DPP a gwerthuso'r broses ddosbarthu | | | | | | |
| | 4.3 Caiff creadigrwydd, menter, cwestiynu a | | | | | | |

| | Safonol | Gwerthuso perfformiad presennol | Statws | Camau sydd angen eu cymryd | Amserlen adolygu | Cyfrifoldeb arweiniol | Yr adnoddau sydd eu hangen (cyllid/pobl/partneriaid) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | datrys problemau eu hannog a'u gwerthfawrogi ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac ar bob lefel o allu | | | | | | |
| | 4.4 Mae'r sefydliad yn mynd ati i gynnig cyfleoedd cyfoethogi mewn ffordd gynhwysfawr, sy'n cynnwys academaidd, galwedigaethol a meysydd eraill o allu a thalent | | | | | | |
| | 4.5 Mae cyfoethogi ac ymestyn yn rhan annatod o'r cwricwlwm ac yn cael eu cynnig yn yr ystafell ddosbarth, gweithdy, tiwtorial neu weithle, nid dim ond fel gweithgareddau 'ychwanegol' | | | | | | |
| | 4.6 Caiff technolegau dysgu eu defnyddio'n effeithiol i ehangu a dyfnhau profiadau dysgwyr MAT, o fewn fframwaith o nodau dysgu clir | | | | | | |
| | 4.7 Mae digon o hyblygrwydd wrth gynllunio'r cwricwlwm i athrawon addasu eu dull o gyflwyno yn ystod y flwyddyn mewn ymateb i gynnydd dysgwyr | | | | | | |
| | 4.8 Mae prosesau ar waith i sicrhau bod datblygiadau newydd o ran y cwricwlwm yn cael eu gwerthuso yn erbyn meini prawf clir | | | | | | |
| 5. Strategaethau addysgu a dysgu | 5.1 Mae ymarferwyr yn cefnogi ei gilydd, yn rhannu arfer da, ac yn gallu cael gafael ar wybodaeth arbenigol i sicrhau eu bod yn gallu darparu profiadau dysgu sy'n diwallu anghenion unigolion MAT | | | | | | |
| | 5.2 Defnyddir amrywiaeth o ddulliau addysgu a dysgu, gan gynnwys seminarau, tiwtorialau, dysgu cyfunol, lleoliadau gwaith, cyfleoedd cyfoethogi ac astudiaeth annibynnol, i roi profiad o weithio mewn parau, grwpiau ac yn unigol i ddysgwyr MAT | | | | | | |
| | 5.3 Caiff dysgwyr MAT gyfleoedd i gydweithio ar dasgau neu brosiectau penodol, a rhoi cymorth cymheiriaid i'w gilydd | | | | | | |
| | 5.4 Bydd athrawon yn defnyddio asesiad ffurfiannol, a lywir gan arsylwi eu dysgwyr, er mwyn amrywio gweithgareddau dysgu a chynllunio datblygiad pob dysgwr, gan gynnwys y rhai hynod alluog | | | | | | |
| | 5.5 Defnyddir cynlluniau dysgu unigol i osod targedau heriol i ddysgwyr ac fel y sail ar gyfer adolygiadau rheolaidd o gynnydd, gyda chryn fewnbwn gan y dysgwr | | | | | | |

| | Safonol | Gwerthuso perfformiad presennol | Statws | Camau sydd angen eu cymryd | Amserlen adolygu | Cyfrifoldeb arweiniol | Yr adnoddau sydd eu hangen (cyllid/pobl/partneriaid) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5.6 Gwahaniaethir y dysgu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio a'i annog gan ystyried yr iaith gyfathrebu | | | | | | |
| | 5.7 Mae adborth manwl yn galluogi dysgwyr i wella eu gwaith (hyd yn oed os ydynt eisoes yn perfformio ar lefel uchel iawn), ac yn rhoi canllawiau manwl iddynt ar sut i gyflawni eu graddau targed neu ddeilliannau eraill | | | | | | |
| **6. Cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial** | 6.1 Mae gan y sefydliad ddiwylliant o osod disgwyliadau uchel ar gyfer ei holl ddysgwyr, ac adnabod a dathlu llwyddiant | | | | | | |
| | 6.2 Defnyddir modelau rôl, mentoriaid a chyn-fyfyrwyr i ddangos modelau amrywiol o gyflawniad a llwyddiant | | | | | | |
| | 6.3 Mae'r sefydliad yn helpu rhieni a gofalwyr dysgwyr MAT i ddeall y ffordd orau o gefnogi eu plentyn | | | | | | |
| | 6.4 Mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd yn canolbwyntio ar gyfleoedd i ddysgwyr hynod alluog, ac yn meithrin dealltwriaeth glir o'r posibiliadau sydd ar gael i unigolion uchel eu cyflawniad a chymhelliant | | | | | | |
| | 6.5 Cynllunnir llwybrau datblygu i gyfateb i anghenion, diddordebau a dyheadau dysgwyr, gan edrych i'r hirdymor y tu hwnt i'r 'cam nesaf' ar ôl eu rhaglen bresennol | | | | | | |
| | 6.6 Mae proses systematig ar waith i sicrhau bod dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, gan gynnwys y rhai â hanes o raddedigion neu weithwyr proffesiynol yn eu teuluoedd, yn gallu cael cymorth ariannol a chymorth arall i'w helpu i ddatblygu | | | | | | |
| | 6.7 Mae'r sefydliad yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan gynnwys prifysgolion, cyflogwyr a sefydliadau arbenigol, i ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd cyfoethogi ac ymestyn i bob dysgwr | | | | | | |

# Atodiad C: Astudiaethau Achos

## Astudiaeth achos: Rhaglen atodol MAT 14-19 — Coleg Sir Gâr

Mewn partneriaeth ag ysgolion Llanelli, lluniodd Coleg Sir Gâr raglen gyfoethogi ar gyfer disgyblion MAT mewn ysgolion. Roedd y rhaglen yn cynnwys Gwyddoniaeth, Technoleg, Ieithoedd, Celfyddydau Creadigol a Chwaraeon a chafodd ei chynnal yn ystod slotiau cyfnos (4.30pm – 6.30pm) ar adegau ystyriol drwy gydol Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Diben y rhaglen oedd ymestyn a herio disgyblion y tu hwnt i'r lefelau dysgu presennol. Canolbwyntiwyd ar gymhwyso sgiliau lefel uwch yn y disgyblaethau gwahanol a ddewiswyd gan ddisgyblion, fel y defnydd o feddalwedd dadansoddi perfformiad mewn chwaraeon i ddadansoddi perfformiad athletaidd. Rhydd hyn gyfleoedd iddynt ddatblygu sgiliau gwerthfawr a all gael eu cymhwyso yn y byd go iawn, helpu datblygu i ddysgu pellach a gwaith, a chymryd rhan mewn gweithgareddau cyffrous sy'n ymestyn eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn eu dewis feysydd o ddiddordeb.

Mae'r rhaglen gyfoethogi yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion ysgol MAT gynyddu eu gwybodaeth am bwnc ymhellach, gan ategu'r gwaith maent yn ei wneud o fewn eu rhaglen astudio TGAU. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion fynegi eu hunain a chael hwyl mewn amgylchedd heb unrhyw asesiadau. Mae'r rhaglen yn tynnu sylw at lwybrau datblygu a gyrfaol pellach ac yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion ymweld â diwydiant lleol a sefydliadau Addysg Uwch i siarad â staff am eu profiadau. Mae disgyblion hefyd yn gweithio gyda disgyblion mwy galluog a thalentog o ysgolion eraill gan feithrin cyfeillgarwch â nhw ac yn dod i adnabod tiwtoriaid profiadol sy'n arwain y rhaglen. Mae'r coleg yn rhoi tystysgrifau i ddisgyblion am bresenoldeb da a chymryd rhan yn y cynllun.

Gweithiodd y coleg yn helaeth gyda'r ysgolion i sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y prosiect a gafodd groeso da. Gallai'r rhan fwyaf o ysgolion nodi eu dysgwyr MAT yn dda a gwnaethant ymateb i'r fenter yn gadarnhaol. Mewn achosion lle nad oedd y meini prawf ar gyfer nodi dysgwyr MAT galwedigaethol wedi'u diffinio gystal, roedd angen gwneud rhywfaint o hidlo er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael cymaint o effaith ar ddysgwyr â phosibl lle dangoswyd potensial yn eu dewis ddisgyblaeth. Daeth staff ysgol â disgyblion i'r coleg ac fe'u gadawyd gyda'u rhieni ar ddiwedd pob sesiwn.

Ar y dechrau, roedd yn her cynnal y rhaglen mewn slot cyfnos ar adegau wedi'u dewis yn ofalus, drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, bu'n fwy llwyddiannus teilwra'r rhaglen ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 i fod yn fwy cywasgedig dros un tymor. Dylid amseru mentrau o'r fath yn ofalus er mwyn osgoi cael effaith ar waith ysgol.

Ar y cyfan, mae hyder a lefelau sgiliau disgyblion wedi gwella o ganlyniad i'r fenter a chafwyd adborth gwych. Yn ddiau, mae'r fenter hon wedi helpu dysgwyr MAT i bontio i'r coleg ac wedi rhoi cyfle iddynt ddod yn gyfarwydd â'r lleoliad a'r athrawon yn y coleg. Mae wedi eu cyflwyno i sgiliau lefel uwch a'r disgwyliadau a osodir arnynt gan y coleg wrth astudio ar lefel uwch. Roedd yn brofiad da iawn i bawb; gwaith caled ac ymarferol a llawer o hwyl.

## Astudiaeth achos: Canolfan Seren Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin

## Coleg Sir Benfro

Cyn gweithredu rhwydwaith Seren, roedd Coleg Sir Benfro a phenaethiaid chweched dosbarth yn Sir Benfro eisoes wedi bod yn cydweithio i weithredu rhaglen MAT ôl-16 yn y sir. Dechreuodd y gwaith gydag Ian Warwick o London Gifted and Talented, a gafodd ei gomisiynu gan yr awdurdod lleol i adolygu'r ddarpariaeth MAT yn Sir Benfro ar lefel gynradd, lefel uwchradd a lefel ôl-16. Yn dilyn yr ymarferion cwmpasu cychwynnol, gweithredodd Grŵp Llywio MAT Sir Benfro raglen o weithgareddau MAT ar draws y sir. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys cynadleddau AU, cyflwyno Horizons Wales (elusen cyn-fyfyrwyr sy'n cynnig cyfleoedd mentora i ddysgwyr, sy'n anelu at ymuno â phrifysgolion Grŵp Russell yn ogystal â'r proffesiynau amlwg), ymweliad blynyddol ag Oxbridge, siaradwyr gwadd, mynd i ddigwyddiadau prifysgol a pharatoi ar gyfer cyfweliadau.

Yn 2015 unodd grŵp Sir Benfro yn 'ganolfan Seren Sir Benfro/Sir Gaerfyrddin', ynghyd â Choleg Sir Gâr (a oedd â rhaglen MAT yn barod) ac ysgolion Sir Gaerfyrddin. Ffurfiwyd grŵp gweithredol a oedd yn cynnwys y penaethiaid a oedd yn gyfrifol am MAT yn y colegau, rheolwyr partneriaeth 14-19 awdurdod lleol, a dau bennaeth chweched dosbarth o'r ddwy sir. Sefydlwyd canolfan Seren ym mis Mehefin 2015 ac fe'i lansiwyd yn swyddogol ym Mharc y Scarlets ar 3 Chwefror 2016.

Roedd y ganolfan yn rhagweithiol iawn o'r cychwyn, gyda'r ddau bartner yn gallu dysgu o'r gwaith a wnaed eisoes yn y ddwy sir a chyfuno eu harbenigedd, cysylltiadau ac adnoddau. Caiff cyllideb y ganolfan ei rhannu'n gyfartal rhwng y siroedd ac mae'n cynnwys bwrsarïau i ddysgwyr a all eu helpu i fynd i ddiwrnodau agored a gweithgareddau, yn ogystal â chefnogi ymgeiswyr i gyflawni profion galluedd Oxbridge. Mae gwasgariad daearyddol y ganolfan wedi golygu bod angen trefnu digwyddiadau'n ofalus, a bu'n rhaid i ddysgwyr a staff fod yn barod i deithio.

Caiff dysgwyr ar raglen Seren eu dewis ar sail eu graddau TGAU gydag A* yn cyfateb i dri phwynt, A yn ddau bwynt a B yn un pwynt. Ar gyfer llwybr STEM rhaid ennill 20 pwynt; ar gyfer y llwybrau Busnes a Dyniaethau rhaid ennill 16 pwynt; ac ar gyfer y celfyddydau creadigol mae'n seiliedig ar deilyngdod unigol.

Bu'r effaith ar ddysgwyr MAT yn sylweddol. Gallant gymryd rhan mewn rhaglen arwyddocaol sy'n mynd y tu hwnt i ddarpariaeth leol, a chânt hunaniaeth genedlaethol ychwanegol y bu modd iddynt ei nodi ar eu ceisiadau UCAS. Cânt fwy o gyfleoedd mentora, er enghraifft y gwaith y mae ymgeiswyr Oxbridge wedi'i wneud gyda Dr Jonathan Padley o Brifysgol Caergrawnt wrth baratoi ar gyfer eu cais. Hefyd elwodd dysgwyr ar gwmnïaeth a chysylltiadau dysgwyr MAT eraill a ddilynai ddisgyblaethau tebyg ac a oedd yn anelu at yr un ddarpariaeth prifysgol. Mae cwmnïau fel KPMG hefyd wedi cymryd rhan, gan alluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o'r proffesiynau sydd ar ôl graddio.

## Astudiaeth Achos: Bagloriaeth Cymru a dysgu dwyieithog — Coleg Gwent

Yn 2015/16, cafodd Bagloriaeth Cymru ei chyflwyno i bob dysgwr amser llawn a oedd yn astudio ar Lefelau 1, 2 a 3. Ar y lefel Uwch, mae dysgwyr yn cwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau sy'n cynnwys tair her – yr Her Gymunedol, yr Her Menter a Chyflogadwyedd a'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, yn ogystal â Phrosiect Unigol yn ystod y ddwy flynedd. Bu hwn yn gyfle i ddysgwyr MAT Lefel 3 ddatblygu eu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd ymhellach ochr yn ochr â'u prif raglen alwedigaethol, gan gynnwys sgiliau cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol, datrys problemau ac effeithiolrwydd personol.

Yn sgil yr Her Gymunedol bu sawl cyfle i ddysgwyr ymwneud ag elusennau a sefydliadau lleol a rhanbarthol. Cwblhaodd Joe, dysgwr Cymraeg ei iaith ar y cwrs Diploma Estynedig Blwyddyn 1 Lefel 3 mewn Technoleg Gwybodaeth, ei Her Gymunedol drwy weithio gyda'r Rheolwr Datblygu Dwyieithog ar brosiect mewn cydweithrediad â Menter Iaith. Fel rhan o'r prosiect datblygwyd gwefan i hyrwyddo cyrsiau Cymraeg fel tystiolaeth ar gyfer yr Her Gymunedol. I ddechrau, rhoddodd tiwtor Joe ef mewn cysylltiad â'r Rheolwr Datblygu Dwyieithog, ac yna cefnogodd Joe i gymryd rhan yn y prosiect.

Cafodd pob dysgwr gefnogaeth lawn i gymryd rhan yn y tair her a'r Prosiect Unigol drwy sesiynau wedi'u hamserlennu, cymorth i drefnu digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn a chysylltiadau cychwynnol ag asiantaethau allanol gan diwtoriaid. Hefyd roedd canllawiau ar yr heriau ar gael yn hawdd drwy lwyfan e-ddysgu'r coleg ac anogwyd dysgwyr i rannu arfer gorau mewn grwpiau, rhwng ysgolion ac o fewn y coleg. Gallai dysgwyr MAT fynd ati i ddatblygu'r briff i gynnwys gweithgareddau allgyrsiol y gallent eu defnyddio i ddangos eu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd.

Ar y dechrau, roedd Joe yn ei chael hi'n anodd cydbwyso ymrwymiadau cwrs Lefel 3 heriol â'r gweithgarwch allgyrsiol hwn. Fodd bynnag, drwy amser a chymorth ei diwtor a'r Rheolwr Datblygu Dwyieithog, helpwyd i sicrhau bod Joe yn gallu cwblhau'r prosiect yn llwyddiannus i safon uchel, a chasglu tystiolaeth tuag at ei bortffolio her a'i gais i addysg uwch. Mae hyn wedi arwain at gysylltu â Joe unwaith eto'r flwyddyn academaidd ganlynol i gefnogi busnesau bach sydd am ddatblygu gwefan ddwyieithog. Mae hyn wedi meithrin ei hyder a gwella ei sgiliau cyflogadwyedd ymhell tu hwnt yr hyn y gellir ei wneud drwy brif gymwysterau'n unig. Bu datblygu sgiliau Cymraeg Joe ymhellach yn fudd arall o Fagloriaeth Cymru.

# Astudiaeth Achos: Defnyddio profion gwybyddol i nodi potensial

## Coleg Merthyr Tudful

Mae'r coleg wedi canfod efallai na fydd gan lawer o ddysgwyr y cymwysterau TGAU fel modd i nodi'n gywir a ydynt yn fwy galluog neu dalentog. Mae hyn yn hynod o wir am ddysgwyr sy'n oedolion y cafodd eu cymwysterau eu cwblhau sawl blwyddyn yn ôl, myfyrwyr â chymwysterau o wlad arall sydd wedi symud i'r ardal, a dysgwyr a all fod wedi tangyflawni mewn arholiadau oherwydd materion personol. Mae'r coleg wedi canfod bod prawf ALIS Addasol Prifysgol Durham, ynghyd â nodweddion pwnc-benodol, yn ddull hynod effeithiol o nodi myfyrwyr mwy galluog sydd â gallu cynhenid. Mae'n defnyddio hwn fel rhan o gyfuniad o strategaethau i nodi myfyrwyr mwy galluog a thalentog.

Mae'r prawf ALIS Addasol yn defnyddio algorithmau addasol gan sicrhau eu bod yn hygyrch i bob dysgwr ar unrhyw gam datblygu ac yn darparu asesiadau sy'n: bersonol; yn briodol i oedran; ac wedi'u teilwra i gam datblygu pob unigolyn. Mae ei system broffilio yn dadansoddi ymatebion myfyrwyr ac yn llunio proffiliau cynhwysfawr, manwl a chyfannol o ddysgwyr, gan alluogi'r coleg i:

- Ddeall cryfderau, gwendidau a photensial sylfaenol myfyrwyr;
- Teilwra addysgu a dysgu;
- Gosod targedau realistig a dyheadol, a llunio proffiliau cynhwysfawr, manwl a chyfannol o ddysgwyr, gan alluogi'r athrawon i fonitro cynnydd myfyrwyr yn ofalus.

Er mwyn sicrhau y gellir nodi a yw dysgwr yn MAT ar gam cynnar, mae'r coleg yn argymell bod y prawf ALIS Addasol yn cael ei gwblhau fel rhan o'r broses gofrestru neu'n fuan wedyn.

Ymunodd Chris â chwrs Safon Uwch yn y Coleg ac yntau wedi bod yn aelod o'r lluoedd arfog cyn hynny. Roedd yn bodloni'r gofynion mynediad ac ar sail ei gyflawniad blaenorol disgwyliwyd iddo ennill graddau 'D' ar lefel Safon Uwch. I'r gwrthwyneb, nodwyd ei fod wedi cyflawni sgôr sylfaenol uchel yn y Prawf Addasol a bod y graddau a ddisgwyliwyd ar sail y mesur hwn yn wahanol iawn. Cafodd ei allu cynhenid ymddangosiadol ei ategu ymhellach gan wybodaeth gan diwtoriaid cwrs a nododd pa mor gain y gallai drafod cysyniadau cymhleth. Gosodwyd targedau mwy dyheadol i Chris a chafodd ei gynnydd yn erbyn y targedau hyn ei fonitro'n agos. Llwyddodd i ennill y graddau Safon Uwch yr oedd eu hangen arno i barhau i astudio yn y brifysgol.

# Astudiaeth achos: Safonau proffesiynol ym maes Cynhyrchu'r Cyfryngau

## Coleg Ceredigion

Mae adran Cynhyrchu'r Cyfryngau y coleg yn gymharol fach. Mae'n recriwtio 16 o fyfyrwyr bob blwyddyn o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'u dadrithio gan y system addysg mewn ysgolion, ac mae gan lawer ohonynt hunanbarch isel er y gallant fod yn dalentog. Mae gan y coleg gyfleusterau a chyfarpar o'r radd flaenaf, a thîm o staff sy'n ymroddedig i ddatblygu moeseg gwaith proffesiynol dysgwyr.

Mae'r cwricwlwm Cynhyrchu'r Cyfryngau wedi'i strwythuro i fod yn hyblyg ac ymestyn dysgwyr MAT, drwy eu hannog i weithio ar friffiau prosiect go iawn. Pan fydd myfyriwr â photensial wedi'i nodi, bydd tiwtor y cwrs yn sicrhau bod y myfyriwr yn dod yn ymwybodol o'i botensial ac yn ei annog i ddehongli'r briffiau mewn ffordd heriol ac uchelgeisiol. Gallai hyn fod yn academaidd, o ran y sgiliau technegol sydd eu hangen, ond hefyd o ran y sgiliau proffesiynol a rhyngbersonol sydd eu hangen i lunio rhaglen yn y cyfryngau.

Caiff y tîm addysgu cyfan wybod am brosiect y myfyriwr a bydd yn ymateb i'r anghenion cynhyrchu a datblygiad sgiliau'r myfyriwr yn briodol. Er enghraifft, gall tiwtoriaid gynnal gweithdy un i un am ysgrifennu trosleisiau dogfennol, gwerthuso gwaith myfyrwyr gan roi adborth, gosod heriau llai o fewn fframwaith yr her gyffredinol y mae'r myfyriwr wedi'i gosod i'w hun. Darperir cyfarpar i'r myfyriwr ymarfer sgiliau technegol a bydd y technegydd (sydd hefyd yn diwtor) yn dangos swyddogaethau mwy datblygedig cyfarpar fel camerâu er mwyn cyflawni uchelgais creadigol y myfyriwr.

Disgwylir i fyfyrwyr weithio yn eu hamser eu hunain mewn ymateb i ofynion y briff, a dod yn ddysgwyr annibynnol, cynllunio eu prosiectau a chysylltu â chleientiaid. Mae'r coleg yn pennu disgwyliadau clir y gwnaiff pob myfyriwr weithio mewn ffordd broffesiynol i gynrychioli'r cwrs a chyflwyno cynnyrch sy'n adlewyrchu safonau proffesiynol mewn modd technegol. Gall hyn gynnwys logisteg cymhleth fel cael caniatâd i ffilmio, trefnu sawl sesiwn ffilmio mewn lleoliadau gwahanol, a goruchwylio cyfeiriad creadigol ffilm o'r cysyniad i'r cam ôl-gynhyrchu.

Yn yr ail flwyddyn astudio, mae'r tîm yn cynllunio ar gyfer prosiect mawr lle mae'r holl fyfyrwyr yn cydweithio ar ran cleient go iawn. Bydd y myfyrwyr yn gyfrifol am ddehongli'r briff, gan gynnig ateb creadigol i'r cleient a gweithredu'r briff. Mae'r prosiectau'n heriol a disgwylir i bob myfyriwr weithio mewn ffordd sy'n adlewyrchu arfer da proffesiynol.

Cyfeirir myfyrwyr MAT at weithgareddau allgyrsiol perthnasol fel gweithdai a phrofiad gwaith, ac i ymuno â chyrff proffesiynol perthnasol. Caiff ffilmiau myfyrwyr eu cyflwyno ar gyfer cystadlaethau a gwyliau fel Ffresh (Gŵyl Delweddau Symudol Myfyrwyr Cymru), gŵyl ffilmiau Ieuenctid Rhyngwladol Zoom, gŵyl ffilmiau Just a Minute a'r Eisteddfod Genedlaethol. Bydd graddedigion cyrsiau yn gadael y coleg gyda phortffolio gwaith cryf a hanes o gyflawni ar ran cleientiaid go iawn.

## Astudiaeth achos: Rhaglen AUR — Grŵp Llandrillo Menai

Sefydlodd Grŵp Llandrillo Menai Raglen AUR i gynnig gweithgareddau heriol i'w myfyrwyr disgleiriaf fel rhan o'i strategaeth MAT. Y gweithgaredd cyntaf a drefnwyd oedd menter breswyl deuddydd o hyd i ymestyn a herio grŵp o 20 o ddysgwyr MAT o raglenni academaidd a galwedigaethol. Cynlluniwyd y rhaglen breswyl er mwyn galluogi myfyrwyr o ardal ddaearyddol fawr iawn i ddod.

Er mwyn ariannu'r digwyddiad, gwnaed cais llwyddiannus i Ganolfan Ehangu Mynediad Prifysgol Bangor, a dalodd am gostau'r rhaglen breswyl a rhai darlithydd gwadd. Y coleg a dalodd am yr holl gostau eraill, a staff y coleg oedd yn gyfrifol am bob agwedd ar y digwyddiad o drefnu'r cyllid i drefnu siaradwyr ac archebu'r lleoliad. Roedd tiwtoriaid a rheolwyr o'r coleg yn bresennol yn y digwyddiad i hwyluso a chefnogi'r dysgwyr yn ystod y rhaglen breswyl.

Thema'r rhaglen breswyl oedd datblygu syniadau ar gyfer busnesau cynaliadwy ac amgylcheddol lleol. Ymhlith y rhaglen o weithgareddau roedd:

- prif ddarlith ddwyieithog gan ddarlithydd o Brifysgol Bangor, a ddilynwyd gan drafodaeth a nodi themâu perthnasol;
- gweithdy ar entrepreneuriaeth a sgiliau meddwl yn greadigol;
- darlith ar sgiliau cyflwyno;
- gwaith tîm i ymchwilio i brosiectau grŵp a'u cynllunio;
- cyflwyno prosiectau, a aseswyd gan banel o bobl leol amlwg.

Roedd yr adborth gan y dysgwyr a aeth i'r digwyddiad yn hynod gadarnhaol. Nododd llawer o ddysgwyr natur heriol y gweithgaredd fel ffactor allweddol wrth eu paratoi ar gyfer addysg uwch a byd gwaith. Roedd yr angen i'w gwthio allan o'u 'man cyfforddus' yn thema gyffredin yn yr adborth, yn ogystal â'r cyfle i feithrin sgiliau rheoli amser, cyfathrebu a chyflwyno. Cafodd arweiniad a chymorth unigolion proffesiynol ac academaidd eu gwerthfawrogi gan y dysgwyr hefyd.

> *Roedd yn benwythnos heriol iawn – ac am yr holl resymau cywir – a wnaeth olygu ein bod i gyd wedi ymestyn ein sgiliau mewn rhyw fodd neu'i gilydd (nid oedd y sgiliau'n gyfyngedig i rai academaidd yn unig). Hefyd roeddwn yn hoffi fformat y penwythnos a sut roedd yn ffurfiol a phroffesiynol iawn, gydag amser hamdden hefyd. Bonws ychwanegol i hyn oll oedd y ffaith bod popeth am ddim.*

Ymhlith y ffactorau llwyddiant hanfodol a nodwyd gan y coleg roedd:

- mynd â'r dysgwyr allan o'u hamgylchedd dysgu traddodiadol a'u herio i gwblhau prosiect ymarferol lefel uchel mewn terfyn amser cyfyngedig
- y cyfle i ddysgwyr brofi darlith lefel AU wedi'i chyflwyno gan siaradwr allanol yn ogystal â chael cefnogaeth tiwtoriaid cyfarwydd
- natur breswyl y profiad, a wnaeth gynnig cyfleoedd i'r dysgwyr gymdeithasu'n anffurfiol ag eraill â galluoedd tebyg
- cyllid sicr gan Brifysgol Bangor er mwyn helpu i dalu costau'r digwyddiad
- amseru'r ddarpariaeth o amgylch yr amserlen academaidd a gwaith rhan-amser dysgwyr.

## Astudiaeth achos: Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau — Cymru Gyfan

Mae Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru, a sicrheir gan y Rhwydwaith Hyrwyddwyr Sgiliau ac a arweinir gan Goleg Sir Gâr, yn brosiect sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r prosiect, sy'n canolbwyntio ar gystadleuaeth am sgiliau, yn cynnig seilwaith cefnogol i gystadleuwyr o Gymru sy'n cystadlu ar lefel genedlaethol a lefel ryngwladol. Mae cyllid ar gael i gefnogi cystadleuwyr priodol o ran oedran sy'n cystadlu mewn cystadlaethau WorldSkills UK, sy'n cyfateb i gystadlaethau ar lefel ryngwladol.

Mae'r gwaith o gynnal y prosiect yn anelu at wella llwyddiant cystadleuwyr drwy gydweithio â cholegau AB, cystadleuwyr, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr ledled Cymru. Ei uchelgais yw sefydlu ethos rhwng pob darparwr i gynnig mwy na chymwysterau'n unig a darparu sgiliau o'r radd flaenaf. Mae darparu profiadau i ddysgwyr sy'n meithrin hyder a sgiliau technegol personol wrth wraidd llwyddiant y prosiect hwn. Hefyd, mae gan y prosiect y nodau canlynol:

- cynnal dosbarthiadau meistr i staff a dysgwyr wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gystadleuaeth am sgiliau;
- cynnal digwyddiadau adeiladu tîm i ddysgwyr ledled Cymru;
- datblygu'r rhwydwaith Cenhadon Sgiliau i gynnwys darparwyr hyfforddiant annibynnol;
- annog cyflogwyr i ymgysylltu.

Mae'r prosiect Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru wedi gweithio'n helaeth gyda'r colegau AB a darparwyr hyfforddiant annibynnol ledled Cymru i ddatblygu'r prosiect a sicrhau y parheir i gymryd rhan mewn Cystadlaethau Sgiliau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Gallai'r rhan fwyaf o ddarparwyr nodi eu dysgwyr MAT academaidd yn dda a gwnaethant ymateb i'r fenter yn gadarnhaol.

Mewn achosion lle'r oedd angen gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o gystadlaethau sgiliau'r darparwyr, cynhaliodd y rhaglen ddosbarthiadau meistr i ddysgwyr a staff. Gwnaeth pawb feithrin gwybodaeth am y meini prawf cymhwysedd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chynnwys cwricwlwm y cwrs presennol.

Ar y cyfan, mae hyder a sgiliau dysgwyr wedi gwella o ganlyniad i ymgysylltu â chystadlaethau sgiliau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Cafwyd adborth ardderchog gan gyfranogwyr, gan ddynodi hwb i hunanbarch, gwell sgiliau technegol a sgiliau cyfathrebu. Atgyfnerthir sgiliau cyflogadwyedd hefyd, gan ymbaratoi cystadleuwyr yn dda ar gyfer y byd gwaith a'r safonau a ddisgwylir yn eu dewis ddisgyblaethau.

## Astudiaeth achos: Myfyrwyr anrhydedd a'r Prosiect Unigol — Ysgol Gatholig Dewi Sant

Mae Ysgol Gatholig Dewi Sant wedi sefydlu rhaglen Anrhydedd i ddysgwyr sy'n dangos gallu academaidd arbennig a diddordeb sy'n mynd y tu hwnt i gyfyngiadau arferol yr ystafell ddosbarth. Fe'i dyluniwyd mewn ymgynghoriad â chyflogwyr, ymgynghorwyr ac academyddion er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael y profiadau, cymwysterau a sgiliau angenrheidiol i 'sefyll allan' a bod yn fwy cyflogadwy.

Mae dysgwyr yn gwneud cais i'r rhaglen ac, os ydynt yn llwyddiannus, disgwylir iddynt astudio Bagloriaeth Cymru a chwblhau prosiect unigol. Maent yn dewis pedwar cwrs UG sy'n berthnasol i'w dyheadau addysgol neu yrfaol, ac yn mynychu darlithoedd Rhaglen Sgiliau Proffesiynol yn seiliedig ar eu dewis bynciau. Hefyd, cânt y cyfle i fynd ar leoliadau gwaith o ansawdd uchel sy'n berthnasol i'w llwybr a theithiau academaidd opsiynol. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd UG, caiff dysgwyr y cyfle i fynd i ddiwrnodau agored yn Rhydychen a Chaergrawnt.

Mae'r rhaglen yn tywys myfyrwyr ar daith ddysgu drwy wareiddiad, gan ddechrau yng Ngwlad Groeg hynafol, drwy'r Ymerodraeth Rufeinig, i'r Ymerodraeth Ottoman a'r Dadeni. Astudir athroniaeth, ideolegau, gwyddoniaeth, celfyddydau, mathemateg a cherddoriaeth cyfnodau penodol mewn amser. Clyw'r myfyrwyr gan siaradwyr o'r tu allan, a chânt gyfleoedd i ddarllen, dadlau a meddwl drostynt eu hunain. Drwy eu dewis brosiect unigol, byddant yn datblygu iaith israddedig, yn profi cysyniadau uwchgwricwlaidd ac yn cynnal dadansoddiadau manwl gywir o ddata, a gefnogir gan fodiwl 'dadansoddeg gymdeithasol' a arweinir gan Brifysgol Caerdydd.

Disgwylir i ddysgwyr hunanreoli, hunangymell ac astudio'n annibynnol. Hefyd, cânt eu hannog i gyflawni gweithgareddau allgyrsiol fel sefydlu cymdeithasau a chymryd rhan ynddynt. Mae'r profiad yn rhoi rhagflas iddynt o beth i'w ddisgwyl mewn addysg uwch.

Caiff y rhaglen ei hwyluso gan ddarlithwyr sy'n darparu cymorth a her ym mhob pwnc, ac fe'i hasesir drwy waith cyflwyno, papurau ymchwil a thrafodaeth wedi'i threfnu. O ganlyniad mae dysgwyr ar y rhaglen wedi datblygu sgiliau ymchwil, cyflwyno, llunio adroddiadau a chyfathrebu ardderchog.

## Astudiaeth achos: Cymorth unigol i ddysgwyr — Coleg Penybont

Roedd Mared yn mynychu theatr ieuenctid yn 2014 pan gafodd ei gweld gan Grace Warner, sef darlithydd celfyddydau perfformio Coleg Penybont. Ar ôl gweld ei thalent, soniodd Grace wrth Mared am gwrs theatr gerddorol Penybont. Cafodd Mared ei derbyn ar y cwrs ac yn ystod ei hamser ym Mhenybont profodd ei bod yn ddysgwraig ymroddedig ac eithriadol.

Roedd yn hynod drefnus a rhagorodd ar y disgwyliadau arferol, gan gyflwyno aseiniadau cyn y terfyn amser a helpu ei chymheiriaid gyda'u gwaith. Croesawodd yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a gynigiwyd gan Goleg Penybont yn llawn brwdfrydedd, a gwnaeth ei thiwtor personol a'i darlithwyr roi o'u hamser a rhannu eu sgiliau i'w helpu i gyflawni ei nodau a'i photensial. Gwnaethant ei helpu i ddewis deunydd addas ar gyfer clyweliadau, mireinio ei pherfformiadau, a rhoi sesiynau hyfforddi pellach iddi. Anogodd ei hyfforddwr llais hi i roi cynnig ar arddulliau newydd a goresgyn effeithiau'r nam ar ei lleferydd.

Manteisiodd Mared yn llawn ar y llu o weithgareddau allgyrsiol a oedd ar gael yn y coleg, ac ymhlith ei chyflawniadau roedd:

- mynychu pob dosbarth meistr yn y prynhawn a gynhaliwyd gan reolwr ardal y cwricwlwm
- cynrychioli ei chwrs fel cynrychiolydd academaidd o blith y myfyrwyr
- mynychu digwyddiadau dysgu MAT
- annog y ffreutur i werthu mwy o fwyd sy'n addas i bobl goeliag
- pobi cacennau i gyd-ddysgwyr a staff er mwyn gwneud eu diwrnod yn fwy llon
- trefnu pryd diwedd blwyddyn yr adran celfyddydau perfformio i staff a dysgwyr
- gwirfoddoli i actio mewn llawer o ffilmiau gan fyfyrwyr, gan gynnwys un yn hyrwyddo pwysigrwydd llythrennedd i'w defnyddio wrth sefydlu dysgwyr yn 2016
- creu a chynnal gweithdy chwarae rôl ar wasanaeth cwsmeriaid
- arwain gŵyl Celf a Dylunio Coleg Penybont
- gwirfoddoli i ganu ym mhryd Nadolig llywodraethwyr y coleg
- rhedeg ei busnes caraoce ei hun

Enillodd Mared Ddiploma Estynedig Lefel 3 BTEC mewn Theatr Gerddorol Celfyddydau Perfformio a chael lle ar Flwyddyn Sylfaen RADA, Academi Frenhinol Celf Ddramatig. Yna fe'i gwelwyd mewn gweithdy yn ystod taith gan y coleg i *Move It*, digwyddiad dawns mwyaf y DU, lle cafodd glyweliad ar gyfer ysgoloriaeth ddrama pedair blynedd mewn prifysgol yn yr Unol Daleithiau. Cwblhaodd y clyweliad, a chafodd gynnig yr ysgoloriaeth. Pwysodd a mesurodd ei hopsiynau a phenderfynodd mai astudio yn RADA oedd yr opsiwn mwy ymarferol yn ariannol iddi ar y pryd. Bu RADA yn elwach o hynny!

## Astudiaeth achos: Rhaglen Llysgenhadon Ifanc Cenedlaethol — Grŵp NPTC

Mae'r cynllun Llysgenhadon Ifanc Cenedlaethol, un o fentrau Chwaraeon Cymru, ar waith ymhob awdurdod lleol ac yn anelu at rymuso ac ysbrydoli pobl ifanc i ddod yn fodelau rôl ac arweinwyr drwy chwaraeon drwy feithrin hyder a sgiliau i gael mwy o bobl i ymarfer corff. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau arwain 'go iawn', gwella eu siawns o fynd i'r brifysgol ac yn y pen draw gael gwaith.

Bob blwyddyn academaidd ym mis Mai, bydd myfyrwyr BTEC Chwaraeon yn eu blwyddyn gyntaf a leolir yn Academi Chwaraeon Llandarsi Grŵp NPTC yn cael eu gwahodd i wneud cais am y rhaglen. Byddant yn mynd drwy broses gyfweld ysgrifenedig, llafar ac ymarferol fanwl gywir er mwyn dewis y llysgenhadon mwyaf addas ar gyfer y rhanbarth. Mae'r coleg yn gweithio'n agos gyda thîm yr awdurdod lleol er mwyn helpu i ddewis ymgeiswyr â photensial chwaraeon ac arwain. Mae gwybodaeth tiwtoriaid am y dysgwyr wedi bod yn hynod bwysig yn y broses ddethol.

Ar gyfer y Llysgenhadon newydd llwyddiannus, y digwyddiad cyntaf yw'r gynhadledd Llysgenhadon Ifanc yng Nghaerdydd, llwyfan ysbrydoledig lle gallant ddysgu am sut i gyflawni eu rolau llysgenhadol yn y flwyddyn i ddod a mentora arweinwyr chwaraeon ifanc y dyfodol.

Yn 2015/2016 cafodd rhaglen LlI y coleg ei haddasu a'i hymestyn yn Uwch Dîm Rheoli (UDRh) o fewn Grŵp NPTC, er mwyn helpu i ehangu'r gwaith o hyrwyddo gweithgarwch corfforol a byw'n iach i'w cymheiriaid yn y coleg cyfan, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd. Cafodd yr UDRh gyllideb a'r rhyddid i gynllunio strategaeth i'w galluogi i gyflawni eu targedau.

Nododd y coleg fod gwaith partneriaeth effeithiol yn rhan annatod o lwyddiant y rhaglen, sy'n dal i dyfu a datblygu. Mae cydberthynas waith agos rhwng Adran Chwaraeon y coleg a Gwasanaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon yr awdurdod lleol. Ar hyn o bryd, caiff pob Llysgennad Ifanc ei gyflogi'n rhan-amser gydag un o sefydliadau partner y coleg.

Yn ddiweddar, mae Keira Davies, Llysgennad Ifanc Aur, sydd wedi ymwneud ag ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi cael ei henwi'n Llysgennad Ifanc Platinwm. Mae wedi ennill lle ar y grŵp llywio cenedlaethol ar gyfer y rhaglen LlI, yn ogystal â chael ei gwahodd i fynychu'r Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol lle caiff y cyfle i ddatblygu ei hun hyd yn oed ymhellach fel arweinydd chwaraeon. Mae Keira hefyd wedi cael ei gwahodd i siarad â Gweinidogion ac urddasolion eraill am iechyd a lles mewn addysg bellach.

# Astudiaeth achos: Tîm Digwyddiadau Gwallt a Harddwch

## Coleg Gŵyr Abertawe

Mae gan ardal Gwallt a Harddwch y coleg draddodiad o gymryd rhan lwyddiannus wrth farchnata ei chyrsiau a gweithio ar weithgareddau allgymorth gydag ysgolion a chymunedau lleol. Mae ganddi hefyd hanes ardderchog o godi arian drwy weithgareddau elusennol gan staff a myfyrwyr yn cydweithio.

Bedair blynedd yn ôl penderfynodd yr adran ffurfioli'r gwaith hwn a rhoi'r cyfle i grŵp o fyfyrwyr arwain y gweithgareddau hyn. Arweiniodd hyn at gyflwyno'r Tîm Digwyddiadau Myfyrwyr.

Caiff pob myfyriwr yn yr ardal ddysgu y cyfle i gymryd rhan a dewisir y tîm drwy broses gwneud cais a chyfweld gystadleuol. Cynhelir y cyfweliadau gan athrawon, Rheolwr yr Ardal Ddysgu ac aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Er na chaiff dysgwyr MAT eu targedu'n benodol, mae'r broses yn dueddol o ddenu myfyrwyr galluog â mwy o gymhelliant, sy'n aml am gael mwy o gyfrifoldeb. Bydd myfyrwyr yn cael eu dewis i'r tîm ac yn arwain yr agwedd hon ar waith yr Ardal Ddysgu er y caiff yr holl fyfyrwyr eu hannog i gymryd rhan yn y gweithgareddau.

Mae'r tîm Digwyddiadau yn ganolog i fywyd yr Ardal Ddysgu Gwallt a Harddwch ac mae ei rôl yn cynnwys:

- gweithgareddau cyswllt ysgolion;
- gweithgareddau marchnata a hyrwyddo;
- digwyddiadau elusennol;
- digwyddiadau trawscoleg, gan gynnwys parti Nadolig plant, gweithgareddau Cymreig a digwyddiadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;
- cynrychioli'r coleg mewn cystadleuthau yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae aelodau'r tîm yn dangos cryn sgil, gallu creadigol a dawn. Drwy gymryd rhan mewn ymgyrchoedd hyrwyddo ledled y sir ac yn genedlaethol, maent yn datblygu sgiliau rheoli a threfnu ynghyd â hunanhyder. Mae'r profiad yn helpu myfyrwyr wrth iddynt gamu ymlaen i astudio ar lefel uwch neu weithio ac mae'n gwobrwyo'r myfyrwyr hynny sy'n dangos dawn a chymhelliant.

Mae cystadlu yn rhan allweddol o weithgareddau'r Tîm Digwyddiadau, felly caiff y myfyrwyr mwyaf galluog y cyfle i ddatblygu a dangos sgiliau lefel uwch. Ethos y grŵp yw ymestyn sgiliau ymarferol, y gellir ei ddangos mewn cystadlaethau. Ymhlith y llwyddiannau diweddar bu dod yn gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd a Gwobrau Salon Cymru.

Mae aelodau'r Tîm Digwyddiadau hefyd yn cynnwys dysgwyr seiliedig ar waith. Mae hyn wedi helpu i ddwyn dysgwyr AB a DSW ynghyd, yn ogystal â galluogi prentisiaid i ddangos eu sgiliau ymarferol. Maent wedi cael eu cefnogi gan eu cyflogwyr i gystadlu, sy'n eu hannog i ymestyn eu gallu, yn ogystal â galluogi'r coleg i atgyfnerthu ei gysylltiadau â'r cyflogwyr hyn.

## Astudiaeth achos: Ymdrin â rhwystrau penodol — Coleg Caerdydd a'r Fro

Daeth Amber i'r coleg i astudio Therapi Harddwch Lefel 3 ar ôl ei chael hi'n anodd dysgu yn yr ysgol uwchradd oherwydd ei hanghenion dysgu ychwanegol. Yn y coleg dangosodd ddiddordeb a dawn ym maes therapi harddwch a wnaeth iddi sefyll allan fel dysgwr 'mwy galluog a thalentog' yn gynnar.

Defnyddiodd staff broffil dysgwr un dudalen er mwyn helpu i ddeall sut y gallent gefnogi Amber orau. Nododd ei thalentau a'r pethau oedd yn bwysig iddi, gan helpu i addysgu ar sail ei hanghenion. Ar y dechrau roedd Amber yn poeni am gael ei gweld fel dysgwr ag anghenion ychwanegol, a hithau wedi eu cuddio'n dda o fewn ei grŵp cymheiriaid. Fodd bynnag, drwy ddeall beth oedd yn rhoi pleser ac ystyr iddi llwyddodd staff i'w chefnogi a'i hannog y tu hwnt i unrhyw botensial a bennwyd ymlaen llaw. Er enghraifft, roedd Amber yn ei chael hi'n anodd cofio cyfarwyddiadau a threfnu ei hamser yn aml, gan ei gwneud yn anodd iddi gyfuno symudiadau mewn trefn dan reolaeth a chwblhau triniaethau yn yr amser oedd ar gael. Defnyddiwyd technoleg symudol i gipio trefn paratoi triniaeth a recordio triniaethau er mwyn ei helpu i oresgyn y rhwystrau hyn.

Tyfodd mewn hyder gyda help ei chymheiriaid a'i mentoriaid, ac nid oedd yn gweld ei hanghenion dysgu yn rhwystr mwyach. Roedd ei gwaith o safon ardderchog ac roedd ei chanlyniadau bod amser yn wych. Cafodd ei dewis i gynrychioli'r coleg mewn cystadlaethau sgiliau yng Nghymru a'r DU, gan gynnwys Cystadleuaeth Sgiliau Cymru ym mis Mawrth 2016 a Rowndiau Rhanbarthol World Skills UK ym mis Mai 2016, lle hi oedd yr ifancaf oedd yn cystadlu ac enillodd wobr efydd ar y ddau achlysur.

Er mwyn ei pharatoi ar gyfer pwysau cystadlu cafodd sesiynau hyfforddi sgiliau un i un y tu allan i'w hamserlen er mwyn datblygu strategaethau ymdopi. Ymhob cystadleuaeth cwblhaodd dair sgil alwedigaethol mewn amser penodol. Cafodd ei marcio am drefnu ei hardal trin, cymhwyso a pherfformio triniaethau, iechyd a diogelwch a natur gyffredinol therapydd.

Mae gallu perfformio a chynrychioli Coleg Caerdydd a'r Fro mewn modd mor broffesiynol mor ifanc yn dipyn o gamp. Mae Amber wedi achub ar gyfleoedd a goresgyn rhwystrau ac mae bellach yn cael ei chyflogi yn y diwydiant tra'n parhau i ddilyn rhaglen lefel 3 amser llawn. Mae wrthi'n ymchwilio i'r cystadlaethau lefel 3 sydd ar gael y flwyddyn academaidd hon er mwyn parhau â'i llwyddiant.

## Astudiaeth achos: Mynd i'r brifysgol — Coleg Cambria

Daeth Ifan i astudio yng Ngholeg Cambria gyda chanlyniadau TGAU da. Adeg cofrestru cafodd ei gynghori i wneud pedwar pwnc yn seiliedig ar ei broffil cyflawni a'i ddyheadau gyrfa.

Yn dilyn ei ffug ganlyniadau penderfynodd Ifan ei fod am wneud cais i Brifysgol Rhydychen. Cysylltodd cydgysylltydd ag ef a'i rieni i drafod ei ddyheadau a sut y gallai'r coleg ei gefnogi.

Yn ystod ei ddwy flynedd o astudio cafodd gynnig ystod eang o gyfleoedd ymestyn a herio, cyfleoedd rhwydweithio a digwyddiadau datblygu er enghraifft, sgyrsiau datblygu gan gyn-fyfyrwyr, tiwtoriaid derbyn prifysgol a diwydiant, Olympiaid Ffiseg, Cystadleuaeth Dadansoddwyr Ifanc y Gymdeithas Gemeg Frenhinol a dosbarthiadau meistr prifysgol.

Yn yr ystafell ddosbarth defnyddiwyd targedau gwerth ychwanegol i feincnodi ei berfformiad a rhoddwyd pwyslais cryf ar ymestyn a herio er mwyn datblygu sgiliau meddwl lefel uwch. Cafodd gweithgareddau cyfoethogi eu cynnig bob wythnos i ategu pob pwnc, gan gynnwys tiwtorialau math "Oxbridge" a Chymdeithas Wyddoniaeth Pennant er mwyn ehangu a llywio diddordebau myfyrwyr gwyddoniaeth a chyflwyno modelau rôl dyheadol lleol.

Yn ystod ei gais i Oxbridge, cafodd Ifan gymorth un i un gan ei diwtor personol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr. Cafodd y cyfle i'w gais drafft gael ei archwilio gan adolygydd allanol, a chafodd ffug gyfweliadau gydag aelod mewnol o staff ac athro allanol o Brifysgol Reading.

Gweithiodd Ifan yn andros o galed yn ystod ei amser yng Ngholeg Cambria a chafodd A* ymhob un o'i bedwar pwnc. O ganlyniad aeth ymlaen i astudio Gwyddorau Naturiol yng Nghaergrawnt. Ers hynny mae wedi cael ei wahodd yn ôl i siarad ag ymgeiswyr Oxbridge diweddaraf y coleg.

Mae'r coleg o'r farn bod ffactorau llwyddiant allweddol wrth gefnogi dysgwyr fel Ifan yn cynnwys:

- Datblygu cysylltiadau agos ag ysgolion er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd sydd ar gael yn y coleg.
- Cyngor da adeg cofrestru er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn dewis y nifer gywir o bynciau sy'n berthnasol i'w gallu a'u dyheadau gyrfa.
- Nodi dysgwyr mwy galluog a thalentog yn gynnar.
- Defnyddio targedau gwerth ychwanegol i feincnodi perfformiad.
- Cynnwys rhieni fel partneriaid wrth ddysgu a datblygu.
- Ffug arholiadau manwl gywir a realistig.
- "Cymunedau proffesiynol" sefydledig ymhlith staff addysgu er mwyn rhannu arfer da a chynnal arsylwadau cymheiriaid.
- Cynnal gweithgareddau cyfoethogi wythnosol er mwyn ymestyn a herio dysgwyr ac archwilio cyfleoedd gyrfa a datblygu.
- Defnyddio cymorth allanol priodol ar gyfer proses gwneud cais UCAS.
- Sefydlu cysylltiadau da â'r prif brifysgolion.

Gwnaeth Alys gais am gwrs arlwyo a lletygarwch lefel 1 yng Ngholeg y Cymoedd. Yn y cyfweliad nodwyd y byddai Alys yn fwy addas ar gyfer cwrs lefel 2, lle dangosodd gryn sgil a thalent.

Ar ôl cofrestru cafodd ei hannog i arddangos ei sgiliau yn y Gystadleuaeth Fwyd Genedlaethol. Enillodd wobr aur a'r 'gorau yn y dosbarth' o blith 300 o gystadleuwyr. Siaradodd beirniaid Urdd Cogyddion Cymru â thiwtor Alys ar ôl y gystadleuaeth, gan nodi nad oeddent byth wedi gweld rhywun mor dalentog yn 16 oed. Mae bellach yn aelod o dîm bwyd y coleg ac yn rhoi cyngor a chymorth i aelodau newydd.

Gan gydnabod ei hentrepreneuriaeth, cafodd ei hannog gan ei thiwtor i wneud cais am ddyfarniad Tafflab. Mae Tafflab yn gynllun sydd wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Frenhinol er annog y Celfyddydau, Gweithgynhyrchu a Masnach (RSA) er mwyn helpu dysgwyr entrepreneuraidd i greu busnesau cynaliadwy go iawn. Mae dysgwyr ar y cynllun yn gweithio i ddatblygu eu mentrau tra'n parhau i astudio. Cânt fentoriaid sy'n holi cwestiynau am eu syniadau ac yn rhoi cyngor ac adnoddau iddynt i'w helpu i lwyddo.

Bu cais Alys yn llwyddiannus a chafodd £1,000 a gwerth blwyddyn o fentora. Yna cyfeiriodd y coleg hi at gyfleoedd ategol eraill, gan gynnwys 'Bwtcamp' Syniadau Mawr Cymru, digwyddiad wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig rhaglen breswyl tridiau o hyd ddiddorol yn llawn arweiniad a chyngor ar gynllunio gyda rhai o entrepreneuriaid blaenllaw Cymru.

Fel un o enillwyr Tafflab roedd Alys yn un o aelodau sylfaen yr 'EDGE', grŵp Facebook preifat gan y coleg sy'n galluogi dysgwyr, staff a phobl fusnes i ryngweithio â'i gilydd a chynnig cymorth ac arweiniad.

Drwy'r cyfleoedd a nodwyd ac a ddarparwyd gan y coleg bu modd i Alys ddatblygu ei sgiliau, hyder a phroffil yn y diwydiant. Ers hynny mae wedi cael cynnig y cyfle i redeg cwrs addurno cacennau chwe wythnos yn y coleg, gan ddatblygu ei photensial.

O ganlyniad i stori Alys, mae'r coleg yn datblygu strategaeth MAT ar Sicrhau Mwy o Gyfleoedd a Photensial sy'n canolbwyntio ar:

- Nodi tangyflawnwyr a dysgwyr sydd wedi ymddieithrio, yn ogystal â chyflawnwyr uchel.
- Sicrhau bod profiadau addysgu a dysgu yn ymestyn ac yn herio dysgwyr.
- Nodi ffyrdd effeithiol o gyfathrebu â rhanddeiliaid.
- Sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle a'r anogaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad eu hunain.
- Sicrhau bod adnoddau digonol ar waith ar gyfer gwaith monitro ac olrhain effeithiol.
- Mae'r coleg hefyd wrthi'n datblygu cymhwyster arlwyo lefel 4 mewn partneriaeth Phrifysgol Derby ac mae'n gobeithio y bydd Alys yn cofrestru ar ei gyfer.

# Atodiad Ch: Adnoddau - Gwefannau defnyddiol

## Bodaeth gyffredinol am gefnogi dysgwyr MAT

**NACE (Cymdeithas Genedlaethol Plant Galluog mewn Addysg)**

Mae NACE yn rhoi arweiniad, cymorth a hyfforddiant i athrawon er mwyn iddynt gael y gorau allan o ddysgwyr galluog. Mae'r safle yn darparu gwybodaeth am ddatblygiad proffesiynol, cynadleddau, seminarau a gweithgareddau cyfoethogi.
http://www.nace.co.uk/

---

**Rhwydwaith Seren**

Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth gefndirol am rwydwaith Seren lle mae partneriaid yn cydweithio, yn rhannu adnoddau a phrofiad, er mwyn datblygu rhaglen gymorth i gyflawnwyr uchel ar draws y rhanbarth. http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/seren/the-hubs/?lang=cy

---

**London Gifted and Talented**

Mae'r wefan hon yn canolbwyntio ar sut i ysbrydoli athrawon a gwella cyflawniad pob dysgwr drwy ymdrin ag addysg fwy galluog mewn ffordd fwy cynhwysol.  Mae'r sefydliad yn cynnig datblygiad proffesiynol parhaus, adnoddau ac ymgynghoriaeth er mwyn gwella ansawdd addysgu a dysgu dawnus a thalentog.
http://londongt.org/

---

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**

Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth am brosiectau amrywiol ledled Cymru sy'n rhoi cyfleoedd a phrofiadau newydd i bobl ifanc.
http://www.urdd.cymru/cy/

---

**Horizons Wales**

Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth am gymorth, cyngor a mentora addysgol a gyrfaol i bobl ifanc yng Ngorllewin Cymru er mwyn ehangu eu gorwelion.
http://www.horizonswales.org/

---

## Cefnogaeth i gamu i addysg uwch

**Ymddiriedolaeth Sutton**

Gwybodaeth am y cyfleoedd mae Ymddiriedolaeth Sutton yn eu cynnig er mwyn cefnogi pobl ifanc anabl difreintiedig talentog, gan gynnwys ysgolion haf sy'n galluogi myfyrwyr disglair o gartrefi difreintiedig i flasu bywyd mewn prifysgol arweiniol.
www.suttontrust.com

---

**Ymddiriedolaeth Addysgol Villiers Park**

Yn helpu myfyrwyr â chryn allu academaidd i godi eu dyheadau a gwella eu lefelau cyrhaeddiad. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am ei chyrsiau, rhaglenni a gwasanaeth cynghorol. Hefyd ceir adnoddau i'w lawrlwytho/ar-lein.
www.villierspark.org.uk

---

**UNIQ**

Gwybodaeth am yr ysgolion haf a gynhelir gan Brifysgol Rhydychen.
http://www.uniq.ox.ac.uk/

---

**Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach**

Yn darparu gwybodaeth am raglenni Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), sy'n anelu at ehangu mynediad i addysg uwch a sgiliau lefel uwch o grwpiau a chymunedau wedi'u targedu.
https://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/widening_access/reaching_wider_initiative_cy.aspx

---

**Future First**

Mae'r wefan hon yn cynnwys gwybodaeth am sut y caiff ysgolion a cholegau gymorth i gysylltu â chyn-fyfyrwyr prifysgol a'r math o gymorth y gall cymunedau cyn-fyfyrwyr ei ddarparu, fel modelau rôl gyrfaol ac addysgol, mentoriaid/e-fentoriaid a darparwyr profiad gwaith.
http://futurefirst.org.uk/

---

## Sefydliadau celfydyddol

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth, cyngor ac adnoddau gan gynnwys cyfeiriadur celfyddydol sy'n rhoi gwybodaeth am artistiaid, sefydliadau, digwyddiadau celfyddydol, yn ogystal â swyddi a chyfleoedd ym maes y celfyddydau yng Nghymru. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar grantiau i artistiaid.
www.celf.cymru/

---

**Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**

Yn cynnwys gwybodaeth am y cymorth a roddir i actorion a cherddorion ifanc.
www.cbcdc.ac.uk/

---

**Tŷ Cerdd**

Mae'r wefan yn rhoi gwybodaeth am waith Tŷ Cerdd, gan gynnwys y grantiau a'r cyngor artistig a roddir i'w aelodau.
www.tycerdd.org

---

**Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru**

Rhoddir gwybodaeth am waith CCIC sy'n cynnwys drama, dawns a cherddoriaeth. Hefyd rhoddir dolenni i wefannau defnyddiol eraill.
www.nyaw.co.uk

---

**Celfyddydau Anabledd Cymru**

Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth a chyngor er mwyn cefnogi artistiaid anabl gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi a chyllid.
http://www.disabilityartscymru.co.uk/cy/

---

## Sefydliadau chwaraeon

**ChwaraeonCymru**

Mae'r wefan yn darparu amrywiaeth o wybodaeth gan gynnwys cyllid a chymorth o dan raglenni fel Elite Cymru a Talent Cymru. Hefyd tynnir sylw at y cyfleusterau a'r hyfforddiant sydd ar gael.
www.chwaraeon.cymru/

---

## Adnoddau sy'n benodol i bwnc

**Ymddiriedolaeth Mathemateg y DU (UKMT)**
Mae'r wefan hon yn darparu heriau mathemateg unigol a thîm cenedlaethol ynghyd â gweithgareddau cyfoethogi mathemategol eraill.
www.ukmt.org.uk

---

**Llenyddiaeth Cymru**

Gwybodaeth a chyngor ymarferol, adnoddau defnyddiol, a gwybodaeth am wasanaethau - Bwrsarïau Awduron, Gwasanaeth Hanfodol a Mentora - a all helpu awduron ar bob cam o'u gyrfa.
www.llenyddiaethcymru.org

---

**Cilt Cymru (Canolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd)**

Yn cynnwys adnoddau iaith y gellir eu lawrlwytho i ddysgwyr a chyngor ar yrfaoedd.
http://www.ciltcymru.org.uk/

---

**Eversheds Unlocked**

Yn darparu gwybodaeth am Eversheds Unlocked, sef rhaglen a anelir at fyfyrwyr sydd y cyntaf o'u teuluoedd i fynd i'r brifysgol, sy'n astudio mewn ysgolion gwladol ac sydd â brwdfrydedd gwirioneddol dros y proffesiwn cyfreithiol.
http://www.eversheds.com/global/en/where/europe/uk/overview/csr/eversheds-unlocked.page

---

## Sgiliau ac entrepreneuriaeth

**Syniadau Mawr Cymru**

Gwybodaeth i gefnogi entrepreneuriaid ifanc, lle gallant ddysgu am fyd busnes, cael cymorth i ddatblygu eu syniadau busnes a chymryd y camau cyntaf i fod yn fos arnynt eu hunain.
https://businesswales.gov.wales/bigideas/cy

---

**World Skills UK**

Gwybodaeth bellach am gystadlaethau sgiliau rhanbarthol a rhyngwladol gyda manylion am sut i gystadlu, gan gynnwys adnoddau i'w lawrlwytho.
www.worldskillsuk.org/

---

**Cystadleuaeth Sgiliau Cymru**

Porth cofrestru i'r sawl sydd am gymryd rhan mewn cystadlaethau sgiliau lleol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a redir gan rwydwaith o golegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau a arweinir gan gyflogwyr.
www.skillscompetitionwales.ac.uk

---

# Adnoddau:  Deunydd darllen a argymhellir

## Adroddiadau a chanllawiau sy'n benodol i Gymru

**Arolwg i ganfod y ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr mwy galluog a thalentog drwy Gymru (Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2015)**

Adroddiad annibynnol wedi'i lunio gan Markit Training and Consultancy Ltd er mwyn pennu'r strategaethau a ddefnyddiwyd gan ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach ac Awdurdodau Lleol er mwyn nodi, cefnogi, herio, monitro a thracio dysgwyr mwy galluog a thalentog er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial.
Lawrlwytho yn: http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/mat-across-wales/?lang=cy

---

**Adroddiad Terfynol Llysgennad Oxbridge yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, Mehefin 2014)**

Cafodd Paul Murphy AS ei benodi'n Llysgennad Oxbridge er mwyn nodi'r rhesymau dros y lleihad yn nifer y ceisiadau a derbyniadau i brifysgolion Caergrawnt a Rhydychen gan fyfyrwyr o Gymru.  Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r prosiect gan gynnwys y prif faterion ac argymhellion, ac mae hefyd yn nodi meysydd o arfer effeithiol.
Lawrlwytho yn: http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/seren/oxbridge-project/oxbridge-final-report/?lang=cy

---

**Cyflawni'r Her - Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog (Llywodraeth Cymru, Mai 2008)**

Mae'r ddogfen ganllaw hon wedi'i llunio er mwyn rhoi cyngor i ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) ar ddiwallu anghenion addysgol disgyblion mwy galluog a thalentog. Mae'r Safonau a nodir yn y canllawiau hyn yn anelu at gynorthwyo ysgolion ac AALlau i nodi, asesu a diwallu anghenion disgyblion mwy galluog a thalentog fel rhan o agenda gwella ysgol gyfan.
Lawrlwytho yn:
http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-meeting-the-challenge-cy.pdf

---

**Pecyn hyfforddiant mwy galluog a thalentog (NACE Cymru, Awst 2013)**

Bwriedir i'r deunyddiau yn y pecyn hyfforddiant hwn gynorthwyo ysgolion i ddarparu profiadau dysgu ymestynnol, o ansawdd ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog.
Lawrlwytho yn:
http://learning.gov.wales/resources/browse-all/mat-training-pack/?skip=1&lang=cy

---

## Ymchwil

**What works for gifted and talented pupils (Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA), 2003)**

Cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth er mwyn hysbysu'r Gymdeithas Llywodraeth Leol o'r goblygiadau i addysgu disgyblion dawnus a thalentog. Mae'r adolygiad yn ceisio awgrymu argymhellion ymarferol ar gyfer y prosesau sy'n cyfrannu at addysg ddawnus a thalentog. Ar sail y llenyddiaeth, nodwyd bod y prosesau hyn yn cynnwys dulliau adnabod, gwahaniaethu, cyfoethogi, cyflymu, trefniadaeth dosbarth, monitro a gwerthuso yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau unigolion amrywiol.
Lawrlwytho yn:
https://www.nfer.ac.uk/publications/LGT01/LGT01.pdf

---

**The impact of the Sutton Trust's Summer Schools (Ymddiriedolaeth Sutton, Ionawr 2012)**

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb byr o ganfyddiadau adroddiad a luniwyd gan Glwstwr Ymchwil Ehangu Cyfranogiad Prifysgol Bryste ar raglenni ysgol haf Ymddiriedolaeth Sutton.
Lawrlwytho yn:
http://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2014/08/summer-school-summary-final-draft.pdf

Mae'r adroddiad llawn ar gael yn:
http://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2012/01/full-summer-school-report-final-draft.pdf

---

**School and College-level Strategies to Raise Aspirations of High-achieving Disadvantaged Pupils (Adran Addysg Llywodraeth y DU, Ionawr 2014)**

Mae'r adroddiad yn edrych ar ganfyddiadau ymchwil mewn ysgolion uwchradd, adrannau chweched dosbarth a cholegau AB a gynhaliwyd gan TNS BMRB a'r Sefydliad Astudiaethau Polisi mewn Addysg (IPSE) yn 2012 a 2013. Mae'n ymchwilio i'r strategaethau a ddefnyddir gan ysgolion a cholegau i gefnogi disgyblion difreintiedig sy'n cyflawni'n uchel mewn gwahanol grwpiau oedran er mwyn dilyn llwybr Addysg Uwch ac, yn arbennig, i wneud cais i un o brifysgolion Grŵp Russell.
Lawrlwytho yn:
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/278117/RR296_-School_and_College-level_Strategies_to_Raise_Aspirations_of_High-achieving_Disadvantaged_Pupils_to_Pursue_Higher_Education_Investigation.pdf

---

**Benefits of Developing Vocational Excellence through Skills Competitions (Prifysgol Rhydychen, Medi 2013)**

Cafodd y briff ymchwil hwn ei gomisiynu gan y Gwasanaeth Prentisiaethau Cenedlaethol er mwyn edrych ar fanteision cystadlaethau sgiliau ar gyfer: cyfranogwyr; cyflogwyr a diwydiant; a cholegau a thiwtoriaid colegau. Mae hefyd yn gwneud rhai argymhellion i'r Gwasanaeth eu hystyried.
Lawrlwytho yn:
http://vocationalexcellence.education.ox.ac.uk/wordpress/wp-content/uploads/2014/02/Project-3-Research-brief.pdf

---

**Coffield et al 'Learning Styles & Pedagogy' (Canolfan Ymchwil Dysgu a Sgiliau, 2004)**

Mae'r ymchwil hon a arweiniwyd gan Frank Coffield yn adolygu prif fodelau dulliau dysgu, a'u goblygiadau o ran addysgu a dysgu ôl-16.
Lawrlwytho yn:
http://www.leerbeleving.nl/wp-content/uploads/2011/09/learning-styles.pdf

---

**The academic-vocational divide: Are notions of 'gifted & talented' relevant and useful to vocational education (Annie Haight, Tachwedd 2012)**

Papur a gyflwynwyd i gynhadledd ymchwil gyntaf Sefydliad Edge. Mae'n ystyried materion sy'n ymwneud â'r rhaniad rhwng yr academaidd a'r galwedigaethol mewn perthynas â dysgwyr talentog mewn addysg ymarferol, galwedigaethol a chymhwysol.

Lawrlwytho yn:
https://www.researchgate.net/publication/258818188_Haight_A_2012_The_academic-vocational_divide_Are_notions_of_'gifted_talented'_relevant_and_useful_to_vocational_education_Paper_presented_to_the_inaugural_research_conference_of_the_Edge_Foundation_Bi

---

**The Most Able Students: An update on progress since June 2013 (Ofsted Mawrth 2015)**

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried pa mor dda mae ysgolion uwchradd yn cefnogi eu myfyrwyr mwyaf galluog mewn ymateb i argymhellion adroddiad Oftsed yn 2013, a nododd nad oedd digon o ysgolion yn gosod disgwyliadau digon uchel i'w myfyrwyr.
Lawrlwytho yn:
https://www.gov.uk/government/publications/the-most-able-students-an-update-on-progress-since-june-2013

---

**Educating the Highly Able *(*Alan Smithers, a Pamela Robinson, y Ganolfan er Ymchwil Addysg a Chyflogaeth, Prifysgol Buckingham, Gorffennaf 2012)**

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y ffordd mae ysgolion yn cefnogi'r myfyrwyr mwyaf galluog er mwyn sicrhau bod y disgyblion disgleiriaf yn cyflawni eu potensial.
Lawrlwytho yn:
http://www.suttontrust.com/researcharchive/educating-the-highly-able-2/

---

## Canllawiau defnyddiol eraill

**Arweiniad Atodol: Dysgwyr Mwy Galluog a Thalentog (Estyn, Hydref 2017)**

Canllawiau i arolygwyr sy'n gwerthuso safonau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru.
Lawrlwytho yn:
https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/NIA%20Supplementary%20guidance%20-%20more%20able%20and%20talented%20cy.pdf

---

**Developing very able students at post-16 (Villiers Park, Mawrth 2009)**

Mae'r llawlyfr hwn yn anelu at rannu cyngor ymarferol ac arbenigedd er mwyn gwella dysgu ac addysgu ôl-16. Mae'n seiliedig ar y Safonau Ansawdd Sefydliadol ar gyfer Addysg Ddawnus a Thalentog (IQS), sef adnodd hunanwerthuso a ddefnyddir yn Lloegr i farnu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr galluog iawn.
Ar gael i'w brynu o:
http://www.villierspark.org.uk/wp-content/uploads/2014/05/Handbook-Flyer-2012d.pdf

---

**Exceptionally Able Students – Draft Guidelines for Teachers (NCCA, 2007)**

Mae'r canllaw hwn, a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol Cwricwlwm ac Asesu Iwerddon yn anelu at gefnogi dysgu ac addysgu myfyrwyr sy'n hynod alluog. Rhydd gyngor ymarferol fel rhestrau gwirio ac astudiaethau achos sy'n cwmpasu pynciau fel nodi myfyrwyr hynod alluog, eu proffiliau, a strategaethau ystafell ddosbarth ac ysgol gyfan ar gyfer cefnogi dysgwyr i wneud y cynnydd mwyaf posibl.
Lawrlwytho yn:
https://www.ncca.ie/media/1974/exceptionally_able_students_draft_guidelines_for_teachers.pdf

---

**Differentiating curriculum for gifted students (Sandra L Berger)**

Mae'r erthygl hon yn ystyried sut mae angen i fyfyrwyr dawnus gael cwricwlwm gwahanol priodol sydd wedi'i gynllunio i ymdrin â'u nodweddion, anghenion, galluoedd a buddiannau unigol.
Lawrlwytho yn:
http://www.davidsongifted.org/Search-Database/entry/A10342

---

**Gifted and Talented education: Guidance on addressing underachievement – planning a whole-school approach (DCSF, 2009)**

Mae'r canllawiau hyn gan Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd Llywodraeth y DU yn ymdrin â materion addysg ddawnus a thalentog i ddysgwyr sy'n tangyflawni neu'n wynebu risg o dangyflawni mewn ysgolion.
Lawrlwytho yn:
http://www.ttrb3.org.uk/wp-content/uploads/2012/08/guidance-on-addressing-underachievement-planning-a-whole-school-approach.pdf